# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

Dydd Mawrth, 15 Mai 2012
Tuesday, 15 May 2012

**Cynnwys**
**Contents**

3 Ethol Dirprwy Lywydd Dros Dro
Election of Temporary Deputy Presiding Officer

3 Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

25 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

28 Datganiad: Trawsnewid—Cyflawni ar y Cyd
Statement: Transformation—Collaborative Delivery

42 Rheoliadau Iechyd Meddwl (Atgyfeiriadau Gofal Sylfaenol a Chymhwysedd i Gynnal Asesiadau Iechyd Meddwl Sylfaenol) (Cymru) 2012
Mental Health (Primary Care Referrals and Eligibility to Conduct Primary Mental Health Assessments) (Wales) Regulations 2012

45 'Law yn Llaw at Iechyd'—Adroddiad Cynnydd Chwe Mis
'Together for Health'—Six-month Progress Report

70 Polisi Teithio Byw Llywodraeth Cymru
The Welsh Government's Active Travel Policy

94 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**The Presiding Officer:** The National Assembly for Wales is now in session.

**Y Llywydd:** Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Ethol Dirprwy Lywydd Dros Dro
## Election of Temporary Deputy Presiding Officer

**The Presiding Officer:** In the absence of the Deputy Presiding Officer, I ask the Assembly to elect a temporary Deputy Presiding Officer for the duration of today's Plenary meeting. Therefore, I invite nominations.

**Y Llywydd:** Yn absenoldeb y Dirprwy Lywydd, gofynnaf i'r Cynulliad ethol Dirprwy Lywydd dros dro ar gyfer Cyfarfod Llawn heddiw. Felly, rwyf yn gwahodd enwebiadau.

**Peter Black:** I nominate Angela Burns.

**Peter Black:** Rwyf yn enwebu Angela Burns.

**The Presiding Officer:** I therefore declare that Angela Burns is elected as temporary Deputy Presiding Officer for the duration of today's Plenary meeting.

**Y Llywydd:** Felly, rwy'n datgan bod Angela Burns wedi'i hethol yn Ddirprwy Lywydd dros dro ar gyfer Cyfarfod Llawn heddiw.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### Swyddi Newydd yn y Sector Preifat

### New Private-sector Jobs

***1. Eluned Parrott:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i greu swyddi newydd yn y sector preifat yng Nghymru. OAQ(4)0506(FM)*

***1. Eluned Parrott:*** *Will the First Minister make a statement on what measures the Welsh Government have taken to generate new private sector jobs in Wales. OAQ(4)0506(FM)*

**The First Minister (Carwyn Jones):** We are taking steps to improve the overall business environment and to help to create the conditions for the private sector to grow.

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Rydym yn cymryd camau i wella'r amgylchedd busnes cyffredinol ac i helpu i greu'r amodau a fydd yn galluogi'r sector preifat i dyfu.

**Eluned Parrott:** As you will be well aware, the construction sector has been particularly badly hit by the recession over the last few years. What measures will the Welsh Government introduce in the supplementary budget, which I understand is currently under discussion, to boost the construction industry in Wales?

**Eluned Parrott:** Fel y byddwch yn gwybod yn iawn, mae dirwasgiad y blynyddoedd diwethaf wedi cael effaith arbennig o ddrwg ar y sector adeiladu. Pa fesurau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyflwyno yn y gyllideb atodol, sydd, fel y deallaf, yn destun trafodaeth ar hyn o bryd, i roi hwb i'r diwydiant adeiladu yng Nghymru?

**The First Minister:** These are matters that are under discussion between two parties and an announcement will be made shortly.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r rhain yn faterion sy'n destun trafodaeth rhwng dwy blaid, a bydd cyhoeddiad yn cael ei wneud yn fuan.

**David Rees:** This afternoon, there is a science in the Assembly event in the Pierhead

**David Rees:** Mae digwyddiad gwyddoniaeth yn y Cynulliad yn cael ei gynnal yn adeilad y

building, showing science through innovation and economic activity. A 2010 survey highlighted the fact that chemical-based industries provided 21% of economic activity in the UK. Do you agree that the launch of the ‘Science for Wales’ strategy establishes the clear direction that the Welsh Government wishes to promote in scientific development in the private sector and academia?

Pierhead y prynhawn yma, sy’n dangos gwyddoniaeth drwy arloesedd a gweithgarwch economaidd. Amlygodd arolwg yn 2010 y ffaith bod diwydiannau sy’n seiliedig ar gemegion yn gyfrifol am 21% o weithgarwch economaidd yn y DU. A ydych chi’n cytuno bod lansiad strategaeth ‘Gwyddoniaeth i Gymru’ yn sefydlu’r cyfeiriad clir y mae Llywodraeth Cymru yn dymuno ei hyrwyddo ym maes datblygiad gwyddonol yn y sector preifat a’r byd academaidd?

**The First Minister:** Yes. The launch of ‘Science for Wales’ does indeed set out a programme for enhancing the quality and quantity of research in our universities and institutes and in industry itself. We believe that that will lead to more innovation and, ultimately, more jobs.

**Y Prif Weinidog:** Ydw. Mae’n wir fod lansiad ‘Gwyddoniaeth i Gymru’ yn cyflwyno rhaglen ar gyfer gwella ansawdd y gwaith ymchwil, a faint ohono a wneir, yn ein prifysgolion a’n sefydliadau ac ym myd diwydiant ei hun. Credwn y bydd hynny’n arwain at fwy o arloesi ac, yn y pen draw, at fwy o swyddi.

**Nick Ramsay:** What are you doing to promote jobs in the private sector specifically for women? There has been an improvement in unemployment figures over the last few months in terms of men employed in the private sector, but there has been an increase of 4,000 in the number of women who are out of work over a similar time span. Your Government pays lip service to equality issues, but what are you doing on the ground to make sure that more women are employed in the private sector?

**Nick Ramsay:** Beth rydych chi’n ei wneud i hyrwyddo swyddi yn y sector preifat ar gyfer merched yn benodol? Bu gwelliant yn y ffigurau diweithdra yn ystod y misoedd diwethaf o ran dynion a gyflogir yn y sector preifat, ond bu cynnydd o 4,000 dros gyfnod o amser tebyg yn nifer y menywod sy’n ddi-waith. Mae eich Llywodraeth yn esgus cefnogi materion cydraddoldeb, ond beth rydych yn ei wneud ar lawr gwlad i sicrhau bod mwy o ferched yn cael eu cyflogi yn y sector preifat?

**The First Minister:** At a time when the UK Government is trying to remove any reference to equality issues in developing policy, I find your comment a bit rich. If you look at the Wales economic growth fund, the Wales small and medium-sized enterprise investment fund, the microbusiness loan fund, the JEREMIE fund through Finance Wales and the digital development fund, you will see that those are just some examples of the many things that have been put in place in order to help businesses and create jobs.

**Y Prif Weinidog:** Ar adeg pan fo Llywodraeth y DU yn ceisio cael gwared ar unrhyw gyfeiriad at faterion cydraddoldeb wrth ddatblygu polisi, mae eich geiriau braidd yn hyf, yn fy marn i. Os ystyriwch gronfa twf economaidd Cymru, cronfa fuddsoddi Cymru mewn mentrau bach a chanolig, y gronfa fenthyciadau i ficrofusnesau, cronfa JEREMIE drwy Cyllid Cymru, a’r gronfa datblygu digidol, byddwch yn gweld mai ychydig o enghreifftiau yn unig yw’r rheini o’r nifer o bethau a roddwyd ar waith i helpu busnesau a chreu swyddi.

**Alun Ffred Jones:** Codais fater y cwymp cerrig yn chwarel y Penrhyn ym Methesda yr wythnos diwethaf yn y Cynulliad. Mae 60 o’r gweithwyr yno wedi cytuno i weithio pedwar diwrnod yr wythnos er mwyn ceisio diogelu’r swyddi, ond mae’r gweithwyr hynny yn

**Alun Ffred Jones:** I raised the issue of the rock fall at Penrhyn quarry in Bethesda in the Assembly last week. Sixty of the workers there have agreed to work a four-day week in order to try to safeguard their jobs, but those workers are facing hardships. Will you

wynebu caledi. A wnewch ymrwymo'ch Llywodraeth i helpu'r cwmni, yn benodol i geisio adfer y chwarel fel eu bod yn gallu gweithio'r garreg i gyd, er mwyn cael y gweithwyr yn ôl i'w swyddi'n llawn amser? Hefyd, a wnewch edrych ar gyfleoedd i helpu'r gweithwyr sy'n wynebu'r cyfnod amhenodol hwn o weithio pedwar diwrnod yr wythnos?

commit your Government to helping the company, specifically to try to restore the quarry so that they can work the whole rock face, so that the workers can all return to full-time working? Will you also look for opportunities to help the workers who are facing this open-ended period of four-day working?

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn hapus i weithio gyda'r cwmni a'r gweithwyr er mwyn diogelu'r swyddi ym Methesda, ac i ddatblygu'r chwarel yn y pen draw.

**The First Minister:** I would be happy to work with the company and the workers in order to safeguard the jobs in Bethesda, and ultimately to develop the quarry.

### Comisiynydd y Gymraeg

### Welsh Language Commissioner

***2. Aled Roberts:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y camau y mae'n eu cymryd i sicrhau bod gan Gomisiynydd y Gymraeg annibyniaeth weithredol ac ariannol. OAQ(4)0518(FM)*

***2. Aled Roberts:*** *Will the First Minister make a statement about the steps he is taking to ensure that the Welsh Language Commissioner has operational and financial independence. OAQ(4)0518(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae annibyniaeth y comisiynydd yn rhywbeth mae'r Llywodraeth yn ei werthfawrogi'n fawr a'i gefnogi'n llawn. Mae nifer o ddarpariaethau ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sy'n diogelu rhyddid y comisiynydd.

**The First Minister:** The commissioner's independence is something that the Government values and supports in full. There are a number of safeguards contained within the Welsh Language (Wales) Measure 2011 that protect the commissioner's freedom.

**Aled Roberts:** Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol bod y comisiynydd wedi mynegi pryder ynglŷn ag annibyniaeth ariannol. A ydych yn credu, o ran y comisiynwyr eraill hefyd, bod lle i fynd ymhellach na chyllidebau blynyddol, er mwyn sicrhau'r annibyniaeth honno?

**Aled Roberts:** I am sure that you know that the commissioner has expressed concern about financial independence. Do you believe that there is scope, for the other commissioners as well, to go further than annual budgets, in order to secure that independence?

**Y Prif Weinidog:** Nid yw hyn yn effeithio ar annibyniaeth. Er enghraifft, mae barnwyr yn cael eu talu gan y Llywodraeth, ac nid oes unrhyw un yn dweud nad ydynt yn annibynnol. Mae sawl comisiynydd ledled y Deyrnas Unedig sy'n cael eu hariannu yn y modd hwn. Mae'n bwysig sicrhau bod y comisiynydd yn annibynnol ac rydym yn cefnogi hyn yn fawr iawn.

**The First Minister:** This does not impact upon independence. For example, judges are paid by the Government, but no-one is saying that they are not independent. A number of commissioners across the UK are funded in this way. It is important to ensure that the commissioner is independent, and we are strongly supportive of that.

**Suzy Davies:** Brif Weinidog, mae strategaeth yr iaith Gymraeg yn rhag-weld cydweithio rhwng y comisiynydd a'r Llywodraeth, ond beth fydd yn digwydd os bydd blaenoriaethau'r comisiynydd, sydd wedi'u

**Suzy Davies:** First Minister, the Welsh language strategy talks of co-operation between the commissioner and the Government, but what will happen if the commissioner's independently set priorities

gosod yn annibynnol, yn gwrthdaro â rhai'r Gweinidog? Pwy fydd y dyfarnydd yn y berthynas honno a sut y byddwch yn sicrhau mai annibyniaeth y comisiynydd fydd flaenaf?

conflict with those of the Minister? Who will adjudicate in that relationship, and how will you ensure that the commissioner's independence takes priority?

**Y Prif Weinidog:** Mae'r comisiynydd yn annibynnol a bydd weithiau yn herio'r Llywodraeth. Mae hynny'n rhan o waith unrhyw gomisiynydd; rydym wedi gweld hynny gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru. Felly, nid oes problem os bydd y comisiynydd yn cymryd safbwynt gwahanol i'r Llywodraeth.

**The First Minister:** The commissioner is independent and will sometimes challenge the Government. That is part of the work of any commissioner; we have seen that with the Older People's Commissioner for Wales and with the Children's Commissioner for Wales. So, there is no problem with the commissioner taking a different view to the Government.

**Alun Ffred Jones:** Mae'r bobl a fu'n galw am Ddeddf iaith ac am weld comisiynydd yn ei le yn awyddus iawn i weld y safonau y bydd y comisiynydd yn eu cyflwyno yn dod gerbron y Cynulliad. Pryd y gallwn ddisgwyl gweld y safonau hynny gerbron y Cynulliad?

**Alun Ffred Jones:** The people who were calling for a language Act and for a commissioner are very keen to see the standards that the commissioner will introduce come before the Assembly. When can we expect to see those standards before the Assembly?

**Y Prif Weinidog:** Rwy'n cwrdd â'r comisiynydd cyn bo hir a byddaf yn trafod y mater hwn â hi.

**The First Minister:** I will meet the commissioner before long and we will discuss this matter.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

**The Leader of Plaid Cymru (Leanne Wood):** First Minister, will you clearly outline your Government's position on powers over energy consents greater than 50 MW? What exactly have you asked for?

**Arweinydd Plaid Cymru (Leanne Wood):** Brif Weinidog, a wnewch chi amlinellu'n glir safbwynt eich Llywodraeth ynghylch pwerau dros ganiatâd ynni sy'n fwy na 50 MW? Beth yn union yr ydych chi wedi gofyn amdano?

**The First Minister:** Historically, we have asked for the devolution of consents of up to 100 MW for renewable projects, both at sea and on land, but we see no reason why that limit should still remain, given the fact that the UK Government has proved intransigent on this point.

**Y Prif Weinidog:** Yn hanesyddol, rydym wedi gofyn am ddatganoli'r broses o roi caniatâd i brosiectau adnewyddadwy o hyd at 100 MW, ar y môr ac ar y tir, ond ni welwn unrhyw reswm pam y dylai'r terfyn hwnnw fodoli o hyd, o gofio nad yw Llywodraeth y DU wedi ildio ar y pwynt hwn.

**Leanne Wood:** In October 2010, your then Minister for Environment, Sustainability and Housing raised concerns in response to a statement on the feasibility study on tidal power in the Severn estuary, which stated that the scale and impact of even the smaller schemes would be unprecedented in an environmentally designated area and that providing compensation for the damage would be very challenging. Do you still share

**Leanne Wood:** Ym mis Hydref 2010, mynegodd eich Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ar y pryd bryderon mewn ymateb i ddatganiad ar yr astudiaeth o ddichonoldeb ynni'r llanw yn aber afon Hafren, a ddywedodd y byddai maint ac effaith y cynlluniau llai hyd yn oed yn ddigynsail mewn ardal ddynodedig amgylcheddol, ac y byddai darparu iawndal am y difrod yn heriol iawn. A ydych yn dal i

those concerns?

rannu'r pryderon hynny?

**The First Minister:** The right project for a Severn barrage is certainly something that could be taken forward. There are environmental concerns that would need to be addressed but, ultimately, this will always remain a matter for UK authorities, because of the cross-border nature of the barrage.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r prosiect cywir ar gyfer morglawdd Hafren yn sicr yn rhywbeth y gellid bwrw ymlaen ag ef. Mae pryderon amgylcheddol y byddai angen rhoi sylw iddynt, ond, yn y pen draw, bydd hyn yn parhau i fod yn fater i awdurdodau'r DU, oherwydd natur drawsffiniol y morglawdd.

**Leanne Wood:** Given that Westminster will ultimately make a decision on this, what assurances can you give us that any developments in the Severn estuary will provide for the maximum output with the minimum damage, and will be in the best national interest for Wales?

**Leanne Wood:** O ystyried mai San Steffan a fydd yn gwneud penderfyniad ar hyn yn y pen draw, pa sicrwydd y gallwch ei roi inni y bydd unrhyw ddatblygiadau yn aber afon Hafren yn sicrhau'r allbwn mwyaf ynghyd â'r difrod lleiaf, ac y bydd yn sicrhau'r budd cenedlaethol gorau i Gymru?

**The First Minister:** We would expect the UK authorities to be guided by the same regulations as those that exist in Wales—many of them are European regulations in any event. I would expect to see the barrage deliver in terms of energy generation, environmental protection and, of course, jobs. There are great opportunities for Wales, particularly for ports such as Port Talbot, in terms of manufacturing and maintaining the barrage.

**Y Prif Weinidog:** Byddem yn disgwyl i awdurdodau'r DU gael eu harwain gan yr un rheoliadau â'r rhai sy'n bodoli yng Nghymru—mae nifer ohonynt yn rheoliadau Ewropeaidd beth bynnag. Byddwn yn disgwyl gweld y morglawdd yn cyflawni o ran cynhyrchu ynni, amddiffyn yr amgylchedd ac, wrth gwrs, swyddi. Mae cyfleoedd gwych i Gymru, yn enwedig i borthladdoedd fel Port Talbot, o ran gweithgynhyrchu a chynnal y morglawdd.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** First Minister, your schools inspectorate, Estyn, has today pointed to failings in many schools to develop basic skills among 11 to 14-year-olds. That follows two previous Estyn reports stating that 40% of children entering secondary school have a reading age below their chronological age and Programme for International Student Assessment reports showing us slipping down the international league table. How many more reports do we need to see published before we start to see progress in this area?

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Brif Weinidog, mae eich arolygiaeth ysgolion, Estyn, wedi tynnu sylw heddiw at fethiannau mewn nifer o ysgolion o ran datblygu sgiliau sylfaenol ymysg plant rhwng 11 a 14 mlwydd oed. Daw hynny ar ôl dau adroddiad blaenorol gan Estyn a oedd yn nodi bod gan 40% o blant sy'n dechrau yn yr ysgol uwchradd oed darllen is na'u hoedran cronolegol, ac adroddiadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr a ddangosodd ein bod yn llithro i lawr y tabl cynghrair rhyngwladol. Faint yn rhagor o adroddiadau y mae'n rhaid eu cyhoeddi cyn inni ddechrau gweld cynnydd yn y maes hwn?

**The First Minister:** We welcome Estyn's report, we recognise the concerns that it identifies and, through the Minister's 20-point action plan to improve standards and performance in education, we are working to address these issues.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn croesawu adroddiad Estyn, rydym yn cydnabod y pryderon y mae'n eu nodi, a, thrwy gynllun gweithredu 20 pwynt y Gweinidog i wella safonau a pherfformiad mewn addysg, rydym yn gweithio i fynd i'r afael â'r materion hyn.

**Kirsty Williams:** The media are reporting

**Kirsty Williams:** Mae'r cyfryngau yn

that the Minister for Education and Skills will publish his national literacy programme later this week. What assurance can you give me and the people of Wales that this will be more successful in driving up standards than the skills framework created in 2008, which was supposed to do the very same thing?

adrodd y bydd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn cyhoeddi ei raglen llythrennedd genedlaethol yn ddiweddarach yr wythnos hon. Pa sicrwydd y gallwch ei roi i mi ac i bobl Cymru y bydd y strategaeth yn fwy llwyddiannus o ran codi safonau na'r fframwaith sgiliau a grëwyd yn 2008, y bwriadwyd iddo wneud yn union yr un peth?

**The First Minister:** The framework is designed to ensure that literacy and numeracy levels rise in Wales to levels at which we would all want them to be. The Minister has personally driven this issue and is very committed to it.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r fframwaith wedi'i gynllunio i sicrhau bod lefelau llythrennedd a rhifedd yng Nghymru yn codi i lefelau lle y byddai pob un ohonom am iddynt fod. Mae'r Gweinidog wedi ymgymryd â'r mater hwn yn bersonol ac mae'n ymrwymedig iawn iddo.

**Kirsty Williams:** The issue is what will be different in this intervention to the previous ones, which obviously failed to work. I know that you say that literacy is a priority, First Minister, but may I read to you what your previous Ministers for education have said?

**Kirsty Williams:** Y broblem yw beth fydd yn wahanol yn yr ymyriad hwn o'i gymharu â'r rhai blaenorol, a fethodd, yn amlwg. Gwn eich bod yn dweud bod llythrennedd yn flaenoriaeth, Brif Weinidog, ond a allaf ddarllen i chi yr hyn a ddywedodd eich Gweinidogion addysg blaenorol?

**'**Improving standards in the basic skills of literacy and numeracy is…key'.

'Mae gwella safonau'r medrau sylfaenol llythrennedd a rhifedd yn...allweddol.'

Rosemary Butler, Labour Minister for education, 1999.

Rosemary Butler, Gweinidog addysg Llafur, 1999.

'We have decided to give particular priority to basic skills'.

'Yr ydym wedi penderfynu rhoi blaenoriaeth benodol i sgiliau sylfaenol'.

Jane Davidson, Labour Minister for education, 2005.

Jane Davidson, Gweinidog addysg Llafur, 2005.

'One of our key priorities is improving levels of literacy'.

'Un o'n blaenoriaethau pennaf yw gwella lefel llythrennedd'.

Jane Hutt, Labour Minister for education, 2009.

Jane Hutt, Gweinidog addysg Llafur, 2009.

'My current priority is to raise literacy standards'.

Fy mlaenoriaeth ar hyn o bryd yw gwella safonau llythrennedd.

Leighton Andrews, Labour Minister for education, 2011.

Leighton Andrews, Gweinidog addysg Llafur, 2011.

In fact, the only Minister for education from whom I could not find a quote was you, Carwyn. If improving literacy has been a priority for every Labour Minister for education since 1999, what do you think has been going wrong?

Yn wir, yr unig Weinidog addysg nad oeddwn yn gallu dod o hyd i ddyfyniad ganddo oeddech chi, Carwyn. Os bu gwella llythrennedd yn flaenoriaeth i bob Gweinidog addysg Llafur er 1999, beth aeth o'i le yn eich barn chi?

**The First Minister:** I listened carefully to the leader of the Liberal Democrats as she went through her question at the speed of somebody reciting the terms and conditions of a financial services advert on the radio. I think that we caught some of it. However, the point is this: we have been consistent in our desire to raise literacy and numeracy, as evidenced by the question asked by the leader of the Liberal Democrats. Leighton Andrews, as the Minister for education, is the latest in a long line of Labour Ministers who will always continue to improve literacy and numeracy. I see nothing wrong with that.

**Y Prif Weinidog:** Gwrandewais yn ofalus ar arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol wrth iddi fynd drwy ei chwestiwn ar gyflymder rhywun sy’n adrodd telerau ac amodau mewn hysbyseb gwasanaethau ariannol ar y radio. Credaf ein bod wedi deall rhywfaint ohono. Fodd bynnag, y pwynt yw hyn: rydym wedi bod yn gyson yn ein dymuniad i godi lefelau llythrennedd a rhifedd, fel y gwelir yng nghwestiwn arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol. Leighton Andrews, y Gweinidog addysg, yw’r Gweinidog diweddaraf mewn cyfres hir o Weinidogion Llafur a fydd bob amser yn parhau i wella llythrennedd a rhifedd. Ni welaf ddim o’i le ar hynny.

**The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):** First Minister, how many new jobs will be created by a Firstsource call centre in Cardiff bay?

**Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies):** Brif Weinidog, faint o swyddi newydd a fydd yn cael eu creu gan ganolfan alwadau Firstsource ym mae Caerdydd?

**The First Minister:** Firstsource will protect 600 jobs in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Bydd Firstsource yn diogelu 600 o swyddi yng Nghymru.

**Andrew R.T. Davies:** It is interesting to hear your language, because in March, you professed that there would be 600 new jobs coming to Cardiff bay, despite the company indicating that it had never said that any new jobs would be created by this call centre—there would merely be transfers of jobs. Why did you choose to mislead the public when you made your initial announcement in March about the 600 jobs?

**Andrew R.T. Davies:** Mae’n ddiddorol clywed yr iaith a ddefnyddiwch, oherwydd ym mis Mawrth, gwnaethoch broffesu y byddai 600 o swyddi newydd yn dod i fae Caerdydd, er gwaethaf y ffaith bod y cwmni wedi nodi nad oedd erioed wedi dweud y byddai swyddi newydd yn cael eu creu gan y ganolfan alwadau—byddai swyddi’n cael eu trosglwyddo yn unig. Pam y gwnaethoch ddewis camarwain y cyhoedd pan wnaethoch eich cyhoeddiad cychwynnol ym mis Mawrth am y 600 o swyddi?

**The First Minister:** At the time that the comment was made, it was our belief that these would be new jobs. Subsequently, it has turned out that they are 600 jobs that will be kept in Cardiff, which otherwise would have moved to England.

**Y Prif Weinidog:** Pan wnaed y sylw, ein cred oedd y byddai’r rhain yn swyddi newydd. Wedi hynny, mae wedi dod yn glir mai 600 o swyddi a fydd yn cael eu cadw yng Nghaerdydd ydynt, a fyddai fel arall wedi symud i Loegr.

**Andrew R.T. Davies:** Obviously, you got it wrong in March, First Minister. However, this is a wider trend across the Government. Three weeks ago, I highlighted how Professor Chris Pollock had to resign from his position as scientific adviser to the Minister for Environment and Sustainable Development because he did not believe that the Government was using the best science on bovine TB eradication. Last week, we

**Andrew R.T. Davies:** Yn amlwg, gwnaethoch gamgymeriad ym mis Mawrth, Brif Weinidog. Fodd bynnag, mae hyn yn duedd ehangach ar draws y Llywodraeth. Dair wythnos yn ôl, tynnais sylw at y ffaith bod yr Athro Chris Pollock wedi gorfod ymddiswyddo o’i swydd fel cynghorydd gwyddonol i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy gan nad oedd yn credu bod y Llywodraeth yn defnyddio’r

highlighted the fact that the Minister for Health and Social Services, when she bailed out three health boards, was doing so despite her rhetoric in the autumn that if managers and directors of health boards did not come in on budget, they would face severe sanctions. Today, I have highlighted that you used your office in March to misconstrue the situation about the creation of new jobs. Do you not think that it is vital that, when Government Ministers speak, they are clear and concise and, above all, they carry through what they talk about—something that your Government is failing to do to date?

wyddoniaeth orau mewn perthynas â dileu TB mewn gwartheg. Yr wythnos diwethaf, gwnaethom dynnu sylw at y ffaith bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, pan fu iddi achub tri bwrdd iechyd, yn gwneud hynny er gwaethaf ei rhethreg yn yr hydref, pan ddywedodd os na fyddai rheolwyr a chyfarwyddwyr byrddau iechyd yn mantoli'r gyllideb byddent yn wynebu cosbau difrifol. Heddiw, rwyf wedi amlygu eich bod wedi defnyddio eich swydd ym mis Mawrth i gamddehongli'r sefyllfa ynghylch creu swyddi newydd. Onid ydych yn meddwl ei bod yn hanfodol, pan fydd Gweinidogion y Llywodraeth yn siarad, eu bod yn glir ac yn gryno ac, yn anad dim, yn bwrw ymlaen â'r hyn y maent yn siarad amdano ac yn ei gwblhau—sef rhywbeth y mae eich Llywodraeth wedi methu â'i wneud hyd yn hyn?

**The First Minister:** Let me remind the leader of the opposition of something that was said by the Wales Office when the Prime Minister went to Japan. It announced that there would be an investment by Panasonic in Wales. Has it ever led to anything? No. When I asked the Secretary of State what this mystery investment was, I was told that it was investment that we had brokered and that we were paying for. When I asked her why the Prime Minister felt that he should announce something that we as the Welsh Government were paying for, I was told that the UK Government has the right to announce anything that the Welsh Government does because the UK Government 'pays for Wales'. That is what she said to me, so I will take no lessons from the party opposite when it comes to creating jobs in Wales, because we are ensuring that we are creating jobs as it removes them, or in terms of being honest, because, after what we saw with the Panasonic announcement, it took the biscuit to hear the leader of the opposition say what he did.

**Y Prif Weinidog:** Gadewch imi atgoffa arweinydd yr wrthblaid am rywbeth a ddywedwyd gan Swyddfa Cymru pan aeth y Prif Weinidog i Japan. Cyhoeddodd y byddai Panasonic yn buddsoddi yng Nghymru. A yw hynny erioed wedi arwain at unrhyw beth? Nac ydyw. Pan ofynnais i'r Ysgrifennydd Gwladol beth oedd y buddsoddiad dirgel hwn, dywedwyd wrthyf ei fod yn fuddsoddiad yr ydym ni wedi'i frocera a'n bod ni'n talu amdano. Pan ofynnais iddi pam roedd y Prif Weinidog y DU yn teimlo y dylai ef gyhoeddi rhywbeth yr ydym ni fel Llywodraeth Cymru yn talu amdano, dywedwyd wrthyf fod gan Lywodraeth y DU yr hawl i gyhoeddi unrhyw beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud oherwydd mai Llywodraeth y DU sy'n talu am Gymru. Dyna a ddywedodd hi wrthyf; felly, nid wyf am ddysgu unrhyw wersi gan y blaid gyferbyn pan ddaw'n fater o greu swyddi yng Nghymru, gan ein bod ni'n sicrhau ein bod yn creu swyddi wrth i'r blaid honno gael gwared arnynt, neu o ran bod yn onest, oherwydd, ar ôl yr hyn a welsom o ran y cyhoeddiad ar Panasonic, roedd clywed arweinydd yr wrthblaid yn dweud yr hyn a ddywedodd yn rhagori ar y cyfan.

### Y Rhaglen Lywodraethu

### The Programme for Government

***3. Andrew R.T. Davies:*** *Sut y mae'r Prif Weinidog yn gweithio i gyflawni ei 'Raglen Lywodraethu' ar gyfer pobl Canol De*

***3. Andrew R.T. Davies:*** *How is the First Minister working to deliver his 'Programme for Government' for the people of South*

*Cymru. OAQ(4)0510(FM)*

*Wales Central. OAQ(4)0510(FM)*

**The First Minister:** We are making good progress in delivering our programme for government in all parts of Wales.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn gwneud cynnydd da wrth gyflawni ein rhaglen lywodraethu ym mhob rhan o Gymru.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you for that answer, First Minister. I have highlighted time and again the importance of Cardiff Airport in driving economic prosperity to South Wales Central and Wales more widely. You will be on a television programme tonight indicating that the Government is considering taking a strategic interest in the airport, namely purchasing an interest in it. When I asked you this question—

**Andrew R.T. Davies:** Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Rwyf wedi tynnu sylw dro ar ôl tro at ba mor bwysig yw Maes Awyr Caerdydd o ran hybu ffyniant economaidd Canol De Cymru a Chymru yn ehangach. Byddwch ar raglen deledu heno yn nodi bod y Llywodraeth yn ystyried cymryd diddordeb strategol yn y maes awyr, sef prynu cyfran ohono. Pan ofynnais y cwestiwn hwn i chi—

**The Presiding Officer:** Order. Are you coming to a question? This is not the time for leaders' questions, but for shorter, Members' questions.

**Y Llywydd:** Trefn. A ydych yn dod at gwestiwn? Nid dyma'r amser ar gyfer cwestiynau'r arweinwyr; dyma'r amser ar gyfer cwestiynau byrrach, gan Aelodau.

**Andrew R.T. Davies:** I am.

**Andrew R.T. Davies**: Rwy'n dod at gwestiwn.

**The Presiding Officer:** Then move to the question, please.

**Y Llywydd:** Ewch ymlaen at y cwestiwn, felly, os gwelwch yn dda.

1.45 p.m.

**Andrew R.T. Davies:** With respect, First Minister, when I asked you this question back in February, you highlighted the fact that you were considering a different ownership model that might, in your words, circumnavigate the funding rules—that is, the European funding rules. Are you in a position to say how you believe your actions would circumnavigate certain rules that currently prevent you from investing in Cardiff Airport?

**Andrew R. T. Davies:** Gyda pharch, Brif Weinidog, pan ofynnais y cwestiwn hwn i chi ym mis Chwefror, bu ichi bwysleisio'r ffaith eich bod yn ystyried model perchenogaeth gwahanol a allai, yn eich geiriau chi, osgoi'r rheolau cyllid—sef y rheolau cyllid Ewropeaidd. A ydych chi mewn sefyllfa i ddweud sut rydych yn credu y byddai eich gweithredoedd yn osgoi'r rheolau penodol sydd ar hyn o bryd yn eich atal rhag buddsoddi ym Maes Awyr Caerdydd?

**The First Minister:** If a new buyer were to be found for the airport, we might look, for example, at models including the Government holding preference shares in any holding company. We certainly would not want to buy an outright stake in the airport or buy the airport itself, certainly not for the price that it is being offered at.

**Y Prif Weinidog:** Os ceir hyd i brynwr newydd ar gyfer y maes awyr, efallai y byddwn yn edrych, er enghraifft, ar fodelau sy'n cynnwys y Llywodraeth yn dal cyfranddaliadau braint mewn unrhyw gwmni daliannol. Yn sicr, ni fyddwn eisiau prynu cyfran lawn yn y maes awyr, ac yn sicr ddim am y pris sy'n cael ei gynnig.

The leader of the opposition's political antennae are completely awry in this matter. I have had a great many e-mails from local people, people across Wales and from staff

Mae antena gwleidyddol arweinydd yr wrthblaid o chwith yn llwyr ar y mater hwn. Rwyf wedi cael nifer o e-byst gan bobl leol, gan bobl ledled Cymru a chan staff sy'n

who work at the airport, with many of them entirely in agreement with what I have said. The reality is that we have put £5 million on the table. We worked for two years to get European Commission approval for the funding package that we wanted to see taken forward, only for the owners to withdraw their £21 million at the end of those two years. As I said before, we have to make sure that the owners, Abertis, are ambitious to develop the airport. If they are not, let somebody else buy it to make a go of it.

gweithio yn y maes awyr, ac mae nifer ohonynt yn cytuno'n llwyr â'r hyn yr wyf wedi ei ddweud. Y gwir amdani yw ein bod wedi cynnig £5 miliwn. Buom yn gweithio am ddwy flynedd i gael cymeradwyaeth y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer y pecyn ariannu yr oeddem am ei gyflwyno, dim ond i'r perchnogion dynnu eu £21 miliwn yn ôl ar ddiwedd y ddwy flynedd hynny. Fel y dywedais o'r blaen, rhaid inni sicrhau bod y perchnogion, Abertis, yn uchelgeisiol wrth ddatblygu'r maes awyr. Os nad ydynt, gadewch i rywun arall ei brynu i roi cais arni.

**Esgeuluso Plant**

**Child Neglect**

***4. Lynne Neagle:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael ag esgeuluso plant yng Nghymru. OAQ(4)0513(FM)*

***4. Lynne Neagle:*** *Will the First Minister outline what steps the Welsh Government is taking towards tackling child neglect in Wales. OAQ(4)0513(FM)*

**The First Minister:** Key statutory agencies have legal duties to protect children from neglect. We have put in place a consolidated programme of work to strengthen arrangements that safeguard children and early intervention programmes such as Families First and Flying Start.

**Y Prif Weinidog:** Mae gan asiantaethau statudol allweddol ddyletswyddau cyfreithiol i amddiffyn plant rhag esgeulustod. Rydym wedi sefydlu rhaglen gyfunol o waith i gryfhau'r trefniadau sy'n diogelu plant a rhaglenni ymyrraeth gynnar megis Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.

**Lynne Neagle:** Action for Children's recent review of child neglect called for the creation of a legal duty for local authorities to ensure that sufficient early intervention services are in place, with better collection and analysis of statistics on neglect and earlier signposting for families who need extra support. These are important recommendations that need not cost the earth. Working with the Deputy Minister for Children and Social Services, will you commit to looking at these specific points to help ensure that we are doing everything we can to tackle the scourge of child neglect in Wales?

**Lynne Neagle:** Mae adolygiad diweddar Gweithredu Dros Blant ar esgeuluso plant yn galw am osod dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i sicrhau bod gwasanaethau ymyrraeth gynnar digonol yn eu lle, ynghyd â chasgliad a dadansoddiad gwell o ystadegau ar esgeuluso, a bod teuluoedd sydd angen cymorth ychwanegol yn cael eu cyfeirio'n gynt at wasanaethau. Mae'r rhain yn argymhellion pwysig nad oes yn rhaid iddynt gostio ffortiwn. Gan weithio gyda'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, a wnewch chi ymrwymo i edrych ar y pwyntiau penodol hyn i helpu i sicrhau ein bod yn gwneud popeth y gallwn ei wneud i fynd i'r afael â'r achosion lu o esgeuluso plant yng Nghymru?

**The First Minister:** I am very grateful to Action for Children for the work that it has done. We know that early intervention is crucial, and we expect to see co-operation and multi-agency working to ensure that child neglect is dealt with promptly and effectively.

**Y Prif Weinidog:** Rwy'n ddiolchgar iawn i Gweithredu dros Blant am y gwaith y mae wedi'i wneud. Rydym yn deall bod ymyrraeth gynnar yn hanfodol, ac rydym yn disgwyl gweld cydweithio a gwaith aml-asiantaeth i sicrhau bod esgeuluso plant yn cael sylw prydlon ac effeithiol.

**Mark Isherwood:** Following its 2011 report on child neglect, Action for Children called on the Welsh Government to ensure that agencies work together to fully understand the scale and impact of neglect in every area of Wales. How do you therefore respond to the report by the Children's Commissioner for Wales on advocacy services, which highlighted the failure of some councils to provide advocacy services for looked-after children?

**Mark Isherwood:** Yn dilyn ei adroddiad ar esgeuluso plant yn 2011, roedd Gweithredu dros Blant yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd i lawn ddeall maint ac effaith esgeulustod ym mhob rhan o Gymru. Sut felly ydych yn ymateb i'r adroddiad gan Gomisiynydd Plant Cymru ar wasanaethau eirioli, a amlygodd fethiant rhai cynghorau i ddarparu gwasanaethau eirioli i blant sy'n derbyn gofal?

**The First Minister:** As I have said, we expect agencies to work together to ensure early intervention. One way of doing that is through local service boards, which are able to identify and analyse child neglect data and use them effectively to plan early intervention services to address neglect as quickly as possible.

**Y Prif Weinidog:** Fel y dywedais, rydym yn disgwyl i asiantaethau weithio gyda'i gilydd i sicrhau ymyrraeth gynnar. Un ffordd o wneud hynny yw drwy fyrddau gwasanaethau lleol, sy'n gallu nodi a dadansoddi data esgeuluso plant a'u defnyddio'n effeithiol i gynllunio gwasanaethau ymyrraeth gynnar i fynd i'r afael ag esgeulustod cyn gynted ag y bo modd.

**Jocelyn Davies:** First Minister, some 50% of the children on the protection register are under the category that includes neglect. Last year, Action for Children highlighted the importance of the role of fathers. It called for more services to support some men in fulfilling this role. A year on, what steps have you taken to ensure that men who are in need of this help are better equipped to fulfil the needs of their children?

**Jocelyn Davies:** Brif Weinidog, mae tua 50% o'r plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn y categori sy'n cynnwys esgeuluso. Y llynedd, amlygodd Gweithredu dros Blant bwysigrwydd rôl tadau. Roedd yn galw am fwy o wasanaethau i gefnogi rhai dynion wrth gyflawni'r rôl hon. Flwyddyn yn ddiweddarach, pa gamau yr ydych wedi'u cymryd i sicrhau bod dynion sydd angen y cymorth hwn yn fwy cymwys i ateb anghenion eu plant?

**The First Minister:** We look to all bodies in this field to provide support and help to all parents, regardless of their sex. If you look at the social services Bill, you will see that it contains proposals on how we will improve safeguarding for children in the future.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn gofyn i bob corff yn y maes hwn i roi cefnogaeth a chymorth i bob rhiant, waeth beth fo'u rhyw. Os edrychwch ar y Bil gwasanaethau cymdeithasol, gwelwch ei fod yn cynnwys cynigion ar sut y byddwn yn gwella'r gwaith o ddiogelu plant yn y dyfodol.

**Rebecca Evans:** Failure to ensure that a child attends school and receives an education is a form of neglect that robs children of their best chance for a bright and successful future. How is the Welsh Government tackling the worrying school absence rates?

**Rebecca Evans:** Mae methiant i sicrhau bod plentyn yn mynd i'r ysgol ac yn cael addysg yn ffurf ar esgeuluso sy'n amddifadu plant o'u cyfle gorau i gael dyfodol disglair a llwyddiannus. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r cyfraddau absenoldeb mewn ysgolion sy'n peri pryder?

**The First Minister:** The issue of attendance is now part of the banding of schools. As part of the delivery of the behaviour and

**Y Prif Weinidog:** Mae'r mater o bresenoldeb bellach yn rhan o'r broses o fandio ysgolion. Yn rhan o'r broses o roi'r cynllun gweithredu

attendance action plan, meetings have been held with all local authorities to discuss their performance on school attendance and behaviour, and also to see what further tools might be needed in order to see the situation improve further.

ar ymddygiad a phresenoldeb ar waith, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda phob awdurdod lleol i drafod ei berfformiad o ran presenoldeb ac ymddygiad mewn ysgolion, a hefyd i weld pa ddulliau ychwanegol sydd eu hangen i wella'r sefyllfa ymhellach.

**Ysbytai Cyffredinol Dosbarth**

**District General Hospitals**

***5. Elin Jones:*** *Beth yw cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhwydwaith o Ysbytai Cyffredinol Dosbarth yng Nghymru. OAQ(4)0517(FM)*

***5. Elin Jones:*** *What are the Welsh Government's plans for the network of District General Hospitals in Wales. OAQ(4)0517(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Ei gadw.

**The First Minister:** To retain it.

**Elin Jones:** Pan rydym wedi trafod ysbytai cyffredinol yn y Siambr, Brif Weinidog, rydych wedi dweud yn aml nad ydych yn barod i dderbyn gwasanaethau nad ydynt yn saff i'r cleifion. Gan dderbyn hynny, a oes unrhyw wasanaethau yn yr ysbytai sydd ddim yn saff i gleifion heddiw, yn y mis Mai hwn?

**Elin Jones:** When we have discussed general hospitals in the Chamber, First Minister, you have often said that you are not willing to accept services that are not safe for patients. Accepting that, are there any services in the hospitals that are not safe for patients today, this May?

**Y Prif Weinidog:** Ni allwn osgoi casgliadau'r adroddiad 'Law yn Llaw at Iechyd'. Mae'r mater hwn yn rhywbeth sy'n synhwyrol i bob plaid ei ystyried. Y nod, wrth gwrs, yw sicrhau gwasanaethau sydd mor lleol ag sy'n bosibl, cadw'r rhwydwaith o ysbytai sydd gennym, ond hefyd sylweddoli bod rhai gwasanaethau, wrth edrych ar yr adroddiad, a fyddai'n gallu cael eu delifro mewn ffordd fwy effeithiol i bobl o ran eu diogelwch. Mae hwn yn rhywbeth rydym ni a'r byrddau iechyd yn ei ystyried ar hyn o bryd.

**The First Minister:** We cannot avoid the conclusions of the 'Together for Health' report. This matter is something that it is sensible for all parties to consider. The aim, of course, is to ensure services that are as local as possible, to retain the network of hospitals that we have, but also to accept that there are certain services, in looking at the report, that could be delivered to people in a more effective way in terms of their own safety. This is something that we are currently considering, as are the health boards.

**William Graham:** In Cabinet, your Minister for Health and Social Services said that the expected consequence of meeting the case for change will mean ensuring a reduction in the number of admissions to and reliance on hospital beds in district general hospitals, the number of sites providing 24/7 consultant accident and emergency services needing to be reduced, and reducing the number of sites providing emergency general surgery services. To be realistic, is there still a role for all existing district general hospitals in Wales?

**William Graham:** Yn y Cabinet, dywedodd eich Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mai canlyniad disgwyliedig gwneud newidiadau yw sicrhau gostyngiad yn nifer y derbyniadau i welyau ysbyty mewn ysbytai cyffredinol dosbarth a'r ddibyniaeth arnynt, lleihau nifer y safleoedd sy'n darparu gwasanaethau damweiniau ac achosion brys 24/7, a lleihau nifer y safleoedd sy'n darparu gwasanaethau llawfeddygol cyffredinol brys. Yn realistig, a oes rôl o hyd i bob ysbyty cyffredinol dosbarth presennol yng Nghymru?

**The First Minister:** Absolutely. There is no question mark about the future of the district general hospitals. Some services may change

**Y Prif Weinidog:** Yn sicr. Nid oes marc cwestiwn ynghylch dyfodol ysbytai cyffredinol dosbarth. Efallai y bydd rhai

where it is possible to see surgery performed more safely and where surgeons are performing more operations than they are now. That is something that any sensible organisation will need to consider. Of course, we want to ensure that when we talk about services being delivered 'locally', that they are delivered as close to people's homes as possible. That means looking at which services could be delivered outside the hospital setting by GPs or nurses. I think that is something that the people of Wales would welcome.

gwasanaethau yn newid lle mae'n bosibl i lawdriniaethau gael eu gwneud mewn modd mwy diogel a lle mae llawfeddygon yn gwneud mwy o driniaethau nag y maent yn awr. Mae hynny'n rhywbeth y byddai angen i unrhyw sefydliad synhwyrol ei ystyried. Wrth gwrs, pan fyddwn yn sôn am wasanaethau'n cael eu darparu 'yn lleol', rydym am sicrhau eu bod yn cael eu darparu mor agos at gartrefi pobl ag y bo modd. Mae hynny'n golygu edrych ar y gwasanaethau y gellir eu cynnig y tu allan i'r ysbyty gan feddygon teulu neu nyrsys. Credaf fod hynny'n rhywbeth y byddai pobl Cymru yn ei groesawu.

**Y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol**

**The Agricultural Wages Board**

***6. Mick Antoniw:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu unrhyw drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch diddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol. OAQ(4)0511(FM)*

***6. Mick Antoniw:*** *Will the First Minister outline any discussions the Welsh Government has had with the UK Government regarding the abolition of the Agricultural Wages Board. OAQ(4)0511(FM)*

**The First Minister:** The Deputy Minister has had a number of meetings with UK Government Ministers about the future of the board. There have been ongoing discussions with the Department for Environment, Food and Rural Affairs on this issue. Discussions thus far have been fruitful and cordial.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Dirprwy Weinidog wedi cael nifer o gyfarfodydd gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynghylch dyfodol y bwrdd. Cafwyd trafodaethau parhaus gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar y mater hwn. Bu'r trafodaethau hyd yma yn ffrwythlon a gwresog.

**Mick Antoniw:** First Minister, the Agricultural Wages Board, as you know, negotiates terms and conditions and wages for thousands of Welsh agricultural workers. As agriculture is a devolved area, could you outline the Government's views on the proposed abolition and confirm that the Welsh Government will look seriously at the possibility of retaining the board in Wales for the benefit of Welsh agricultural workers?

**Mick Antoniw:** Brif Weinidog, mae'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, fel y gwyddoch, yn trafod telerau ac amodau a chyflogau miloedd o weithwyr amaethyddol Cymru. Gan fod amaethyddiaeth yn faes datganoledig, a allwch amlinellu barn y Llywodraeth am y bwriad i ddiddymu'r bwrdd a chadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn edrych o ddifrif ar y posibilrwydd o gadw'r bwrdd yng Nghymru er budd gweithwyr amaethyddol Cymru?

**The First Minister:** Yes, that is something that we want to look at. What happens in England is a matter for the UK Government. The discussions that have taken place so far have revolved around ensuring that if the AWB goes on an England and Wales basis, there will be a way of ensuring that its functions are carried out here in Wales on a devolved basis.

**Y Prif Weinidog:** Gallaf; rydym eisiau edrych ar hynny. Mae'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr yn fater i Lywodraeth y DU. Mae'r trafodaethau sydd wedi digwydd hyd yn hyn wedi ymwneud â sicrhau, os bydd y bwrdd yn parhau o dan drefn sy'n seiliedig ar Gymru a Lloegr, y bydd ffordd o sicrhau y bydd modd gweithredu ei swyddogaethau yng Nghymru ar sail datganoledig.

**Antoinette Sandbach:** First Minster, I was very interested to hear that reply because, of course, while agriculture is devolved, I do not believe that employment law is. Therefore, can you confirm, in your discussions with DEFRA, what assessment has been made of the cost of potentially maintaining an agricultural wages board in Wales? Also, have you looked at other options that could be used to provide the kind of protections that are being referred to by Mick Antoniw?

**Antoinette Sandbach:** Brif Weinidog, roedd o ddiddordeb mawr imi glywed yr ymateb hwnnw oherwydd, wrth gwrs, mae amaethyddiaeth wedi'i datganoli, ond nid wyf yn credu mai felly yw o ran cyfraith cyflogaeth. Felly, a allwch gadarnhau, yn eich trafodaethau â DEFRA, pa asesiad a wnaed o gost cynnal a chadw bwrdd cyflogau amaethyddol yng Nghymru? Yn ogystal, a ydych chi wedi ystyried opsiynau eraill ar gyfer darparu'r math o ddiogelwch y cyfeiriodd Mick Antoniw atynt?

**The First Minister:** We believe that the Agricultural Wages Board provides that level of protection. I am surprised that the Member does not feel able to support the principles that the board encapsulates. From our point of view, it is clear that agriculture is devolved. The discussions that are taking place at the moment revolve around how to ensure that if the AWB comes to an end across England and Wales, there will be a structure in place in Wales. I have to say that the discussions that have taken place between the Welsh Government and DEFRA have been cordial and undertaken with a view to determining the matter in a way that is acceptable to both Governments.

**Y Prif Weinidog:** Rydym o'r farn bod y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn cynnig y lefel honno o ddiogelwch. Rwy'n synnu nad yw'r Aelod yn teimlo y gall gefnogi'r egwyddorion y mae'r bwrdd yn eu crisialu. O'n safbwynt ni, mae'n amlwg bod amaethyddiaeth wedi'i datganoli. Mae'r trafodaethau sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd yn ymwneud â sut i sicrhau, os bydd y bwrdd yn dod i ben ledled Cymru a Lloegr, y bydd strwythur wedi'i roi ar waith yng Nghymru. Rhaid imi ddweud y bu'r trafodaethau a gafwyd rhwng Llywodraeth Cymru a DEFRA yn wresog gyda'r bwriad o benderfynu ar y mater mewn ffordd sy'n dderbyniol i'r ddwy Lywodraeth.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Lywydd, diolchaf i'r Prif Weinidog am ei atebion. Efallai na fydd yn cofio, ond ym 1919, yn Nhŷ'r Cyffredin, gofynnodd fy rhagflaenydd, Haydn Jones—Syr Henry Haydn Jones ar ôl hynny—am sefydlu bwrdd ar gyfer cyflogau amaethyddol yng Nghymru. Onid yw'r Prif Weinidog yn cytuno bod yr amser wedi hen basio pryd y dylai fod gennym fwrdd felly wedi'i ddatganoli? A ydyw hefyd yn ymwybodol bod y bwrdd yn yr Alban heddiw ddiwethaf wedi gwneud dyfarniad am y flwyddyn ariannol nesaf, ac y byddai gweithwyr amaethyddol, ac o leiaf un undeb amaethyddol yng Nghymru, yn croesawu penderfyniad i barhau â gwaith y bwrdd yng Nghymru?

**Lord Elis-Thomas:** Presiding Officer, I thank the First Minister for his responses. Perhaps he will not recall this, but in 1919, in the House of Commons, my predecessor, Haydn Jones—Sir Henry Haydn Jones later—called for the establishment of an agricultural wages board for Wales. Does the First Minister not agree that the time has long since past when we should have such a board devolved to Wales? Is he also aware that only today the board in Scotland has made an announcement on the next financial year, and agricultural workers and at least one agricultural union in Wales would welcome a decision to continue with the work of the board in Wales?

**Y Prif Weinidog:** Mae'n bwysig dros ben bod ffordd i sicrhau cyflogau gweithwyr amaethyddol yng Nghymru. Mae'r pwynt wedi cael ei wneud nad yw'r gyfraith ar gyflogaeth wedi'i datganoli. Mae hynny hefyd yn wir yn yr Alban, ond mae gan yr

**The First Minister:** It is very important that there is a way of securing the wages of agricultural workers in Wales. The point has been made that employment law has not been devolved. That is also true in Scotland, but in Scotland there is a board that deals with

Alban fwrdd sy'n delio â rhywbeth maen nhw'n ei ystyried i fod yn fater amaethyddol. Dyna yw ein barn ni fel Llywodraeth hefyd: yng Nghymru, fel yn yr Alban, rhywbeth yn ymwneud ag amaethyddiaeth yw hwn, ac felly y mae wedi'i ddatganoli.

something that they consider to be an agricultural matter. That is also our opinion as a Government: in Wales, as in Scotland, this is a matter concerning agriculture and, therefore, it has been devolved.

**Cartrefi Gofal Preswyl**

**Residential Care Homes**

***7. Mark Drakeford:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol cartrefi gofal preswyl Cymru a arferai fod o dan reolaeth y cwmni Four Seasons. OAQ(4)0514(FM)*

***7. Mark Drakeford:*** *Will the First Minister make a statement on the future of Welsh residential care homes previously under the control of the company Four Seasons. OAQ(4)0514(FM)*

**The First Minister:** We understand that Terra Firma has made a substantial investment in Four Seasons. However, Four Seasons will continue to operate and run seven care homes in Wales. The continuity of care for the residents that are affected remains our overwhelming priority. The Care and Social Services Inspectorate Wales will monitor the operation of each home during the re-financing process.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn deall bod Terra Firma wedi gwneud buddsoddiad sylweddol yn Four Seasons. Fodd bynnag, bydd Four Seasons yn parhau i redeg saith cartref gofal yng Nghymru. Ein prif flaenoriaeth o bellffordd o hyd yw dilyniant gofal ar gyfer y trigolion sy'n cael eu heffeithio. Bydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn monitro'r modd y mae pob un o'r cartrefi'n gweithredu yn ystod y broses o ail-ariannu.

**Mark Drakeford:** Here is how the takeover of Four Seasons by Terra Firma was reported in the national financial press:

**Mark Drakeford:** Dyma sut y cyfeiriwyd yn y wasg ariannol genedlaethol at sut y bu i Terra Firma feddiannu Four Seasons:

'Guy Hands, the tax exile and private-equity baron best known for his disastrous debt-fuelled takeover of EMI, is poised to snap up Britain's largest care home chain'.

Mae Guy Hands, sy'n alltud treth ac yn farwn ecwiti preifat, sy'n fwyaf adnabyddus am feddiannu EMI gan greu dyled drychinebus, yn barod i brynu cadwyn cartrefi gofal mwyaf Prydain.

First Minister, would you be willing to consider the calls that have come from right across the political spectrum for the law to be changed so that, in future, when any individual or company seeks to take responsibility for the residential care of vulnerable older people, they should be made subject to a fit-and-proper-person test?

Brif Weinidog, a fyddech yn barod i ystyried y galw ar draws y sbectrwm gwleidyddol am newid yn y gyfraith i sicrhau, yn y dyfodol, pan fydd unrhyw unigolyn neu gwmni yn ceisio cymryd cyfrifoldeb dros ofal preswyl pobl hŷn sy'n agored i niwed, eu bod yn gorfod cael eu hasesu i weld a ydynt yn gymwys ac addas?

**The First Minister:** The wording from the article that you described will not fill Members with the greatest of confidence in the future of Four Seasons. Current legislation applies a robust set of pre-registration requirements that allow CSSIW to ensure that anyone seeking to operate a care home is fit to do so, and it extends to their financial position. We are looking to use

**Y Prif Weinidog:** Ni fydd geiriad yr erthygl a ddisgrifiwyd gennych yn rhoi'r hyder mwyaf i Aelodau yn nyfodol Four Seasons. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn pennu cyfres gadarn o ofynion cyn cofrestru sy'n caniatáu i AGGCC sicrhau bod unrhyw un sydd am redeg cartref gofal yn addas i wneud hynny, ac mae hynny'n cynnwys ei sefyllfa ariannol. Rydym yn bwriadu defnyddio Bil

the social services (Wales) Bill to strengthen the current regulatory system, which will include ensuring that our approach to the assessment of the financial viability of providers is as robust as possible. We will take effective enforcement action where necessary.

gwasanaethau cymdeithasol (Cymru) i gryfhau'r system reoleiddio bresennol, a fydd yn cynnwys sicrhau bod ein dulliau o asesu hyfywedd ariannol y darparwyr mor gadarn ag y bo modd. Byddwn yn cymryd camau gorfodi effeithiol lle y bydd angen gwneud hynny.

**William Graham:** As you said, First Minister, those homes will still be run by Four Seasons. I have no doubt that you will join me in order to reassure residents and their families that the firm employs 30,000 people across the United Kingdom, caring for 20,000 residents, and ranks among the highest rated providers in terms of quality of care.

**William Graham:** Fel y dywedasoch, Brif Weinidog, Four Seasons fydd yn parhau i redeg y cartrefi hynny. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y byddwch yn ymuno â mi er mwyn rhoi sicrwydd i'r trigolion a'u teuluoedd bod y cwmni yn cyflogi 30,000 o bobl ledled y Deyrnas Unedig, yn gofalu am 20,000 o drigolion, ac yn cael eu cyfrif ymysg y darparwyr gorau o ran ansawdd y gofal.

**The First Minister:** It is important that the quality of care continues with a change of ownership. That is a situation that we will be monitoring closely.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n bwysig bod ansawdd y gofal yn parhau wrth i'r perchenogion newid. Dyna'r sefyllfa y byddwn yn ei monitro'n agos.

**Lindsay Whittle:** First Minister, has the Government had any assurances from Four Seasons that its remaining debts will be paid by the maturity date of this year?

**Lindsay Whittle:** Brif Weinidog, a yw'r Llywodraeth wedi cael unrhyw sicrwydd gan Four Seasons y bydd y dyledion sy'n weddill ganddo'n cael eu talu erbyn y dyddiad aeddfedu eleni?

**The First Minister:** That is a matter for Four Seasons and Terra Firma. We are concerned with the care of people who are under the care of Four Seasons and through CSSIW we will continue to monitor the situation closely to ensure that the level of care does not drop.

**Y Prif Weinidog:** Mae hynny'n fater i Four Seasons a Terra Firma. Gofal y rhai sydd yng ngofal Four Seasons sy'n fater i ni, a thrwy AGGCC byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa yn ofalus i sicrhau nad yw lefel y gofal yn dirywio.

### Llywodraeth Leol

### Local Government

***8. Nick Ramsay:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer llywodraeth leol. OAQ(4)0509(FM)*

***8. Nick Ramsay:*** *Will the First Minister make a statement on his priorities for local government. OAQ(4)0509(FM)*

**The First Minister:** Our priorities are set out clearly in the programme for government.

**Y Prif Weinidog:** Mae ein blaenoriaethau wedi eu nodi'n glir yn y rhaglen lywodraethu.

**Nick Ramsay:** Before you accuse me of being negative, I welcome the announcement of £60 million of funding that was made by the Minister for Finance recently in terms of the local government borrowing initiative. Given that the people of Wales have recently voted in local authority elections, would it not be better to give local authorities some flexibility as regards the use of that money,

**Nick Ramsay:** Cyn i chi fy nghyhuddo o fod yn negyddol, rwyf yn croesawu'r cyhoeddiad o £60 miliwn o gyllid a wnaed gan y Gweinidog Cyllid yn ddiweddar o ran menter benthyca llywodraeth leol. Gan fod pobl Cymru wedi pleidleisio yn ddiweddar mewn etholiadau awdurdod lleol, oni fyddai'n well rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i awdurdodau lleol o ran defnyddio'r arian hwnnw, yn

rather than saying, as you have, that they have to spend it on pot-holes, roads or a specific area? Should it not be a matter of local choice?

hytrach na dweud, fel y gwnaethoch chi, fod yn rhaid iddynt ei wario ar dyllau yn y ffyrdd, ar ffyrdd neu ar faes penodol? Oni ddylai fod yn fater o ddewis lleol?

**The First Minister:** I understand that it was the local authorities that suggested that this is what the money should be spent on. We are very much aware on these benches that there were elections a fortnight ago.

**Y Prif Weinidog:** Deallaf mai'r awdurdodau lleol a awgrymodd y dylid gwario'r arian yn y modd hwn. Rydym yn ymwybodol iawn ar y meinciau hyn y bu etholiadau bythefnos yn ôl.

**Mike Hedges:** After Labour winning outright control of 10 councils a fortnight ago, and with more councils coming under Labour leadership as negotiations go on, I am sure that the First Minister is very pleased with that, as am I. What discussions are planned with the new local authority leaders about the collaboration agenda so that we can start taking that forward?

**Mike Hedges:** Wedi i Lafur ennill rheolaeth lwyr o 10 cyngor bythefnos yn ôl, a chyda mwy o gynghorau yn dod o dan arweinyddiaeth Llafur, wrth i'r trafodaethau fynd yn eu blaenau, rwy'n siŵr bod y Prif Weinidog yn falch iawn o hynny, fel yr wyf i. Pa drafodaethau sydd wedi eu cynllunio gydag arweinwyr newydd yr awdurdodau lleol ar yr agenda cydweithio fel y gallwn ddechrau ei ddatblygu?

2.00 p.m.

**The First Minister:** This is a matter that will be taken forward by the Minister. Collaboration is still an exceptionally important part of local authorities' work, and it will be crucial, in order to deliver for the people of Wales, that collaboration continues to move forward.

**Y Prif Weinidog:** Mae hwn yn fater a fydd yn cael ei ddatblygu gan y Gweinidog. Mae cydweithio'n dal i fod yn rhan eithriadol o bwysig o waith awdurdodau lleol ac, er mwyn cyflawni dros bobl Cymru, bydd yn hanfodol bod cydweithio'n parhau i symud ymlaen.

**Iechyd a Diogelwch**

**Health and Safety**

***9. Vaughan Gething:*** *Pa gamau fydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hybu iechyd a diogelwch yn y gwaith. OAQ(4)0515(FM)*

***9. Vaughan Gething:*** *What steps will the Welsh Government take to promote health and safety at work. OAQ(4)0515(FM)*

**The First Minister:** The Welsh Government's 'Healthy Working Wales' workplace health programme includes support for employers on health and safety at work, working in partnership with Public Health Wales and the Health and Safety Executive.

**Y Prif Weinidog:** Mae rhaglen iechyd yn y gweithle Llywodraeth Cymru, 'Cymru Iach ar Waith', yn cynnwys cymorth i gyflogwyr ynghylch iechyd a diogelwch yn y gwaith, gan weithio mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

**Vaughan Gething:** Thank you for that response, First Minister. You may be aware that around 20,000 people across the UK die in workplace accidents every year, and that approximately 1.9 million people of working age in the UK currently live with an injury or illness made worse, or caused, by their jobs. You will also be aware that the UK

**Vaughan Gething:** Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Efallai eich bod yn gwybod bod tua 20,000 o bobl ledled y DU yn marw mewn damweiniau yn y gweithle bob blwyddyn, a bod gan tua 1.9 miliwn o bobl o oedran gweithio yn y DU anaf neu salwch a waethygwyd, neu a achoswyd, gan eu swyddi. Byddwch hefyd yn gwybod y

Government is cutting by 35% its funding for the Health and Safety Executive next year. Do you share my concerns that the UK Government-led campaign to demonise ‘health and safety’ will undermine hard-won gains in workplace safety and lead to more workers being injured or killed simply by doing their job?

bydd Llywodraeth y DU yn lleihau ei chyllid ar gyfer yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch y flwyddyn nesaf 35%. A ydych yn pryderu fel yr wyf fi y bydd yr ymgyrch a arweinir gan Lywodraeth y DU i bardduo ‘iechyd a diogelwch’ yn tanseilio’r llwyddiannau y gwnaed gwaith caled i’w cyflawni ym maes diogelwch yn y gweithle, ac yn arwain at fwy o weithwyr yn cael eu hanafu neu eu lladd dim ond wrth iddynt wneud eu gwaith?

**The First Minister:** The reality is that, for many years in Wales, we were used to people being killed almost daily, whether in the coal, steel or agriculture industries. Much of the reason why we do not see people being killed or injured at the same rate—although it is still too high—is because of health and safety law and its enforcement. Any reining back of either the law or its enforcement will lead to more people being injured and, sadly, more people being killed. The reality is that health and safety law has led to greater health and safety, and it should be tinkered with at the UK Government’s peril.

**Y Prif Weinidog:** Y gwir amdani yw, am nifer o flynyddoedd yng Nghymru, ein bod wedi arfer â phobl yn cael eu lladd bron bob dydd, boed hynny yn y diwydiannau glo, dur neu amaethyddiaeth. Mae llawer o’r rheswm pam nad ydym yn gweld pobl yn cael eu lladd neu eu hanafu ar yr un raddfa—er ei bod yn dal yn rhy uchel—yn ymwneud â chyfraith iechyd a diogelwch a’i gorfodi. Bydd unrhyw gam i ffrwyno’r gyfraith neu’r gwaith o’i gorfodi yn arwain at fwy o bobl yn cael eu hanafu ac, yn anffodus, at fwy o bobl yn cael eu lladd. Y realiti yw bod cyfraith iechyd a diogelwch wedi arwain at iechyd a diogelwch gwell, a gwae Llywodraeth y DU os bydd yn ymyrryd â hi.

**David Rees:** A fortnight ago, an event was held here in the Senedd recognising Workers’ Memorial Day, and reflecting upon the loss of many people who were simply doing their job. The numbers have already been cited in the previous question. Speakers at the event highlighted the UK Government’s atrocious stance on this. Do you agree that the continuing support of the Wales union learning fund is a vehicle by which we can promote health and safety at work?

**David Rees:** Bythefnos yn ôl, cynhaliwyd digwyddiad yma yn y Senedd i nodi Diwrnod Cofio Gweithwyr, ac i fyfyrio ar y nifer o bobl a gollwyd wrth wneud eu gwaith yn unig. Mae’r niferoedd wedi’u crybwyll eisoes yn y cwestiwn blaenorol. Tynnodd siaradwyr yn y digwyddiad sylw at safiad gwael iawn Llywodraeth y DU ar y mater hwn. A ydych chi’n cytuno bod cefnogaeth barhaus cronfa ddysgu undebau Cymru yn fodd inni hyrwyddo iechyd a diogelwch yn y gwaith?

**The First Minister:** We know that the HSE’s own evaluation of the impact of union safety representatives’ training showed that the more training they underwent, the greater the positive impact at work. It is exceptionally important to ensure that not only are there, first of all, union members, and then union safety representatives, but, finally, those representatives are trained up to the highest degree possible.

**Y Prif Weinidog**: Rydym yn gwybod bod gwerthusiad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ei hun o effaith hyfforddiant i gynrychiolwyr diogelwch undebau wedi dangos mai po fwyaf o hyfforddiant y maent yn ymgymryd ag ef, po fwyaf yw’r effaith gadarnhaol yn y gwaith. Mae’n eithriadol o bwysig sicrhau nid yn unig fod aelodau o’r undebau, yn gyntaf oll, ac yna gynrychiolwyr diogelwch undebau, ond, yn olaf, fod y cynrychiolwyr hynny’n cael cymaint o hyfforddiant â phosibl.

**Gwella'r Amgylchedd mewn Ardaloedd Trefol**

**Improving the Environment in Urban Areas**

***10. Julie Morgan***: *Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i wella'r amgylchedd i bobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol. OAQ(4)0507(FM)*

***10. Julie Morgan***: *What plans does the First Minister have to improve the environment for people living in urban areas. OAQ(4)0507(FM)*

**The First Minister:** At the Environment Matters conference yesterday, the Minister for environment set out how we will support communities to make a real difference to their local environment and secure the wider skills, jobs and wellbeing benefits.

**Y Prif Weinidog:** Ddoe, yng nghynhadledd Mae'r Amgylchedd yn Cyfri, dywedodd Gweinidog yr amgylchedd sut y byddwn yn cefnogi cymunedau i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w hamgylchedd lleol a sicrhau'r manteision ehangach o ran sgiliau, swyddi a lles.

**Julie Morgan:** I thank the First Minister for his response. One of the big problems in urban areas is litter. Following the success of the levy on plastic bags, does the First Minister think that there is any way of tackling the issue of discarded cans and bottles, possibly by means of a deposit?

**Julie Morgan:** Diolch i'r Prif Weinidog am ei ateb. Un o'r problemau mawr mewn ardaloedd trefol yw sbwriel. Yn dilyn llwyddiant yr ardoll ar fagiau plastig, a yw'r Prif Weinidog yn credu bod unrhyw ffordd y gellid mynd i'r afael â mater caniau a photeli, o bosibl drwy gyfrwng blaendal?

**The First Minister:** We would prefer to see people recycle cans and bottles voluntarily. The Department of Environment, Food and Rural Affairs recently commissioned a study in England looking at whether a deposit scheme could be established there. It came at a considerable cost, so we would have to examine carefully the cost-benefit analysis if we were to look at such a move in Wales. That said, recycling has increased dramatically over the past decade, and, as the rate of recycling increases, I suspect that it will not be necessary to introduce a deposit scheme.

**Y Prif Weinidog:** Byddai'n well gennym weld pobl yn ailgylchu caniau a photeli yn wirfoddol. Comisiynodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig astudiaeth yn Lloegr yn ddiweddar a oedd yn ystyried a ellid cyflwyno cynllun blaendal yno. Byddai cost sylweddol i hynny, felly byddai'n rhaid inni edrych yn ofalus ar y dadansoddiad cost a budd pe baem yn ystyried datblygiad o'r fath yng Nghymru. Wedi dweud hynny, mae lefelau ailgylchu wedi cynyddu'n sylweddol dros y degawd diwethaf, ac, wrth i'r gyfradd ailgylchu gynyddu, tybiaf na fydd angen cyflwyno cynllun blaendal.

**Andrew R.T. Davies:** One of the big disappointments with many large-scale developments in urban areas is that the green spaces envisaged as a pleasant environment for people to enjoy quickly turn into derelict sites covered in litter. In the new planning Bill that is coming forward, will the First Minister and the Minister for Environment and Sustainable Development be considering measures to put an obligation on developers to create some form of endowment fund that would look after those green spaces so that future generations can enjoy them to their full potential, in the way that was intended?

**Andrew R.T. Davies:** Un o'r siomedigaethau mawr sydd ynghlwm wrth nifer o ddatblygiadau ar raddfa fawr mewn ardaloedd trefol yw bod y mannau gwyrdd y rhagwelid y byddent yn amgylchedd dymunol i bobl eu mwynhau yn troi'n gyflym yn safleoedd diffaith sydd wedi'u gorchuddio â sbwriel. Yn y Bil cynllunio newydd a fydd yn cael ei gyflwyno, a fydd y Prif Weinidog a Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn ystyried mesurau i osod dyletswydd ar ddatblygwyr i greu rhyw fath o gronfa waddol a fyddai'n edrych ar ôl y mannau gwyrdd hynny, fel y gall cenedlaethau'r dyfodol eu mwynhau i'r

eithaf, fel y bwriadwyd?

**The First Minister:** Yes. For example, we are looking at section 106. Section 106 is impinged upon by the community infrastructure levy. Although it was claimed at the time—at a time when my own party was in Government in London—that this was a financial matter, it is in fact a planning matter, and that limits the scope of what we can do to improve matters when community benefit is looked at in the consideration of planning applications. I should put on the record that I would like to see the community infrastructure levy devolved, because it is a planning issue rather than a financial issue. It would also give the right level of flexibility, not just to us, but also to local authorities.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn. Er enghraifft, rydym yn edrych ar adran 106. Mae'r ardoll seilwaith cymunedol yn gwrthdaro ag adran 106. Er yr honnid ar y pryd—ar adeg pan oedd fy mhlaid fy hun yn llywodraethu yn Llundain—mai mater ariannol oedd hwn, mater cynllunio yw mewn gwirionedd. Mae hynny'n cyfyngu ar gwmpas yr hyn y gallwn ei wneud i wella pethau pan edrychir ar fanteision cymunedol wrth ystyried ceisiadau cynllunio. Dylwn gofnodi y byddwn yn hoffi gweld yr ardoll seilwaith cymunedol wedi'i datganoli, gan ei bod yn fater cynllunio yn hytrach nag yn fater ariannol. Byddai hefyd yn sicrhau'r lefel gywir o ran hyblygrwydd, nid dim ond i ni, ond i awdurdodau lleol hefyd.

**Prosiectau Cyfalaf**

**Capital Projects**

***11. Alun Ffred Jones:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynglyn â chynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau cyfalaf. OAQ(4)0512(FM)*

***11. Alun Ffred Jones:*** *Will the First Minister make a statement regarding his Government's plans for capital projects. OAQ(4)0512(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Nodwyd ein cynlluniau gwariant cyfalaf ar gyfer y tair blynedd nesaf yn ein cyllideb ar gyfer twf a swyddi ym mis Rhagfyr.

**The First Minister:** Capital spending plans for the next three years were set out in our budget for growth and jobs in December.

**Alun Ffred Jones:** Mae cwmni Macquarie Motorways Group Ltd, sy'n berchen ffordd dyrpeg yr M6 ger Birmingham, mewn dyled o £1 biliwn i'r banc, a gwnaeth golled o bron i £0.25 biliwn y llynedd ar ei weithrediadau. A yw'r Llywodraeth hon yn dal i ystyried adeiladu ffordd newydd a fyddai'n rhedeg yn gyfochrog â'r M4 yn ne-ddwyrain Cymru? Os ydych yn dal i ystyried hynny, a fyddai'n rhaid codi toll ar yr M4 er mwyn sicrhau defnydd o'r ffordd newydd, gan mai dyna a ddigwyddodd â'r M6?

**Alun Ffred Jones:** Macquarie Motorways Group Ltd, which owns the M6 toll road close to Birmingham, owes £1 billion to the bank, and made a loss of almost £0.25 billion last year on its operations. Is this Government still considering building a new road that would run parallel to the M4 in south-east Wales? If you are still considering that, would a toll have to be raised on the M4 in order to ensure use of the new road, given that that is what happened with the M6?

**Y Prif Weinidog:** Mae sawl ffordd o wella'r sefyllfa ym Mryn-glas yng Nghasnewydd yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Mae'n amlwg na fu i dollau weithio ar yr M6. Rydym yn gwybod yn iawn pe byddai heol newydd â thollau arni yn cael ei hadeiladu yng Nghymru, ni fyddai pobl yn ei defnyddio; byddent yn parhau i ddefnyddio'r heol sy'n bodoli eisoes. Felly, na, nid oes unrhyw beth yn cael ei ystyried ar hyn o bryd

**The First Minister:** Several ways of improving the situation in Brynglas in Newport are being considered at present. It is clear that tolls have not worked on the M6. We know only too well that if a new road were to be built with a toll in Wales, people would not use it; they would continue to use the existing road. Therefore, no, nothing along those lines is being considered at present in terms of placing new tolls on any

o ran dodi tollau newydd ar unrhyw heol yng Nghymru.

road in Wales.

**Angela Burns:** One of the roles of your delivery unit will be to produce delivery reports on performance on the Welsh Government's key priorities against measurable outcomes to see whether or not they are on track to be achieved. Given the well-documented history of slippage that this Government has on capital projects, will your special delivery unit be looking at this and monitoring whether or not each of these capital projects get delivered on time and to budget?

**Angela Burns:** Un o rolau eich uned gyflawni fydd llunio adroddiadau ar berfformiad o ran cyflawni blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru, a hynny yn erbyn canlyniadau mesuradwy, er mwyn gweld a ydynt ar drywydd a fydd yn sicrhau y cânt eu cyflawni. O ystyried yr hanes o lithriant sydd gan y Llywodraeth hon mewn perthynas â phrosiectau cyfalaf, sy'n dra hysbys, a fydd eich uned gyflawni arbennig yn edrych ar hyn ac yn monitro a yw pob un o'r prosiectau cyfalaf yn cael ei gwblhau ar amser ac o fewn y gyllideb?

**The First Minister:** Yes. In addition, the annual report on the programme for government will be published towards the end of this month, on the basis of which the Assembly, and, indeed, the people of Wales, will be able to judge what the Government has done over the past year.

**Y Prif Weinidog:** Bydd. Yn ogystal â hynny, bydd yr adroddiad blynyddol ar y rhaglen lywodraethu yn cael ei gyhoeddi tua diwedd y mis hwn. Ar sail yr adroddiad hwnnw, bydd y Cynulliad, ac, yn wir, pobl Cymru, yn gallu barnu'r hyn y mae'r Llywodraeth wedi ei wneud dros y flwyddyn ddiwethaf.

**Peter Black:** While discussions are ongoing with the UK Government in relation to borrowing powers for the Assembly, there are other mechanisms available to your Government to raise additional capital moneys. What progress is being made, therefore, with regard to the bond issue that is being pursued by registered social landlords and housing associations?

**Peter Black:** Wrth i drafodaethau fynd rhagddynt â Llywodraeth y DU mewn perthynas â phwerau benthyca i'r Cynulliad, mae dulliau eraill ar gael i'ch Llywodraeth i godi arian cyfalaf ychwanegol. Pa gynnydd sy'n cael ei wneud, felly, ynghylch mater y bond y mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a chymdeithasau tai yn mynd i'r afael ag ef?

**The First Minister:** We are exploring innovative finance options to lever in more capital into infrastructure investment over the next 10 years. However, those are not a substitute for gaining the borrowing powers that Scotland and Northern Ireland will have in the future; they run parallel to those.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn archwilio opsiynau cyllid arloesol i ddenu mwy o gyfalaf i'w fuddsoddi mewn seilwaith dros y 10 mlynedd nesaf. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn cymryd lle ennill y pwerau benthyca y bydd yr Alban a Gogledd Iwerddon yn meddu arnynt yn y dyfodol; maent yn cydredeg â hynny.

**The Presiding Officer:** Question 12, OAQ(4)0508(FM), has been withdrawn.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 12, OAQ (4) 0508 (FM), yn ôl.

### Annog Pobl Ddi-Waith i Ddatblygu eu Sgiliau

### Encouraging Unemployed People to Develop their Skills

***13. Jenny Rathbone:*** *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog pobl ddi-waith i ddatblygu eu sgiliau a'u cyflogadwyedd er gwaethaf y prinder swyddi am dâl. OAQ(4)0516(FM)*

***13. Jenny Rathbone:*** *What is the Welsh Government doing to encourage unemployed people to develop their skills and employability despite the shortage of paid jobs. OAQ(4)0516(FM)*

**The First Minister:** We are looking to extend apprenticeships, we have created Jobs Growth Wales and we are providing training opportunities through a number of schemes.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn bwriadu ymestyn prentisiaethau, rydym wedi creu Twf Swyddi Cymru, ac rydym yn darparu cyfleoedd hyfforddi drwy nifer o gynlluniau.

**Jenny Rathbone:** I am sure that we have all noticed in the last week the serious dip in the number of vacancies being advertised in Wales. That is a clear sign that firms are voting with their feet in relation to the austerity measures that the UK Government continues to push, which are not digging us out of the recession but pushing us back into it. What is the Welsh Government able to do to ensure that people are actively engaged in developing their skills, so that, when jobs are available, they are in a better position to apply for them?

**Jenny Rathbone:** Rwy’n sicr ein bod i gyd wedi sylwi yn ystod yr wythnos diwethaf ar y gostyngiad difrifol yn nifer y swyddi gwag sy’n cael eu hysbysebu yng Nghymru. Mae hynny’n dangos yn glir fod cwmnïau yn pleidleisio â’u traed mewn perthynas â’r mesurau cynilo y mae Llywodraeth y DU yn parhau i fwrw ymlaen â hwy, nad ydynt yn dod â ni allan o’r dirwasgiad ond sy’n ein gwthio yn ôl i mewn iddo. Beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau bod pobl yn cymryd rhan weithredol wrth ddatblygu eu sgiliau, fel eu bod mewn gwell sefyllfa i wneud cais am swyddi, pan fyddant ar gael?

**The First Minister:** It is true to say that people need to retain the skills that they have and also develop new ones. That is what Jobs Growth Wales is all about—ensuring that young people have the opportunity to get onto an apprenticeship scheme or to receive training to develop the skills that will ensure that they have a job in the future. Without Jobs Growth Wales, there would be many young people who would never have the opportunity to gain that experience in the first place, putting them at a disadvantage in the labour market.

**Y Prif Weinidog:** Mae’n wir dweud bod angen i bobl gadw’r sgiliau sydd ganddynt a datblygu rhai newydd, hefyd. Dyna yw nod Twf Swyddi Cymru—sicrhau bod gan bobl ifanc y cyfle i fynd ar gynllun prentisiaeth neu i gael hyfforddiant i ddatblygu’r sgiliau a fydd yn sicrhau bod swydd ganddynt yn y dyfodol. Heb Twf Swyddi Cymru, byddai llawer o bobl ifanc na fyddent byth yn cael y cyfle i ennill y profiad hwnnw yn y lle cyntaf, a byddent felly o dan anfantais yn y farchnad lafur.

**Janet Finch-Saunders:** The PISA results and Estyn’s recent report and criticisms of the skills framework paint a very worrying picture indeed: 40% of pupils starting secondary schools have reading skills that are below their average age group, and just 48% of pupils at key stage 4 achieved level 2 in the core subjects last year. First Minister, how can you ensure that the forthcoming numeracy and literacy framework will address those shocking figures and guarantee that improvements will continue past the age of 14 so as to provide real and meaningful chances in the job sector for our young people in Wales?

**Janet Finch-Saunders:** Mae canlyniadau’r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr—PISA—ac adroddiad diweddar Estyn a’i feirniadaeth o’r fframwaith sgiliau yn creu darlun sy’n peri cryn dipyn o bryder: mae 40% o ddisgyblion sy’n dechrau yn yr ysgol uwchradd yn meddu ar sgiliau darllen sy’n is na sgiliau eu grŵp oedran ar gyfartaledd, a dim ond 48% o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a lwyddodd i gyrraedd lefel 2 yn y pynciau craidd y llynedd. Brif Weinidog, sut y gallwch sicrhau y bydd y fframwaith rhifedd a llythrennedd sydd ar y gweill yn mynd i’r afael â’r ffigurau brawychus hynny, ac yn gwarantu y bydd y gwelliannau yn parhau y tu hwnt i 14 oed fel y gellir sicrhau bod cyfleoedd gwirioneddol ac ystyrlon yn y sector swyddi i’n pobl ifanc yng Nghymru?

**The First Minister:** I cannot comment on any results that show our ability to cook Italian food—the Member referred to 'pizza' results; that was how she pronounced it. I do not understand either what this has to do with the unemployed. You could argue that children who are in school are not in jobs—you could take it to that extent. However, on the issue of education and the money that we put into education, it was one of the five main pledges that we made in our manifesto and is well documented in the Assembly. The people of Wales supported our plans for education both last year and last week.

**Y Prif Weinidog:** Ni allaf wneud sylwadau ar unrhyw ganlyniadau sy'n dangos ein gallu i goginio bwyd Eidalaidd—cyfeiriodd yr Aelod at ganlyniadau 'pitsa'; dyna sut y gwnaeth hi ei ynganu. Nid wyf yn deall ychwaith beth sydd a wnelo hyn â'r rheini sy'n ddi-waith. Gallech ddadlau nad yw plant sydd yn yr ysgol mewn swyddi—gallech fynd mor bell â hynny. Fodd bynnag, ar fater addysg a'r arian yr ydym yn ei fuddsoddi mewn addysg, roedd hynny'n un o'r pum prif addewid a wnaethom yn ein maniffesto, ac mae cryn dystiolaeth yn ei gylch yn y Cynulliad. Roedd pobl Cymru yn cefnogi ein cynlluniau ar gyfer addysg y llynedd a'r wythnos diwethaf.

**Simon Thomas:** Brif Weinidog, mae pobl yn ddi-waith am nad ydynt yn dysgu sgiliau sylfaenol yn yr ysgol. Mae adroddiad Estyn heddiw yn dangos hynny'n glir. Pan mae pobl ifanc yn gadael ysgol heb sgiliau sylfaenol, mae angen cefnogaeth arnynt gan wasanaeth gyrfaoedd i adnabod eu cyflogadwyedd, eu sgiliau craidd a pha gamau sydd angen eu cymryd i'w cefnogi. Pa gynlluniau sydd gan eich Llywodraeth i sicrhau gwasanaeth gyrfaoedd cenedlaethol ar gyfer y bobl hynny nad oes ganddynt sgiliau neu hyfforddiant ar hyn o bryd?

**Simon Thomas:** First Minister, people are unemployed because they do not learn basic skills in school. Estyn's report today demonstrates that clearly. When young people leave school without basic skills, they need support from the careers service to recognise their employability, their core skills, and what steps are required to support them. What plans does your Government have to ensure a national careers service for those people who do not have skills or training at the moment?

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Gweinidog yn ystyried hynny ar hyn o bryd. Mae'n bwysig dros ben bod pobl yn gweld bod cyfleoedd ar gael iddynt nad ydynt efallai wedi meddwl amdanynt yn y gorffennol. Rhaid sicrhau hefyd bod cyfleoedd ar gael iddynt drwy gynlluniau fel Jobs Growth Wales.

**The First Minister:** The Minister is considering that at present. It is exceptionally important that people see that there are opportunities available to them that they might not have considered in the past. We must also ensure that opportunities are available to them through schemes such as Jobs Growth Wales.

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
## Business Statement and Announcement

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** There are no changes to report for this week's planned business. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement that can be found among the agenda papers available to Members electronically.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Nid oes newidiadau ym musnes arfaethedig yr wythnos hon. Dangosir y busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau yn electronig.

**Mark Isherwood:** I call for a Welsh Government statement on deaf and hard-of-

**Mark Isherwood:** Galwaf am ddatganiad gan Lywodraeth Cymru ar fynediad pobl

hearing access to telecommunications. The Minister may be aware that Deaf Access Cymru, Sign Wales, the University of Bristol and others have been working together to build on the momentum established by the total conversation for all programme, which recognises that telephony services for deaf and hard-of-hearing people should be about voice, video and text, not voice alone. That is on the basis of inclusion and equality, as well as of access to emergency services, health and social services, work, commercial services such as banking, and so on. The pilot programme has been hugely successful. However, the European funding behind it ends on 30 June. I understand that Deaf Access Cymru and others will be meeting members of your equality unit on 17 May, because help is required to make this happen in Wales. Will you make a statement to the Assembly after that meeting to indicate the support that the Welsh Government might be able to provide to take this forward?

fyddar a thrwm eu clyw at delathrebu. Efallai y bydd y Gweinidog yn gwybod bod Deaf Access Cymru, Sign Wales, Prifysgol Bryste ac eraill wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i adeiladu ar y momentwm a sefydlwyd gan raglen sgwrsio cyflawn i bawb, sy'n cydnabod y dylai gwasanaethau teleffoni ar gyfer pobl fyddar a thrwm eu clyw gynnwys y llais, fideo a thestun, ac nid y llais yn unig. Mae hynny'n ymwneud â chynhwysiant a chydraddoldeb, yn ogystal â mynediad at wasanaethau brys, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gwaith, gwasanaethau masnachol fel bancio, ac yn y blaen. Bu'r rhaglen beilot yn hynod lwyddiannus. Fodd bynnag, bydd yr arian Ewropeaidd sy'n ei chefnogi yn dod i ben ar 30 Mehefin. Caf ar ddeall y bydd Deaf Access Cymru ac eraill yn cyfarfod aelodau o'ch uned cydraddoldeb ar 17 Mai, gan fod angen cymorth er mwyn sicrhau y bydd hyn yn digwydd yng Nghymru. A wnewch ddatganiad i'r Cynulliad ar ôl y cyfarfod hwnnw er mwyn dangos pa gefnogaeth y gallai Llywodraeth Cymru ei rhoi i fwrw ymlaen â hyn?

**Jane Hutt:** I am grateful to Mark Isherwood for bringing this to my attention. As the Minister for equality, I will look at the outcomes of those discussions and the pilot programme and report back to the Assembly accordingly.

**Jane Hutt:** Rwy'n ddiolchgar i Mark Isherwood am dynnu fy sylw at hyn. Gan mai fi yw'r Gweinidog dros gydraddoldeb, edrychaf ar ganlyniadau'r trafodaethau hynny a'r rhaglen beilot ac adrodd yn ôl i'r Cynulliad yn unol â hynny.

**Kirsty Williams:** Minister, last week in the debate on the Government's food strategy, I raised issues in relation to the Wales the True Taste awards. During that debate, the Deputy Minister said that he would be willing to make a statement on this issue. Changes to the way in which some of the categories are to be judged are causing concern among some businesses in rural areas who feel they are being put on unfair footing compared to businesses in urban areas. Can you ask the Deputy Minister for food to make an urgent statement about the management of the Wales the True Taste awards and any changes that he has proposed to those awards?

**Kirsty Williams:** Weinidog, yr wythnos diwethaf, yn y ddadl ar strategaeth fwyd y Llywodraeth, codais faterion o ran gwobrau Cymru y Gwir Flas. Yn ystod y ddadl honno, dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'n barod i wneud datganiad ar y mater hwn. Mae newidiadau yn y ffordd y mae rhai o'r categorïau'n cael eu barnu yn achosi pryder ymhlith rhai busnesau mewn ardaloedd gwledig sy'n teimlo eu bod yn cael eu rhoi o dan anfantais o'u cymharu â busnesau mewn ardaloedd trefol. A allwch ofyn i'r Dirprwy Weinidog dros fwyd wneud datganiad brys ar reolaeth gwobrau Cymru y Gwir Flas ac unrhyw gynigion y mae wedi'u gwneud i newid y gwobrau hynny?

**Jane Hutt:** Certainly. In response to the leader of the Welsh Liberal Democrats, I know that the Deputy Minister will be very concerned about any undermining of the food business. I will ask him to report back to you

**Jane Hutt:** Yn sicr. Mewn ymateb i arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, gwn y bydd y Dirprwy Weinidog yn pryderu'n fawr os yw'r busnes bwyd yn cael ei danseilio mewn unrhyw ffordd. Gofynnaf

and the Assembly on this matter.

iddo adrodd yn ôl i chi ac i'r Cynulliad ar y mater hwn.

**Andrew R.T. Davies:** Leader of the House, is it possible to have a statement from the Minister for planning in relation to local development plans? You will be aware that certain council groups made commitments in the elections to rip up LDPs that had reached a certain stage and start afresh. I think that many constituents would benefit from knowing what obligations the Welsh Government places on local authorities to bring forward their local development plans, considering that many of the targets within those LDPs are set by the Government here in Cardiff bay. What leeway do local authorities have to digress from implementing the LDP that has been put out to consultation?

**Andrew R.T. Davies:** Arweinydd y Tŷ, a yw'n bosibl cael datganiad gan y Gweinidog dros gynllunio mewn perthynas â chynlluniau datblygu lleol? Byddwch yn gwybod bod rhai grwpiau cyngor wedi gwneud ymrwymiadau yn yr etholiadau i gael gwared ar gynlluniau datblygu lleol a oedd wedi cyrraedd cam penodol a dechrau o'r newydd. Credaf y byddai nifer o etholwyr yn elwa ar wybod sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo awdurdodau lleol i gyflwyno eu cynlluniau datblygu lleol, o ystyried bod nifer o'r targedau yn y cynlluniau datblygu lleol wedi eu pennu gan y Llywodraeth yma ym mae Caerdydd. Pa ryddid sydd gan awdurdodau lleol i wyro oddi wrth rhoi'r cynlluniau datblygu lleol, sydd wedi eu cyflwyno i ymgynghori arnynt, ar waith?

2.15 p.m.

**Jane Hutt:** In response to the leader of the opposition, I say that the Minister for Environment and Sustainable Development has a questions session tomorrow afternoon, so the leader of the Welsh Conservatives may wish to raise that question with him then.

**Jane Hutt:** Mewn ymateb i arweinydd yr wrthblaid, mae gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy sesiwn gwestiynau brynhawn yfory, felly efallai y bydd arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig eisiau gofyn y cwestiwn hwnnw iddo ef bryd hynny.

**Peter Black:** Leader of the House, as you know, some questions remain unanswered by your Government on the All-Wales Ethnic Minority Association. We are still awaiting the outcome of the Wales Audit Office review into that body and, hopefully, answers to the many questions that we have. Can you give an indication of when that report will come before us? Will you be making a statement on that?

**Peter Black:** Arweinydd y Tŷ, fel y gwyddoch, mae rhai cwestiynau yn parhau heb eu hateb gan eich Llywodraeth ar Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan. Rydym yn dal i aros am ganlyniad adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru ar y corff hwnnw a, gobeithio, atebion i'r cwestiynau niferus sydd gennym. A allwch roi syniad inni pryd y bydd yr adroddiad hwnnw yn dod ger ein bron? A fyddwch yn gwneud datganiad am hynny?

**Jane Hutt:** We are now in the hands of the Wales Audit Office in respect of the timing of its report, work on which I know is still under way. That report will be brought before the Public Accounts Committee for handling, as is usual, but I have no further information on the timing of that. I hope to be able to update Members when I have that information, and perhaps the Chair of the Public Accounts Committee could do so as well.

**Jane Hutt:** Ar hyn o bryd, rydym yn nwylo Swyddfa Archwilio Cymru, o ran amserlen yr adroddiad. Gwn fod gwaith ar yr adroddiad yn dal ar y gweill. Bydd yr adroddiad yn dod gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i'w drafod, fel sy'n arferol, ond nid oes gennyf ragor o wybodaeth am yr amserlen. Rwy'n gobeithio y gallaf roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau pan fydd gennyf y wybodaeth honno, ac efallai y gallai Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

wneud hynny hefyd.

## Datganiad: Trawsnewid—Cyflawni ar y Cyd
## Statement: Transformation—Collaborative Delivery

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** Attainment levels for 14 to 19-year-olds in Wales need to improve so that all young people can reach their full potential and secure appropriate progression to higher education, training or employment. At present, too many young people pass much of their early adulthood not in employment, education or training. This must change. Our challenge is to direct more of the funding available to teaching and learning, to increase the engagement of disadvantaged young people in the learning process, and to transform the learning network to increase learner choice, reduce the duplication of provision and ensure higher quality learning and teaching.

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Mae angen i lefelau cyrhaeddiad dysgwyr 14 i 19 oed yng Nghymru wella fel bod modd i bob person ifanc gyrraedd ei lawn botensial gan sicrhau dilyniant priodol i addysg uwch, hyfforddiant neu gyflogaeth. Ar hyn o bryd, mae gormod o bobl ifanc yn byw eu blynyddoedd cyntaf fel oedolion heb fod mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Rhaid i hyn newid. Ein her yw cyfeirio mwy o'r arian sydd ar gael i addysgu a dysgu, cynyddu cyfranogiad pobl ifanc dan anfantais yn y broses ddysgu, a thrawsnewid y rhwydwaith dysgu i gynyddu'r dewis i ddysgwyr, lleihau achosion o ddyblygu darpariaeth a sicrhau dysgu ac addysgu o safon uwch.

The Assembly has previously considered the evidence presented in the front-line resources review and the independent task and finish group report on the structure of education services in Wales. Both reviews concluded that the key to making the best and most efficient use of resources is collaborative working. Today, I want to restate my commitment to regional working, to reinforce my expectations of local government and to reaffirm my ambition for an education sector that delivers for all.

Mae'r Cynulliad eisoes wedi ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adolygiad o adnoddau rheng flaen ac adroddiad annibynnol y grŵp gorchwyl a gorffen ar strwythur gwasanaethau addysg yng Nghymru. Casgliad y ddau adolygiad yw mai'r allwedd i wneud y defnydd gorau a mwyaf effeithiol o adnoddau yw gweithio ar y cyd. Heddiw, rwyf eisiau ailddatgan fy ymrwymiad i weithio rhanbarthol, i atgyfnerthu fy nisgwyliadau o lywodraeth leol ac i ailddatgan fy uchelgais i gael sector addysg sy'n bodloni anghenion pawb.

In March 2011, the leaders of all local authorities in Wales gave me assurances that education was their No. 1 priority and that a radical overhaul was needed to address the systemic failure in education. Local authorities gave a commitment to having school improvement regional partnerships in place by September 2012. They also undertook to delegate 80% of their budgets to schools by September 2012. I expect local authorities to deliver on those promises. Following the recent local government elections, I will be holding local authorities to account.

Ym mis Mawrth 2011, rhoddodd arweinwyr pob awdurdod lleol yng Nghymru sicrwydd i mi mai addysg oedd eu prif flaenoriaeth a bod angen newidiadau sylfaenol i fynd i'r afael â'r methiant systematig mewn addysg. Gwnaeth awdurdodau lleol ymrwymo i sefydlu partneriaethau rhanbarthol i wella ysgolion erbyn mis Medi 2012. Bu iddynt ymrwymo hefyd i roi 80% o'u cyllidebau i ysgolion erbyn mis Medi 2012. Rwy'n disgwyl i awdurdodau lleol gyflawni'r addewidion hynny. Yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol diweddar, byddaf yn dwyn awdurdodau lleol i gyfrif.

The need for improvement remains pressing. Since the introduction of Estyn's common

Mae angen dybryd am welliant o hyd. Ers i Estyn gyflwyno ei fframwaith arolygu

inspection framework in September 2010, 11 local authorities have been inspected. Of the 11, only four were deemed to be good, four have been judged adequate and require Estyn monitoring, two are in need of significant improvement, and one local authority is in special measures.

cyffredin ym mis Medi 2010, arolygwyd 11 awdurdod lleol. O'r 11, dim ond pedwar a bennwyd yn dda; mae pedwar wedi eu barnu'n ddigonol ac mae angen i Estyn eu monitro. Mae angen gwella dau yn sylweddol, a dim ond un awdurdod lleol sy'n destun mesurau arbennig.

Added to that is the recent finding by Estyn on surplus places. The report published on 8 May reveals that there were more surplus places in 2011 than in 2006 and that no local authority has achieved the Welsh Government's recommended level of no more than 10% surplus places across primary and secondary schools. Estyn has concluded that although some surplus places have been removed, local authorities have generally been slow to identify and complete projects that would lead to significant savings. Let me be clear: inefficiency in managing surplus places is costing learners where funding should be targeted at improving learning and teaching, and it needs to be tackled urgently. I will write directly on this issue to lead members in local authorities shortly, setting out my targets for improved efficiency on the supply of school places.

Yn ychwanegol at hynny, cafwyd canfyddiad diweddar Estyn ar leoedd gwag. Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd ar 8 Mai yn dangos bod mwy o leoedd gwag yn 2011 nag yn 2006 ac nad oes unrhyw awdurdod lleol wedi cyrraedd y lefel a argymhellwyd gan Lywodraeth Cymru bod dim mwy na 10% o leoedd gwag dros ben mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Daeth Estyn i'r casgliad, er bod rhai lleoedd gwag wedi eu dileu, bu awdurdodau lleol, ar y cyfan, yn araf i nodi a chwblhau prosiectau a fyddai'n arwain at arbedion sylweddol. Gadewch imi fod yn glir: dysgwyr sy'n talu'r pris pan fydd aneffeithlonrwydd wrth ymdrin â lleoedd gwag, oherwydd dylid targedu'r arian at wella dysgu ac addysgu, a rhaid mynd i'r afael â hyn ar frys. Byddaf yn ysgrifennu'n uniongyrchol ar y mater hwn er mwyn rhoi arweiniad i aelodau mewn awdurdodau lleol yn fuan, gan nodi fy nhargedau ar gyfer gwella effeithlonrwydd darparu lleoedd mewn ysgolion.

Turning to another key aspect of the provision of learning, I welcome the report also published on 8 May by the Assembly's Children and Young People Committee, which examined the implementation of the Learning and Skills (Wales) Measure 2009. I will be responding formally to the committee's recommendations in due course, but there is a great deal in the report including, as it recognises, some conflicting evidence on how well the Measure is working.

Gan droi at agwedd allweddol arall ym maes darpariaeth dysgu, rwy'n croesawu'r adroddiad a gyhoeddwyd hefyd ar 8 Mai gan Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad, a oedd yn archwilio'r modd y rhoddwyd Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ar waith. Byddaf yn ymateb yn ffurfiol i argymhellion y pwyllgor maes o law, ond mae llawer iawn yn yr adroddiad gan gynnwys, fel y mae'n cydnabod, rhywfaint o dystiolaeth sy'n gwrthdaro ar ba mor dda y mae'r Mesur yn gweithio.

I particularly welcome recommendation 2 that relates to schools and colleges producing a joint prospectus containing impartial advice on all the local courses and training opportunities for 14 to 19-year-old learners. That is precisely the kind of joint collaborative approach to local delivery that was envisaged by the Measure and that will be of benefit to the learner. However, we need to see more joint working between

Rwy'n croesawu argymhelliad 2 yn benodol, sy'n ymwneud ag ysgolion a cholegau'n cynhyrchu prosbectws ar y cyd sy'n cynnwys cyngor diduedd ar yr holl gyrsiau lleol a chyfleoedd hyfforddi i ddysgwyr 14 i 19 oed. Dyna'r union fath o gydweithio o ran darpariaeth leol a ragwelwyd gan y Mesur a bydd o fudd i'r dysgwr. Fodd bynnag, mae angen mwy o gydweithio rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach.

schools, local authorities and further education colleges. The current position is patchy at best.

Mae'r sefyllfa bresennol yn anghyson ar y gorau.

Where progress on restructuring and collaboration has taken place, we have seen real improvement. A number of local authorities are reorganising primary learning to meet the needs of the demographic changes in their areas. Swansea and Pembrokeshire are among those local authorities that have made real strides in primary school reorganisation. In Ceredigion, the Welsh Government funding is enabling the building of a new campus for three to 19-year-olds in Lampeter.

Lle cafwyd cynnydd ar ailstrwythuro a chydweithio, rydym wedi gweld gwelliant gwirioneddol. Mae nifer o awdurdodau lleol yn ad-drefnu dysgu cynradd i ateb anghenion y newidiadau demograffig yn eu hardaloedd. Mae Abertawe a Sir Benfro ymhlith yr awdurdodau lleol hynny sydd wedi gwneud camau breision wrth ad-drefnu ysgolion cynradd. Yng Ngheredigion, mae cyllid Llywodraeth Cymru yn galluogi i gampws newydd gael ei adeiladu ar gyfer plant tair i 19 oed yn Llanbedr Pont Steffan.

The partnership between Welsh Government, local authorities and further education at the new tertiary facilities being built at Ebbw Vale and Merthyr Tydfil town centres will lead to an improved learning experience for their students, as well as helping to regenerate these deprived areas. Our investment will improve the life chances of the young people in these localities, making good on our ambition to increase the engagement of disadvantaged young people in the learning process.

Bydd y bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac addysg bellach yn y cyfleusterau newydd trydyddol sy'n cael eu hadeiladu yng nghanol trefi Glyn Ebwy a Merthyr Tudful yn arwain at brofiad dysgu gwell i'w myfyrwyr, yn ogystal â helpu i adfywio'r ardaloedd difreintiedig hyn. Bydd ein buddsoddiad yn gwella cyfleoedd bywyd y bobl ifanc yn yr ardaloedd hyn, gan gyfrannu at ein huchelgais i gynyddu cyfranogiad pobl ifanc dan anfantais yn y broses ddysgu.

Many local authorities are using the twenty-first century schools programme to drive forward transformational change in their areas, including reducing surplus school places. I remind Members that the total value of the programme is some £1.4 billion over seven years, so this is a chance to make a real difference to learner provision.

Mae nifer o awdurdodau lleol yn defnyddio'r rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain i sicrhau newid trawffurfiol yn eu hardaloedd, gan gynnwys lleihau nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion. Rwy'n atgoffa'r Aelodau mai cyfanswm gwerth y rhaglen yw tua £1.4 biliwn dros saith mlynedd, felly dyma gyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn y ddarpariaeth i ddysgwyr.

Not all successful collaboration is dependent on large-scale capital investment. We have made considerable progress on reducing the number of FE colleges from 20 in 2009 to 14 currently. In FE, there has been a general willingness to embrace change, but again I believe that more can be done on collaboration with schools and higher education institutions.

Nid yw pob achos o gydweithio llwyddiannus yn dibynnu ar fuddsoddiad cyfalaf ar raddfa fawr. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol ar leihau nifer y colegau addysg bellach o 20 yn 2009 i 14 ar hyn o bryd. Mewn addysg bellach, bu parodrwydd cyffredinol i groesawu newid, ond eto rwy'n credu y gellir gwneud mwy o ran cydweithio ag ysgolion a sefydliadau addysg uwch.

Finally, the School Standards and Organisation (Wales) Bill will sharpen accountability in standards and management, reform the statutory process for school

Yn olaf, bydd Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) yn mireinio atebolrwydd ym maes safonau a rheolaeth, yn diwygio'r broses statudol ar gyfer trefniadaeth ysgolion

organisation and promote delegated decision making at the local level. As Minister, I will use all levers at my disposal to secure improvements in education. I expect local authorities to use the powers at their disposal to raise school performance and standards.

ac yn hyrwyddo'r broses o drosglwyddo penderfyniadau ar lefel leol. Fel Gweinidog, byddaf yn defnyddio'r holl ddulliau sydd ar gael i mi i sicrhau gwelliannau mewn addysg. Rwy'n disgwyl i awdurdodau lleol ddefnyddio'r pwerau sydd ganddynt i wella perfformiad ysgolion a safonau.

I will shortly be meeting representatives from all 22 local authorities in Wales to discuss regional working and the transformation agenda, and how they propose to improve learner attainment. I expect to see a step change in their performance in the coming few years.

Cyn hir, byddaf yn cyfarfod â chynrychiolwyr o bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru i drafod gweithio rhanbarthol a'r agenda trawsnewid, a sut y maent yn bwriadu gwella cyrhaeddiad dysgwyr. Rwy'n disgwyl gweld newid sylweddol yn eu perfformiad yn ystod y blynyddoedd nesaf.

The evidence is clear. There is an economic imperative to target scarce resources for better outcomes; there is a social imperative to provide an education system that supports all our young people to reach their full potential.

Mae'r dystiolaeth yn glir. Mae rheidrwydd economaidd i dargedu adnoddau prin i gael gwell canlyniadau; mae rheidrwydd cymdeithasol i ddarparu system addysg sy'n cefnogi ein holl bobl ifanc i gyrraedd eu llawn botensial.

**Angela Burns:** I thank the Minister for his statement today. It makes salutary reading for us all, and I am sure that all parties agree with the scale of the challenge that faces us. However, do you not recognise that a decade of inability to improve literacy and numeracy is probably at the heart of the factors contributing to the numbers of those who are not in education, employment or training, because they cannot possibly get that education or employment if they are unable to read and write?

**Angela Burns:** Diolchaf i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw. Roedd yn llesol inni gyd glywed hynny, ac rwy'n siŵr bod pob plaid yn cytuno ar faint yr her sy'n ein hwynebu. Fodd bynnag, onid ydych chi'n cydnabod mai degawd o anallu i wella llythrennedd a rhifedd sy'n debygol o fod wrth wraidd y ffactorau sy'n cyfrannu at nifer y rhai hynny nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, oherwydd nid oes modd iddynt gael addysg na chyflogaeth os nad ydynt yn gallu darllen ac ysgrifennu?

You have referred to a couple of reports, but I refer to one published in 2009, which says:

Rydych wedi cyfeirio at un neu ddau o adroddiadau, ond rwyf yn cyfeirio at un a gyhoeddwyd yn 2009, sy'n dweud:

'We welcome the diversity of proposals that have been submitted to us…and that hard decisions are being taken on behalf of learners. In the visits that we make across Wales, we sense a real desire to improve the quality, effectiveness and efficiency of learning.'

'Rydyn ni'n croesawu'r amrywiaeth o gynigion sydd wedi'u cyflwyno i ni…a bod penderfyniadau anodd yn cael eu gwneud ar ran dysgwyr. Yn yr ymweliadau rydyn yn eu gwneud ledled Cymru, rydym yn teimlo bod yna awydd wirioneddol i wella ansawdd y dysgu a'i wneud yn fwy effeithiol ac effeithlon.'

I will go on to ask you a couple of questions about the statement, but we have had enough statements. We now must see action. This has been going on for too long and it is affecting too many people's lives.

Byddaf yn gofyn ychydig o gwestiynau i chi am y datganiad, ond rydym wedi cael digon o ddatganiadau. Rhaid inni yn awr weld camau gweithredu. Bu hyn yn mynd yn ei flaen yn rhy hir ac mae'n effeithio ar fywydau gormod

o bobl.

You speak of the challenge to secure the best possible delivery model, and you mention increasing learner choice. I would be grateful if you could explain that in a little more detail, because we heard in the Children and Young People Committee that choice can often be a problem, especially in more rural areas or for those children who feel uncomfortable leaving the building in which they are being taught.

Rydych yn sôn am yr her i sicrhau'r model cyflawni gorau posibl, ac rydych yn sôn am gynyddu'r dewis i ddysgwyr. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech esbonio hynny ychydig yn fwy manwl, oherwydd clywsom yn y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y gall dewis fod yn broblem yn aml, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig neu i'r plant hynny sy'n teimlo'n anghyfforddus yn gadael yr adeilad lle maent yn cael eu dysgu.

You talk about reducing the duplication of provision and, in the school standards Bill, which you also mentioned, you specifically address the opportunities for sixth-form provision. Will you confirm that we are talking about the appropriate provision, whatever that might be? Will you also commit to clarifying the situation for sixth forms, because I would not like to see them disappear from Wales as a consequence of political ideology?

Rydych yn sôn am leihau'r achosion o ddyblygu darpariaeth ac, yn y Bil safonau ysgolion, y bu i chi ei grybwyll hefyd, rydych yn cyfeirio'n benodol at y cyfleoedd ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth. A wnewch chi gadarnhau ein bod yn sôn am y ddarpariaeth briodol, beth bynnag allai hynny fod? A wnewch chi hefyd ymrwymo i egluro'r sefyllfa o ran y chweched dosbarth, oherwydd ni fyddwn yn hoffi ei weld yn diflannu o Gymru o ganlyniad i ideoleg wleidyddol?

You mention collaborative working. It is the current mantra. I agree that it is really important that we get the best value we can for the Welsh pound, and collaborative working is a way of doing that. However, I must emphasise that there needs to be proper buy-in and real synergy. We all know that we need to get the Welsh Local Government Association and the county councils on board with us because hectoring from the sidelines will not work. There is obviously something going wrong here. Again, I refer you to the report that I just quoted from, which talked about this. It is very obviously not happening.

Bu ichi sôn am gydweithio. Dyna yw'r mantra ar hyn o bryd. Rwy'n cytuno ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cael y gwerth gorau posibl am y bunt Gymreig, ac mae cydweithio'n ffordd o wneud hynny. Fodd bynnag, rhaid imi bwysleisio bod angen ymrwymiad gwirioneddol yn y syniad a gwir synergedd. Rydym i gyd yn gwybod bod angen inni fynd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r cynghorau sir gyda ni, gan na fydd beirniadu o'r cyrion yn gweithio. Mae'n amlwg bod rhywbeth o'i le yma. Unwaith eto, rwy'n eich annog i edrych ar yr adroddiad a ddyfynnais sy'n sôn am hyn. Mae'n amlwg iawn nad yw hyn yn digwydd.

I welcome the 80% delegation that is occurring. You will know fine well that our view is that it should go much further. However, I would also like your commitment that you will ensure that these new collaborative bodies—these regional working arrangements—do not just gobble up more of the education budget and that this will actually achieve that learning.

Rwy'n croesawu bod 80% yn cael ei drosglwyddo. Rydych yn gwybod yn iawn mai ein barn ni yw y dylai fynd lawer ymhellach. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn hoffi ichi ymrwymo i sicrhau na fydd y cyrff newydd hyn sy'n cydweithio—y trefniadau gweithio rhanbarthol hyn—yn llyncu mwy o'r gyllideb addysg ac y bydd hyn yn sicrhau'r dysgu hwnnw mewn gwirionedd.

Finally, I agree that the number of councils that are not achieving what they should be achieving is horrific. Four are judged to be

Yn olaf, rwy'n cytuno bod nifer y cynghorau nad ydynt yn cyflawni'r hyn y dylid ei gyflawni ganddynt yn echrydus. Mae pedwar

adequate, two are judged to be in need of significant improvement, and one is in special measures, and those are just from the 11 that have been looked at so far. It is simply not good enough. Shame on them. However, Minister, I have to say that I would like more detail about the monitoring measures you are going to put in place for these and on how you will be able to hold them to account. What is the lever that you can use to get them to come to the table properly to ensure that education here in Wales is fit for all our children for the twenty-first century?

wedi eu barnu'n ddigonol. Barnwyd bod angen gwella dau ohonynt yn sylweddol, ac mae un yn destun mesurau arbennig, a dim ond y rhai ymysg yr 11 sydd wedi eu gweld hyd yma yw'r rheini. Nid yw'n ddigon da. Mae'n gywilydd iddynt. Fodd bynnag, Weinidog, rhaid imi ddweud y byddwn yn hoffi rhagor o fanylion am y mesurau monitro y byddwch yn eu rhoi ar waith ar gyfer y rhain ac am sut y byddwch yn eu dwyn i gyfrif. Beth yw'r dull y gallwch ei ddefnyddio i'w cael i drafod hyn yn iawn a sicrhau bod addysg yng Nghymru yn addas i'n holl blant ar gyfer y unfed ganrif ar hugain?

**Leighton Andrews:** I can tell the Conservative spokesperson, to start with, that we are taking a number of actions to improve literacy and numeracy. There is the national literacy framework, which I think will be a more successful device than the existing non-statutory skills framework for addressing these issues. From this year, on a voluntary basis with local authorities, we are introducing the reading tests, and we will be introducing reading and numeracy tests on a statutory basis in due course. There is a commitment to sorting out some basic issues to do with literacy. It is well understood across Wales that I have set three priorities for the school effectiveness framework, namely literacy, numeracy and addressing the attainment gap relating to poverty and attainment, and those are priorities that people share with us.

**Leighton Andrews:** Gallaf ddweud wrth lefarydd y Ceidwadwyr, i ddechrau, ein bod yn gweithredu mewn sawl ffordd i wella llythrennedd a rhifedd. Ceir y fframwaith llythrennedd cenedlaethol, a chredaf y bydd yn ddyfais fwy llwyddiannus na'r fframwaith sgiliau anstatudol presennol ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hyn. O eleni ymlaen, ar sail wirfoddol gydag awdurdodau lleol, rydym yn cyflwyno profion darllen, a byddwn yn cyflwyno profion darllen a rhifedd ar sail statudol, maes o law. Mae ymrwymiad i ddatrys rhai materion sylfaenol sy'n ymwneud â llythrennedd. Mae dealltwriaeth dda ledled Cymru fy mod wedi gosod tair blaenoriaeth ar gyfer y fframwaith effeithiolrwydd ysgolion, sef llythrennedd, rhifedd a mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad sy'n ymwneud â thlodi a chyrhaeddiad, ac mae'r rheini'n flaenoriaethau y mae pobl yn eu rhannu â ni.

I welcome what she says in support of the things that we are doing. However, I think that perhaps she needs to demonstrate greater support for some of the other actions that we are taking. We are addressing the duplication of provision in a number of ways, through the transformation agenda and the approach that we are taking in the school standards Bill. I certainly do not have a fixed blueprint for the delivery of post-16 education across Wales. I think that there is a role for sixth-form provision, but I think that these matters are better settled locally. However, there needs to be greater collaboration between local authorities and FE colleges in planning post-16 provision, and that is an area over which we can have some influence from the centre.

Croesawaf yr hyn y mae hi'n ei ddweud o blaid y pethau yr ydym yn eu gwneud. Fodd bynnag, credaf, efallai, fod angen iddi fod yn fwy cefnogol o rai o'r camau eraill yr ydym yn eu cymryd. Rydym yn mynd i'r afael â dyblygu darpariaeth mewn nifer o ffyrdd, drwy'r agenda trawsnewid a'r dull o weithio yr ydym yn ei fabwysiadu yn y Bil safonau ysgolion. Yn sicr, nid oes gennyf gynllun sefydlog ar gyfer darparu addysg ôl-16 ledled Cymru. Rwy'n credu bod rôl i ddarpariaeth chweched dosbarth, ond rwy'n credu bod modd datrys y materion hyn yn well yn lleol. Fodd bynnag, mae angen mwy o gydweithio rhwng awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach wrth gynllunio darpariaeth ôl-16, ac mae hynny yn faes y gallwn ddylanwadu

rhywfaint arno yn ganolog.

On collaborative working, I think that we have actually been successful at getting local authorities around the table over the past 18 months. Clearly, we now see them coming together in regional consortia to deliver school improvement services. It has not been an easy process but one in which we have relentlessly pursued local authorities across Wales to come to the table to organise themselves on this regional basis. They have done that. There has been quite a lot of prodding from our end, let me say. However, I expect those school improvement services to be in place on a regional basis from this September. Of course, we have also provoked them into the commitments that 80% of the money we give them will be delegated to schools from this September and 85% from September 2014. These are initiatives that we have taken and delivered. There should be some recognition of the leadership that we have shown in making those things happen.

Ar gydweithio, credaf inni fod yn llwyddiannus wrth gael awdurdodau lleol i drafod yn ystod y 18 mis diwethaf. Yn amlwg, rydym yn awr yn eu gweld yn dod at ei gilydd mewn consortia rhanbarthol i ddarparu gwasanaethau i wella ysgolion. Ni fu'n broses hawdd ond bu'n un lle rydym wedi pwyso yn ddiflino ar awdurdodau lleol ledled Cymru i drafod a gwneud trefniadau ar sail ranbarthol. Maent wedi gwneud hynny. Rhaid dweud, bu cryn dipyn o brocio o'n pen ni. Fodd bynnag, rwy'n disgwyl y bydd y gwasanaethau i wella ysgolion ar waith ar sail ranbarthol o fis Medi ymlaen. Wrth gwrs, rydym hefyd wedi eu hysgogi i ymrwymo i roi 80% o'r arian y rhoddwn iddynt i ysgolion o fis Medi, a 85% o fis Medi 2014. Mae'r rhain yn fentrau yr ydym wedi eu cyflwyno a'u cyflawni. Dylai fod rhywfaint o gydnabyddiaeth o'r arweinyddiaeth yr ydym wedi ei dangos wrth wneud i'r pethau hynny ddigwydd.

Turning to local authority performance following the implementation of Estyn's common inspection framework in September 2010, it has been salutary for everyone in the education system to see how Estyn has marked those authorities. We have a number of levers. We have financial levers, of course. We also have levers of intervention, and we have not been afraid to use the lever of intervention in respect of Blaenau Gwent, for example, when we introduced commissioners. So, I am clear that we will use the powers that we have. What I would like to see from the opposition here is a commitment to following our agenda and supporting us in the proposals that we are bringing forward, to ensure that we drive out waste and inefficiency, drive out unnecessary duplication and really address the issue of surplus places.

Gan droi at berfformiad awdurdodau lleol yn dilyn gweithredu fframwaith arolygu cyffredin Estyn ym mis Medi 2010, bu'n llesol i bawb yn y system addysg i weld sut y marciwyd yr awdurdodau hynny gan Estyn. Mae nifer o ddulliau ar gael i ni fynd i'r afael â hyn. Mae dulliau ariannol gennym, wrth gwrs. Mae gennym ddulliau ymyrraeth hefyd, ac nid ydym wedi bod ofn defnyddio dulliau ymyrraeth o ran Blaenau Gwent, er enghraifft, pan gyflwynwyd comisiynwyr gennym. Felly, rwyf yn sicr y byddwn yn defnyddio'r pwerau sydd gennym. Yr hyn yr hoffwn ei weld gan y gwrthbleidiau yma yw ymrwymiad i ddilyn ein hagenda ac i gefnogi'r cynigion yr ydym yn eu cyflwyno, a hynny er mwyn sicrhau ein bod yn dileu gwastraff ac aneffeithlonrwydd, yn dileu dyblygu diangen, ac yn mynd i'r afael o ddifrif â phroblem lleoedd gwag.

2.30 p.m.

**Christine Chapman:** Thank you, Minister, for your statement. You mentioned the report that the Children and Young People's Committee published last week on the implementation of the Learning and Skills (Wales) Measure 2009. I welcome your positive comments on this and look forward

**Christine Chapman:** Diolch, Weinidog, am eich datganiad. Soniasoch am yr adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yr wythnos diwethaf ar weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. Croesawaf eich sylwadau cadarnhaol ar yr adroddiad hwn ac edrychaf ymlaen at eich

to your detailed response. As we found, great strides have been made towards collaborative working, although it would be fair to say that this progress is still somewhat patchy. Our investigation also found that the move to regional working should not lead to any major problems. You specifically mentioned our recommendation that schools and colleges produce a joint, impartial prospectus. I would be keen, Minister, for more information on how you can ensure that learners in Wales, their parents and guardians, have access to the very best advice regarding opportunities and available options. This is critical in raising aspirations and widening horizons, and in simply enabling learners to make the right choices.

ymateb manwl iddo. Fel y gwelsom, gwnaed camau breision tuag at weithio ar y cyd, er y byddai'n deg dweud bod y cynnydd hwn braidd yn anghyson o hyd. Canfu ein hymchwiliad hefyd na ddylai dechrau gweithio'n rhanbarthol arwain at unrhyw broblemau mawr. Soniasoch yn benodol am ein hargymhelliad bod ysgolion a cholegau'n llunio prosbectws diduedd ar y cyd. Byddwn yn awyddus, Weinidog, i gael rhagor o wybodaeth am sut y gallwch sicrhau bod dysgwyr yng Nghymru, a'u rhieni a'u gwarcheidwaid, yn cael mynediad at y cyngor gorau o ran y cyfleoedd a'r dewisiadau sydd ar gael. Mae'r mater hwn yn hanfodol o ran codi dyheadau ac ehangu gorwelion, ac o ran galluogi dysgwyr i wneud y dewisiadau cywir.

Secondly, you also mentioned the need to increase the engagement of disadvantaged young people in the learning process. I know that there are some really good examples out there of schools making strong links with their local communities to foster a genuine community of learning. How can we ensure that best practice in engagement is shared? Finally, I want to focus on your comments on surplus places in Wales. As Estyn suggests, each surplus place in secondary school costs, on average, £510, which is an awful lot of money. This is money that could be better used in a myriad of ways for the benefit of our young people, so action is definitely needed. As you said, there were more surplus places in 2011 than in 2006, which is disappointing. Can you provide any further details on the actions that you will take to ensure that local authorities tackle this problem?

Yn ail, soniasoch hefyd am yr angen i gynyddu ymgysylltiad pobl ifanc ddifreintiedig â'r broses ddysgu. Gwn fod rhai enghreifftiau da iawn ar gael o ysgolion sydd wedi creu cysylltiadau cryf â'u cymunedau lleol er mwyn meithrin cymuned ddysgu go iawn. Sut y gallwn sicrhau bod yr arferion gorau, o ran ymgysylltu, yn cael eu rhannu? Yn olaf, rwyf am ganolbwyntio ar eich sylwadau ar leoedd gwag yng Nghymru. Fel y mae Estyn yn awgrymu, mae pob lle gwag mewn ysgol uwchradd yn costio £510, ar gyfartaledd, sy'n llawer iawn o arian. Dyma arian y gellid ei ddefnyddio'n well mewn amryw o ffyrdd er lles ein pobl ifanc; yn bendant, felly, mae angen gweithredu. Fel y dywedasoch, roedd mwy o leoedd gwag yn 2011 nag yn 2006, sy'n siomedig. A allwch roi unrhyw fanylion pellach am y camau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau bod awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â'r broblem hon?

**Leighton Andrews:** I thank the Chair of the Children and Young People's Committee for her comments. We would certainly want to work very closely with her committee in looking at the idea of the common prospectus and how that can be taken forward. I will respond in greater detail in due course. She is right to identify that progress across Wales as a whole has been patchy. We are looking to do precisely what she said in ensuring that there is good advice for young people and their parents and carers in respect of their own individual personalised pathways. Work

**Leighton Andrews:** Diolch i Gadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc am ei sylwadau. Byddem yn sicr am weithio'n agos iawn â'i phwyllgor o ran ystyried y syniad o gael prosbectws cyffredin, a sut y gellir bwrw ymlaen â'r syniad hwnnw. Byddaf yn ymateb yn fanylach maes o law. Mae hi'n iawn wrth nodi bod y cynnydd a welwyd ledled Cymru gyfan wedi bod yn anghyson. Rydym yn bwriadu gwneud yn union yr hyn a ddywedodd y Cadeirydd, drwy sicrhau bod cyngor da ar gael i bobl ifanc, eu rhieni a'u gofalwyr, mewn perthynas â'u llwybrau

is ongoing on that at present. There is also work going on to see how we can more effectively integrate the careers service and the youth service, and other branches of the education service, which provides advice to young people, including, for example, learning coaches. There is a lot of work going on in that area as well.

personol unigol. Mae gwaith ar y mater hwnnw'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae gwaith yn cael ei wneud hefyd ar sut y gallwn integreiddio'r gwasanaeth gyrfaoedd a'r gwasanaeth ieuenctid mewn modd mwy effeithiol, ynghyd â changhennau eraill o'r gwasanaeth addysg sy'n rhoi cyngor i bobl ifanc, gan gynnwys hyfforddwyr dysgu, er enghraifft. Mae llawer o waith yn y maes hwnnw'n mynd rhagddo hefyd.

In terms of spreading best practice around schools and communities, the Estyn inspection process now requires schools that are demonstrating good practice to share that around Wales. We can do that on a school-to-school basis, but we can also do it through the consortia. As the schools standards unit in my department looks at the performance of local authorities in particular, it will also be looking for good examples of this kind within the different consortia.

O ran lledaenu'r arferion gorau ymhlith ysgolion a chymunedau, mae proses arolygu Estyn yn awr yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion sy'n dangos arferion da rannu'r arferion hynny ledled Cymru. Gallwn rannu'r arferion hynny o ysgol i ysgol, ond gallwn wneud hynny drwy'r consortia hefyd. Wrth i'r uned safonau ysgolion o fewn fy adran edrych ar berfformiad awdurdodau lleol yn benodol, bydd hefyd yn chwilio am enghreifftiau da o'r math hwn o fewn y consortia gwahanol.

In respect of surplus places, I am glad she has drawn attention to the figures that Estyn has published in respect of the cost of surplus places in secondary schools. She is absolutely right to say that money could be better spent. One of the things that I will be saying to local authorities over the next couple of weeks—and I will be seeing them two weeks' today to go through some of this in detail—is that there are two challenges they need to crack on with at the outset of their term of office. One is addressing surplus places and the other is addressing the issue of catchment areas and admissions. If they do not grapple with those issues right at the outset, they will not do so in the last part of their local authority terms. We all see school organisation proposals coming forward very often towards the beginning of a local authority cycle, and we are less likely to see them towards the end of that cycle. So, I want them to crack on with these issues.

O ran lleoedd gwag, rwyf yn falch ei bod hi wedi tynnu sylw at y ffigurau a gyhoeddwyd gan Estyn mewn perthynas â chost lleoedd gwag mewn ysgolion uwchradd. Roedd hi yn llygad ei lle'n dweud y gellid gwario'r arian yn well. Un peth y byddaf yn ei ddweud wrth awdurdodau lleol dros yr wythnosau nesaf—byddaf yn eu cyfarfod bythefnos i heddiw er mwyn trafod rhai o'r pethau hyn yn fanwl—yw bod angen iddynt fwrw ymlaen â dwy her ar ddechrau eu cyfnod mewn grym. Un o'r heriau hyn yw mynd i'r afael â lleoedd gwag, a'r her arall yw mynd i'r afael â mater dalgylchoedd a derbyniadau. Os nad ydynt yn mynd i'r afael â'r materion hynny o'r cychwyn cyntaf, ni fyddant yn gwneud hynny yn ystod y rhan olaf o'u cyfnod mewn grym ar lefel awdurdod lleol. Mae pob un ohonom yn gweld cynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion yn cael eu cyflwyno'n aml iawn yn agos at ddechrau cylch llywodraethu awdurdod lleol, a gwyddom ein bod yn llai tebygol o'u gweld tuag at ddiwedd y cylch hwnnw. Felly, rwyf am i'r awdurdodau fwrw ymlaen â'r materion hyn.

**Simon Thomas:** Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw a dweud fy mod yn cytuno â phob gair. Wedi dweud hynny, dyma'r trydydd datganiad inni ei gael mewn blwyddyn sy'n trafod cydweithredu

**Simon Thomas:** I would like to thank the Minister for his statement today and say that I agree with every word. Having said that, this is the third statement that we have had in one year on the subject of regional collaboration,

rhanbarthol ac yr un yw cynnwys y datganiad hwn â chynnwys pob datganiad cynt, sef y disgwyliadau ar awdurdodau i gydweithio yn llwyddiannus yn rhanbarthol a bygythiadau o weithredu os nad ydynt yn gwneud hynny. Credaf ei bod nawr yn briodol inni ddechrau gofyn i'r Gweinidog ac i'r Llywodraeth pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod y dyheadau hyn yn cael eu gweithredu ac i sicrhau nad yw'r disgyblion sydd yn ein hysgolion ni nawr yn colli'r cyfle i elwa o'r gwelliannau y mae'r Gweinidog am eu gweld. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac yn ddiweddar iawn, rydym wedi cael sawl adroddiad gan Estyn sy'n dangos rhychwant rhwng gobaith y Llywodraeth a'r ddarpariaeth yn y dosbarth.

and the content of this statement is no different from that of every previous statement, as it sets out the expectations on authorities to collaborate successfully on a regional basis and the threats of action if they do not. I think that it is now appropriate for us to ask the Minister and the Government what steps are being taken to ensure that these aspirations are realised and to ensure that pupils in our schools now are not missing the opportunity to benefit from the improvements that the Minister wishes to see implemented. In the last year, and very recently, we have seen a number of Estyn reports demonstrating the gulf between Government aspiration and delivery in the classroom.

Yn arbennig, rydym wedi cael dau adroddiad gan Estyn yn ddiweddar—un ar lefydd gwag, y bu'r Gweinidog yn cyfeirio ato, ac un a ddaeth dros nos neithiwr ar fethiant y fframwaith sgiliau i ddatblygu sgiliau sylfaenol ymysg ein pobl ifanc dros 11 oed—sy'n dangos yn glir pa mor bwysig yw delio â rhai o'r materion hyn a'u datrys.

More specifically, we have received two Estyn reports—one on surplus places that the Minister referred to, and another that emerged just last night on the failure of the skills framework to develop basic skills among our young people after the age of 11—that demonstrate clearly how important it is that some of these issues are addressed so that problems are resolved.

Felly, Weinidog, hoffwn ofyn ychydig o gwestiynau ichi ynglŷn â'r ffordd yr ydych yn bwriadu sicrhau y bydd y gobaith a'r dyheadau, yr wyf yn eu cefnogi'n llwyr, yn cael eu gwireddu. Rydych yn sôn yn y datganiad heddiw eich bod wedi cael cefnogaeth awdurdodau lleol i'r agenda hwn. A wnewch chi gadarnhau y byddwch yn cydweithio â'r awdurdodau sydd newydd gael eu hethol i sicrhau nad yw momentwm yn cael ei golli yn hynny o beth? Rydych yn sôn eich bod am gyfarfod â nhw; byddwn yn hoffi gwybod ychydig mwy am eich disgwyliadau ganddynt a'r targed y byddwch yn ei osod iddynt. Mewn datganiad tebyg ym mis Mehefin y llynedd, dywedasoch yn glir y byddech yn cosbi awdurdodau lleol pe baent yn methu â chefnogi'r trefniadau newydd hyn, drwy dynnu'r grant effeithiolrwydd ysgolion oddi wrthynt. A ydych chi yn dal yn bwriadu gwneud hynny ac a oes gennych unrhyw gynlluniau i wneud hynny? Beth fydd rôl yr uned safonau ysgolion wrth farnu pa awdurdodau nad ydynt yn gweithredu yn briodol yn y consortia rhanbarthol ac wrth farnu pwy ddylai golli'r grant effeithiolrwydd ysgolion?

Therefore, Minister, I would like to ask you a few questions about how you intend to ensure that the aspirations, which I fully support, are realised. You mentioned in today's statement that you have the support of local authorities for this agenda. Will you confirm that you will collaborate with the newly elected authorities in order to ensure that momentum is not lost? You also mentioned that you wish to meet them; I would like to know a little more about what your expectations of them will be and what you will set as a target for them. In a similar statement in June of last year, you clearly stated that you would penalise authorities that failed to support the new arrangements by removing their school effectiveness grant. Do you still intend to take this course of action and do you have any plans to do so at present? What will be the role of the school standards unit in making judgments as to which authorities are not working appropriately as part of regional consortia and which authorities should lose the school effectiveness grant?

I droi at yr hyn yr ydym wedi'i weld fel methiant y fframwaith sgiliau yn ddiweddar, dywedasoch mewn ateb i Angela Burns eich bod yn disgwyl y bydd y fframwaith a'r cynllun llythrennedd cenedlaethol yn fwy llwyddiannus. Pa dystiolaeth sydd gennych y bydd eich cynllun newydd yn fwy llwyddiannus na'r un sydd wedi bod mewn grym ers tair blynedd? Canfu Estyn yn ddiweddar fod y cynllun hwnnw wedi methu â delifro ar draws y rhychwant, gan ddweud fod ychydig iawn o ysgolion yn gweithredu'r fframwaith presennol yn llwyddiannus. Rhaid inni fynd i'r afael â hynny yn y sectorau newydd. Er enghraifft, yng nghyd-destun y Bil safonau a threfniadaeth ysgolion newydd-y Bil y cyfeiriwyd ato yn y datganiad ac a fydd yn rhoi cyfarwyddyd i ysgolion ar lefel statudol-a ydych yn meddwl y dylech ystyried rhoi'r fframwaith llythrennedd newydd ar lefel statudol hefyd, gan nad oedd gan yr hen fframwaith sgiliau sail statudol?

Turning to what we have witnessed recently as the failure of the skills framework, you said in response to Angela Burns that you expected the framework and the national literacy plan to be more successful. What evidence do you have that your new plan will be more successful than the one that has been in place for three years? Estyn found recently that that plan had failed to deliver across the board, saying that very few schools were implementing the current framework successfully. We must get to grips with this within the new sectors. For example, in the context of the schools standards and organisation Bill—the Bill referred to in the statement and which will give direction to schools on a statutory basis—do you think that you should consider placing the new literacy framework on a statutory level also, given that the old skills framework did not have a statutory basis?

Rydych yn cyfeirio at y pwyllgor, ac mae Cadeirydd y pwyllgor wedi dweud ychydig am hynny. Mae'n amlwg bod gormod o gystadlu yn dal i fod rhwng ysgolion a cholegau a chredaf fod awydd gennym i gyd i dorri i lawr ar y cystadlu hwnnw a gweld mwy o gydweithio. Mae blwyddyn neu ddwy i ni yn y lle hwn, Weinidog, yn ddim byd, ond mae blwyddyn neu ddwy mewn ysgol yn gallu golygu bod plentyn yn colli crap ar sgiliau sylfaenol a'r gallu i ddarllen yn iawn ac i rifo yn iawn. Rydych yn sôn yn eich datganiad am

You refer to the committee, and the committee Chair has spoken about the issues raised. It is obvious that there is still too much competition between schools and colleges and I think that we all aspire to see a reduction in that competition and an increase in collaboration. A year or two is nothing for us in this place, Minister, but, in a school, a year or two can mean that a child loses his or her grasp of basic skills and the ability to read properly and to count properly. You mention the following in your statement:

'a step change in their performance in the coming few years'.

newid sylfaenol yn eu perfformiad yn y blynyddoedd sydd i ddod.

A oes modd i chi frysio ar rai o'r materion hyn, os gwelwch yn dda?

Is there any way in which you can hurry this process along?

**Leighton Andrews:** I am glad that the Plaid Cymru spokesperson agreed with every word I said, because, otherwise, he might have had a lot more questions. May I say to him that the reason for making the statement is that I wanted to reinforce the messages that we have given out over the last 12 months to local authorities right at the beginning of new local authorities taking office and, indeed, as we look around Wales, before some of the education cabinet members have even been

**Leighton Andrews:** Rwyf yn falch bod llefarydd Plaid Cymru yn cytuno â phob gair a ddywedais, oherwydd, fel arall, gallai fod wedi gofyn llawer mwy o gwestiynau. A gaf ddweud wrtho mai'r rheswm y gwneuthum y datganiad hwnnw oedd fy mod am atgyfnerthu'r negeseuon yr ydym wedi'u cyfleu dros y 12 mis diwethaf i awdurdodau lleol ar ddechrau eu cyfnod mewn grym ac, yn wir, wrth inni edrych ledled Cymru, cyn i rai o'r aelodau cabinet a fydd yn gyfrifol am

appointed? I want there to be no doubt whatsoever across Wales that we are serious about this agenda, that we intend to push it forward and that we are not going to give up or allow momentum to fall.

addysg gael eu penodi? Rwyf am sicrhau nad oes dim amheuaeth o gwbl ledled Cymru am y ffaith ein bod o ddifrif am yr agenda hon, ein bod yn bwriadu bwrw ymlaen â'r agenda ac na fyddwn yn rhoi'r gorau iddi nac yn caniatáu i'r momentwm ostwng.

He referred to the skills framework and to Estyn's report on it. May I remind him that if he looks at paragraph 1 of that report, which has just been published, he will see that it says

Cyfeiriodd at y fframwaith sgiliau ac at adroddiad Estyn ar y fframwaith hwn. Hoffwn ei atgoffa y gwêl, os bydd yn edrych ar baragraff 1 yn yr adroddiad hwnnw, sydd newydd gael ei gyhoeddi, ei fod yn dweud

'As part of the Minister's annual remit for 2011-2012, the Welsh Government requested further advice from Estyn about the impact of the Skills framework at key stage 3.'

'Fel rhan o gylch gwaith blynyddol y Gweinidog ar gyfer 2011-2012, gofynnodd Llywodraeth Cymru am fwy o gyngor gan Estyn am effaith y Fframwaith Medrau yng nghyfnod allweddol 3.'

We made the request of Estyn for further information on how it saw it been implemented. I will remind him also that, in February 2011, in my speech about how teaching makes a difference, when I outlined the 20-point action plan, I said the following:

Gwnaethom y cais i Estyn er mwyn cael rhagor o wybodaeth am ei farn ynghylch sut y mae'n cael ei weithredu. Hefyd, hoffwn ei atgoffa fy mod wedi dweud y geiriau a ganlyn ym mis Chwefror 2011, wrth roi araith am sut y mae addysgu yn gwneud gwahaniaeth, pan amlinellais gynllun gweithredu 20 pwynt:

'Implementation of policy has been weak. Policies to support and deliver the curriculum need to be properly embedded. The decision to introduce the Skills Framework on a non-statutory basis is a good example of this weakness.'

Mae'r ymdrechion i weithredu'r polisi wedi bod yn wan. Mae angen sefydlu polisïau i gefnogi a chyflwyno'r cwricwlwm mewn modd priodol. Mae'r penderfyniad i gyflwyno'r Fframwaith Sgiliau ar sail anstatudol yn enghraifft dda o'r gwendid hwn.

I do not think that I can be accused of not having addressed this issue around the skills framework. It has been very much at the centre of what I been trying to do over the last 12 months. We will take the powers as we need to in order to ensure that the literacy and numeracy frameworks are embedded. The introduction of the reading and the numeracy tests will make a significant contribution to their success.

Ni chredaf y gellir fy nghyhuddo o beidio â mynd i'r afael â'r mater hwn, sy'n ymwneud â'r fframwaith sgiliau. Mae wedi bod wrth wraidd yr hyn yr wyf wedi ceisio ei wneud dros y 12 mis diwethaf. Byddwn yn cymryd y pwerau sydd eu hangen arnom i sicrhau bod y fframweithiau llythrennedd a rhifedd yn cael eu hymgorffori. Bydd cyflwyno profion darllen a rhifedd yn gwneud cyfraniad sylweddol at eu llwyddiant.

I want to endorse what he said about the need to end unnecessary competition between further education colleges and schools, and I welcome his support for that. We have to look at all local authorities on an individual basis. We will need to identify specific targets for individual local authorities, but there is no question that we will use the

Rwyf am ategu'r hyn a ddywedodd am yr angen i roi terfyn ar gystadleuaeth ddiangen rhwng colegau addysg bellach ac ysgolion, a chroesawaf ei gefnogaeth ar y mater hwnnw. Mae'n rhaid inni edrych ar yr holl awdurdodau lleol yn unigol. Bydd angen inni nodi targedau penodol ar gyfer awdurdodau lleol unigol, ond nid oes amheuaeth na

levers that we have, whether they be levers of intervention or of funding, to drive forward reform if we find people who are standing out against it. The school standards unit will provide one of the elements of evidence that we will need to make those judgments, but we will draw on other materials as well, including Estyn reports.

fyddwn yn defnyddio'r dulliau sydd ar gael i ni, boed yn ddulliau sy'n ymwneud ag ymyrraeth neu gyllid, i ysgogi diwygio os byddwn yn dod ar draws pobl sy'n ei wrthwynebu. Bydd yr uned safonau ysgolion yn darparu un elfen o'r dystiolaeth y bydd ei hangen arnom i wneud y penderfyniadau hynny, ond byddwn yn defnyddio deunyddiau eraill yn ogystal, gan gynnwys adroddiadau Estyn.

**Aled Roberts:** I do not think that I need to reiterate many of the comments made by Angela Burns, Christine Chapman and Simon Thomas. The position of the opposition parties is quite clear in this case. We all share your ambitions and recognise the difficulties that we have, and some of our comments are borne out of frustration with regard to the fact that, ever since devolution, there appears to have been much talk but little delivery as far as improvement is concerned.

**Aled Roberts:** Ni chredaf fod angen imi ailadrodd nifer o'r sylwadau a wnaed gan Angela Burns, Christine Chapman a Simon Thomas. Mae safbwynt y gwrthbleidiau yn eithaf clir yn yr achos hwn. Rydym i gyd yn cyd-fynd â'ch uchelgeisiau ac yn cydnabod yr anawsterau sy'n bodoli, ac mae rhai o'n sylwadau yn deillio o'r rhwystredigaeth sy'n gysylltiedig â'r ffaith ei bod yn ymddangos, ers datganoli, inni gael llawer o siarad ond ychydig iawn o gyflawni cyn belled ag y mae sicrhau gwelliannau yn y cwestiwn.

I will confine my remarks this afternoon to asking a few questions with regard to the last 12 months, because the role of the regional consortia has been stressed as far as school improvement is concerned. You mentioned the establishment of the consortia and the target for delegation. Is your assessment currently that the promises, as you referred to them, from those local authorities will be achieved by September? Are you satisfied with the work carried out by the school improvement services to date? Given the importance that you personally have attached to school improvement, it is disappointing that there are still schools in bands 4 and 5 that your department has identified because, although they have delivered plans, those plans have not been sufficiently detailed. I understand that this has led to your department requiring those schools to deliver detailed plans by the end of the month.

Cyfyngaf fy sylwadau y prynhawn yma i ofyn ychydig o gwestiynau am y 12 mis diwethaf, gan fod rôl y consortia rhanbarthol wedi cael ei phwysleisio mewn perthynas â gwella ysgolion. Soniasoch am sefydlu'r consortia a'r targed ar gyfer dirprwyo. Ar hyn o bryd, a ydych yn rhagweld y bydd yr addewidion, fel y cyfeiriasoch atynt, gan yr awdurdodau lleol hynny'n cael eu cyflawni erbyn mis Medi? A ydych yn fodlon ar y gwaith a wnaed gan y gwasanaethau gwella ysgolion hyd yn hyn? O ystyried pwysigrwydd gwella ysgolion i chi'n bersonol, mae'n siomedig bod ysgolion yn parhau i fod ym mandiau 4 a 5, yn ôl eich adran, a hynny oherwydd, er eu bod wedi cyflwyno cynlluniau, nad yw'r cynlluniau hynny wedi bod yn ddigon manwl. Rwyf yn deall bod y sefyllfa hon wedi arwain at ofyniad gan eich adran bod yr ysgolion hynny'n cyflwyno cynlluniau manwl erbyn diwedd y mis.

2.45 p.m.

I also ask you to expand on your statement's reference to the issue of surplus places and perhaps outline the timescale for the targets that will be set for individual local authorities? What do you expect to happen should those targets not be met? Will they be

Yn ogystal, gofynnaf ichi ymhelaethu ar y cyfeiriad a wnaed yn eich datganiad at fater lleoedd gwag ac efallai amlinellu'r amserlen ar gyfer y targedau a fydd yn cael eu gosod ar gyfer awdurdodau lleol unigol? Beth rydych yn disgwyl ei weld yn digwydd os na fydd y

annual targets set for the authorities, or will they be for the current five-year term?

targedau hynny'n cael eu cyrraedd? A fyddant yn dargedau blynyddol a bennir ar gyfer yr awdurdodau, neu a fyddant ar gyfer y cyfnod presennol, sef pum mlynedd?

On the question that Angela Burns asked about sixth forms, I welcome the fact that you said that it is a matter that is best settled locally. However, what is your view on the transformation plans that have been prepared by consultants for some authorities where those plans have been supported by officers but not by the democratic will of those authorities? I do not want you to mention individual issues, but there is a difficulty here in that you talk about intervention and levers, but the best way forward is frustrated by the vested interests that we talk about.

O ran y cwestiwn a ofynnodd Angela Burns am y chweched dosbarth, croesawaf y ffaith eich bod wedi dweud bod hwn yn fater y mae'n well ymdrin ag ef yn lleol. Fodd bynnag, beth yw eich barn chi am y cynlluniau trawsnewid sydd wedi'u paratoi gan ymgynghorwyr ar gyfer rhai awdurdodau lle mae'r cynlluniau hynny wedi cael eu cefnogi gan swyddogion, ond nid o ran ewyllys democrataidd yr awdurdodau hynny? Nid wyf am ichi sôn am faterion unigol, ond mae anhawster yma gan eich bod yn cyfeirio at ymyrraeth a dulliau ysgogi, ond caiff y ffordd orau ymlaen ei rhwystro oherwydd y buddiannau personol yr ydym yn siarad amdanynt.

Finally, while recognising Christine Chapman's remarks about the frustrations that we all felt on the Children and Young People Committee with regard to what was contained in strategies and what was actually delivered on the ground, it is not just a case of whether joint prospectuses are common among local authorities, as there is another situation in which, in some instances, schools are unwilling for further education colleges to attend open evenings for parents. I think that most of us were rather surprised to find that the situation was that bad.

Yn olaf, gan gydnabod sylwadau Christine Chapman am rwystredigaeth pawb ohonom ar y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ynghylch yr hyn a gynhwysir mewn strategaethau a'r hyn a ddarparwyd ar lawr gwlad mewn gwirionedd, nid yw'n ymwneud yn unig ag a yw prosbectysau ar y cyd yn gyffredin ymhlith awdurdodau lleol, gan fod sefyllfa arall, lle nad yw ysgolion, mewn rhai achosion, yn fodlon i golegau addysg bellach fynd i nosweithiau agored ar gyfer rhieni. Credaf fod y mwyafrif ohonom wedi ein synnu braidd o ganfod bod y sefyllfa gynddrwg â hynny.

**Leighton Andrews:** I start by congratulating the Liberal Democrat spokesperson on his honesty in referring to the challenges that some face in local authorities in respect of advice coming forward from officers not necessarily being supported by elected members. He and I both know what we mean by that.

**Leighton Andrews:** Dechreuaf drwy longyfarch llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol am ei onestrwydd wrth gyfeirio at yr heriau sy'n wynebu rhai mewn awdurdodau lleol o ran y cyngor a geir gan swyddogion nad yw o reidrwydd yn cael ei gefnogi gan aelodau etholedig. Mae ef a minnau yn gwybod beth a olygwn wrth hynny.

He is absolutely right to draw attention to the continuing unnecessary competition between schools and further education colleges, along with the reluctance of some schools to allow FE colleges in in the way that he suggested. As it happens, the idea that the Children and Young People Committee has proposed for common prospectuses may be a route through

Mae'n hollol iawn wrth dynnu sylw at y gystadleuaeth ddiangen barhaus rhwng ysgolion a cholegau addysg bellach, ynghyd ag amharodrwydd rhai ysgolion i ganiatáu i golegau AB ddod i mewn yn y modd yr awgrymodd. Fel mae'n digwydd, gall y syniad y mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wedi ei gynnig ynghylch llawlyfrau cyffredin

that, and I very much welcome it.

fod yn llwybr drwy hynny, ac rwyf yn croesawu hynny'n fawr.

In respect of what he said about surplus places, I think that we will have to look carefully at each individual local authority, because they are in different positions. There are one or two that have done well in certain areas—let us say in primary or secondary education—but bluntly, across Wales, all have a long way to go. What we have to do is to set out very carefully our expectations of each individual local authority. That is something that I shall return to in the near future, in that I will make the general message very clear to local authorities in a fortnight's time.

O ran yr hyn a ddywedodd am leoedd gwag, credaf y bydd yn rhaid inni edrych yn ofalus ar bob awdurdod lleol unigol, oherwydd mae eu sefyllfaoedd yn wahanol. Mae un neu ddau sydd wedi gwneud yn dda mewn rhai meysydd—mewn ysgolion cynradd neu uwchradd, dyweder—ond, a bod yn blwmp ac yn blaen, ledled Cymru, mae gan bob un ohonynt ffordd bell i fynd. Yr hyn y mae'n rhaid inni ei wneud yw nodi yn ofalus iawn yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan bob awdurdod lleol unigol. Mae hynny'n rhywbeth y byddaf yn dychwelyd ato yn y dyfodol agos, gan y byddaf yn cyfleu'r neges gyffredinol yn glir iawn i awdurdodau lleol ymhen pythefnos.

In respect of the regional consortia and the delegation issues, as far as I can tell from my most recent conversations with the WLGA and others, we seem to be on track for the targets in September. Clearly, I am anxious to avoid the possibility of there being any hiatus, as we now have new local authority leaderships in so many authorities. However, we have been planning on the basis that we would make things very clear to the incoming administrations as they take office.

O ran y consortia rhanbarthol a'r materion dirprwyo, a barnu yn ôl fy sgyrsiau diweddaraf â CLlLC ac eraill, mae'n ymddangos ein bod ar y trywydd iawn o ran y targedau ym mis Medi. Yn amlwg, rwy'n awyddus i osgoi'r posibilrwydd y bydd unrhyw fwlch, gan fod arweinyddiaethau newydd mewn cynifer o'r awdurdodau lleol. Fodd bynnag, buom yn cynllunio gan gadw mewn cof y byddem yn gwneud pethau'n glir iawn i'r gweinyddiaethau sy'n dod i mewn wrth iddynt ymgymryd â'u swydd.

There are still some challenges for schools in bands 4 and 5 that we have to address with regard to the preparation of their plans. Clearly, we have made additional funding available for those, and we will continue to give the necessary support.

Mae rhai heriau o hyd i ysgolion ym mandiau 4 a 5 y mae'n rhaid inni fynd i'r afael â hwy o ran y gwaith o baratoi eu cynlluniau. Yn amlwg, rydym wedi sicrhau bod arian ychwanegol ar gael i'r rheini, a byddwn yn parhau i roi'r cymorth angenrheidiol iddynt.

## Rheoliadau Iechyd Meddwl (Atgyfeiriadau Gofal Sylfaenol a Chymhwysedd i Gynnal Asesiadau Iechyd Meddwl Sylfaenol) (Cymru) 2012
## Mental Health (Primary Care Referrals and Eligibility to Conduct Primary Mental Health Assessments) (Wales) Regulations 2012

*Cynnig NDM4983 Jane Hutt*

*Motion NDM4983 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:*

*Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Iechyd Meddwl (Atgyfeiriadau Gofal Sylfaenol a Chymhwysedd i Gynnal*

*Approves that the draft The Mental Health (Primary Care Referrals and Eligibility to Conduct Primary Mental Health*

*Asesiadau Iechyd Meddwl Sylfaenol) (Cymru) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ebrill 2012.*

*Assessments) (Wales) Regulations 2012 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 24 April 2012.*

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** I move the motion.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Cynigiaf y cynnig.

The regulations laid before the Assembly for your consideration today are being introduced under the Mental Health (Wales) Measure 2010, which received Royal Approval in December 2010. These regulations are being made in relation to Part 1 of the Measure, which deals with local primary mental health support services. Part 1 of the Measure, as amended by the Mental Health (Regional Provision) (Wales) Regulations 2012, places statutory duties on all local health boards and local authorities to deliver local primary mental health support services in all local health board areas in Wales.

Mae'r rheoliadau a osodir gerbron y Cynulliad ichi eu hystyried heddiw yn cael eu cyflwyno o dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Rhagfyr 2010. Gwneir y rheoliadau hyn mewn perthynas â Rhan 1 o'r Mesur, sy'n ymdrin â gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol. Mae Rhan 1 o'r Mesur, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Iechyd Meddwl (Darpariaeth Ranbarthol) (Cymru) 2012, yn gosod dyletswyddau statudol ar bob bwrdd iechyd lleol a phob awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol lleol ym mhob ardal bwrdd iechyd lleol yng Nghymru.

These regulations have two separate purposes in relation to Part 1 of the Measure. First, they will enable GPs to refer individuals who are not registered with them as a patient to a local primary mental health support service for assessment if they believe that that individual requires such an assessment. Secondly, the regulations set out eligibility requirements in relation to which professionals may undertake assessments in local primary mental health support services.

Mae dau ddiben ar wahân i'r rheoliadau hyn mewn perthynas â Rhan 1 o'r Mesur. Yn gyntaf, byddant yn galluogi meddygon teulu i atgyfeirio unigolion nad ydynt wedi cofrestru gyda hwy fel claf i wasanaeth cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol i'w hasesu os ydynt yn credu bod angen asesiad o'r fath ar yr unigolion hynny. Yn ail, mae'r rheoliadau yn nodi'r gofynion cymhwysedd mewn perthynas â pha weithwyr proffesiynol all gynnal asesiadau mewn gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol.

Let us turn first to regulation 3. We are seeking to introduce a regulation to enable GPs to refer unregistered individuals into local primary mental health support services so as to ensure that those from vulnerable groups, such as Gypsy/Travellers, homeless people or asylum seekers, are not prevented from accessing these services simply on the basis of their not being registered with a GP. These regulations will allow GPs to refer individuals who appear to them to be in need of a primary mental health assessment to the local primary mental health support services in their area, even when that individual is not a patient registered at their practice.

Gadewch inni droi yn gyntaf at reoliad 3. Rydym yn ceisio cyflwyno rheoliad i alluogi meddygon teulu i atgyfeirio unigolion nad ydynt wedi'u cofrestru i wasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol er mwyn sicrhau nad yw'r rheini o grwpiau sy'n agored i niwed, fel Sipsiwn/Teithwyr, pobl ddigartref, neu geiswyr lloches, yn cael eu hatal rhag cael mynediad at y gwasanaethau hyn dim ond oherwydd nad ydynt wedi cofrestru gyda meddyg teulu. Bydd y rheoliadau hyn yn caniatáu i feddygon teulu atgyfeirio unigolion y maent yn credu bod angen asesiad iechyd meddwl sylfaenol arnynt i'r gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol yn eu hardal, hyd yn oed pan nad yw'r unigolyn yn glaf

cofrestredig yn eu practis.

In making these provisions, we hope that individuals from vulnerable groups and others who may not have registered with a GP in the local area for perfectly legitimate reasons—for example, students or migrant workers—have a route into primary mental health services if they require them. Separately, these regulations also set out the eligibility requirements that a person must meet in order to undertake primary mental health assessments. Regulation 4 states that only individuals registered as social workers, registered nurses with a specialism in mental health or learning disabilities, registered occupational therapists, registered practitioner psychologists or registered medical practitioners may undertake these assessments. This regulation also requires that the appointing body be satisfied that the person has appropriate experience, skills or training to undertake the role. These provisions are intended to ensure that only suitably qualified, trained and experienced staff are able to undertake this important function within primary mental health services.

Wrth wneud y darpariaethau hyn, gobeithiwn y bydd gan unigolion o grwpiau sy'n agored i niwed ac eraill nad ydynt wedi cofrestru gyda meddyg teulu yn yr ardal leol am resymau sy'n berffaith ddilys—er enghraifft myfyrwyr neu weithwyr mudol—lwybr i mewn i wasanaethau iechyd meddwl sylfaenol os oes eu hangen arnynt. Ar wahân i hynny, mae'r rheoliadau hyn hefyd yn nodi'r gofynion cymhwysedd y mae'n rhaid i unigolyn eu bodloni er mwyn cynnal asesiadau iechyd meddwl sylfaenol. Mae rheoliad 4 yn nodi mai dim ond unigolion sydd wedi'u cofrestru yn weithwyr cymdeithasol, nyrsys cofrestredig sydd ag arbenigedd ym maes iechyd meddwl neu anableddau dysgu, therapyddion galwedigaethol cofrestredig, seicolegwyr sy'n ymarferwyr cofrestredig, neu ymarferwyr meddygol cofrestredig a all gynnal yr asesiadau. Mae'r rheoliad hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod y corff penodi'n fodlon fod gan y person y profiad, y sgiliau neu'r hyfforddiant priodol i ymgymryd â'r rôl. Bwriedir i'r darpariaethau hyn sicrhau mai dim ond staff profiadol sy'n meddu ar y cymwysterau priodol all ymgymryd â'r swyddogaeth bwysig hon o fewn gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol.

Presiding Officer, I commend these regulations to the National Assembly.

Lywydd, cymeradwyaf y rheoliadau hyn i'r Cynulliad Cenedlaethol.

**William Graham:** Minister, we welcome these draft regulations and are most grateful to you for bringing them forward today. We acknowledge the need for these regulations, as you have outlined in your statement. In terms of continuing treatment, as outlined in Part 1, I am mindful of the closure of a particular home, which meant that people—some of whom had extremely complex issues—were removed at short notice. There have been examples of this being done without people's families being told. Will the Minister give some explanation as to how this will not be permitted in the future, in terms of continuing assessment?

**William Graham:** Weinidog, croesawn y rheoliadau drafft hyn ac rydym yn ddiolchgar ichi am eu cyflwyno heddiw. Rydym yn cydnabod yr angen am y rheoliadau hyn, fel y nodir yn eich datganiad. O ran triniaeth barhaus, fel yr amlinellir yn Rhan 1, rwy'n ymwybodol o'r ffaith bod un cartref penodol wedi cau, a olygodd fod pobl—yr oedd gan rai ohonynt broblemau hynod gymhleth—wedi'u symud ar fyr rybudd. Cafwyd enghreifftiau o hyn yn cael ei wneud heb roi gwybod i deuluoedd pobl. A wnaiff y Gweinidog roi rhyw fath o eglurhad i nodi na fydd hyn yn cael ei ganiatáu yn y dyfodol, o ran asesu parhaus?

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** I am not sure which regulation you are referring to.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Nid wyf yn sicr at ba reoliad yr ydych yn cyfeirio.

**William Graham:** I am referring to Part 1 of the regulation, on continuing assessment.

**William Graham:** Rwy'n cyfeirio at Ran 1 y rheoliad, ynghylch asesu parhaus.

**Lesley Griffiths:** I give you the commitment that that will not happen in the future, because of the changes that we are bringing forward to the regulation.

**Lesley Griffiths:** Rhoddaf ymrwymiad ichi na fydd hynny'n digwydd yn y dyfodol, oherwydd y newidiadau yr ydym yn eu cyflwyno yn y rheoliad.

**The Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections. The motion is therefore agreed, in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Llywydd:** Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

## 'Law yn Llaw at Iechyd'—Adroddiad Cynnydd Chwe Mis
## 'Together for Health'—Six-month Progress Report

**The Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Jocelyn Davies, amendments 2 and 3 in the name of William Graham and amendment 4 in the name of Peter Black.

**Y Llywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jocelyn Davies, gwelliannau 2 a 3 yn enw William Graham, a gwelliant 4 yn enw Peter Black.

*Cynnig NDM4981 Jane Hutt*

*Motion NDM4981 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn nodi'r cynnydd wrth weithredu 'Law yn Llaw at Iechyd'.*

*Notes progress in implementing 'Together for Health'.*

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** I move the motion.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Cynigiaf y cynnig.

In November 2011 I issued 'Together for Health'. At that time, I committed myself to reporting on progress every six months, and today is my first report. 'Together for Health' was not a proposal for hospital service changes. Rather, it set out the whole range of ways in which the Welsh Government aims to improve health and health services for the people of Wales over the period of this administration, confirming and complementing the actions set out in our programme for government. 'Together for Health' builds on previous work, along with the programme for government and the Bevan Commission report issued earlier last

Ym mis Tachwedd 2011, cyhoeddais 'Law yn Llaw at Iechyd'. Ar y pryd, gwneuthum ymrwymiad i adrodd yn ôl ar gynnydd bob chwe mis, a dyma fy adroddiad cyntaf heddiw. Nid oedd 'Law yn Llaw at Iechyd' yn gynnig ar gyfer gwneud newidiadau i wasanaethau ysbytai. Yn hytrach, cyflwynodd yr holl ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru yn anelu at wella iechyd a gwasanaethau iechyd ar gyfer pobl Cymru dros gyfnod y weinyddiaeth hon, gan gadarnhau ac ategu'r camau gweithredu a nodir yn ein rhaglen lywodraethu. Mae 'Law yn Llaw at Iechyd' yn adeiladu ar waith blaenorol, ynghyd â'r rhaglen lywodraethu ac

year. It sets an ambitious course and will deliver substantial and measurable improvement in health and health services across Wales within the term of this Government. It addresses eight major themes, and I will briefly touch on all areas in this report.

adroddiad Comisiwn Bevan, a gyhoeddwyd yn gynharach y llynedd. Mae'n pennu trywydd uchelgeisiol a bydd yn sicrhau gwelliant sylweddol a mesuradwy ym maes iechyd a gwasanaethau iechyd ledled Cymru yn nhymor y Llywodraeth hon. Mae'n mynd i'r afael ag wyth thema bwysig, a byddaf yn sôn yn gryno am yr holl feysydd yn yr adroddiad hwn.

*Daeth y Dirprwy Lywydd Dros Dro (Angela Burns) i'r Gadair am 2.54 p.m.*
*The Temporary Deputy Presiding Officer (Angela Burns) took the Chair at 2.54 p.m.*

The first two areas are improving health for all and mobilising the whole of society to help achieve this. These are difficult and challenging areas, though vital if we are to see the improvement in people's lives that we all want to see. Obviously, it is very early to have turned the trend significantly in these areas, but I already have important actions to report. We have refocused and redoubled our efforts to help people protect their own health.

Y ddau faes cyntaf yw gwella iechyd i bawb ac ysgogi'r gymdeithas gyfan i weithredu i helpu i gyflawni hyn. Mae'r rhain yn feysydd anodd a heriol, ond maent yn hanfodol er mwyn inni weld y gwelliant ym mywydau pobl yr ydym i gyd yn dymuno ei weld. Yn amlwg, mae'n gynnar iawn o ran troi'r duedd yn sylweddol yn y meysydd hyn, ond mae gennyf eisoes gamau pwysig i'w crybwyll. Rydym wedi ail-ganolbwyntio ac wedi dwysáu ein hymdrechion i helpu pobl i warchod eu hiechyd eu hunain.

Our existing healthy lifestyles programme, Change4Life, has been broadened to cover alcohol misuse prevention, as part of our single, integrated, five-year approach. We have also launched our tobacco control action plan. Our new three-year media campaign, Fresh Start Wales, aims to eliminate smoking from cars carrying children and bring home to parents and others the risk that their smoking poses to the health of children.

Mae'r rhaglen sydd gennym eisoes ynghylch ffyrdd o fyw'n iach, sef Newid am Oes, wedi cael ei hehangu i gynnwys atal camddefnyddio alcohol, fel rhan o'n dull gweithredu unigol ac integredig, a fydd ar waith dros gyfnod o bum mlynedd. Rydym hefyd wedi lansio ein cynllun gweithredu ar reoli tybaco. Mae ein hymgyrch dair blynedd newydd yn y cyfryngau, sef Cychwyn Iach Cymru, yn anelu at gael gwared ar yr arfer o ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant, a gwneud i rieni ac eraill sylweddoli'r risg y mae'r ffaith eu bod hwy'n ysmygu yn ei pheri i iechyd plant.

We are committed to improving how we measure, monitor and report in relation to health inequalities. In November 2011, Public Health Wales issued a new update on health inequalities, and work has begun on developing new indicators to monitor achievement in this area. In 1971, Dr Julian Tudor Hart formulated the inverse care law, which noted that, unless action is taken, those who most need good medical care are least likely to receive it. Therefore, we need to focus special attention on deprived areas and where there are poorer health outcomes. We are planning a programme of work to do just

Rydym wedi ymrwymo i wella'r modd yr ydym yn mesur, monitro a chyflwyno adroddiadau mewn perthynas ag anghydraddoldebau iechyd. Ym mis Tachwedd 2011, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru y wybodaeth ddiweddaraf am anghydraddoldebau iechyd, ac mae gwaith wedi ei ddechrau ar ddatblygu dangosyddion newydd i fonitro'r hyn a gyflawnwyd yn y maes hwn. Ym 1971, lluniodd Dr Julian Tudor Hart y ddeddf gofal gwrthgyfartal, a oedd yn nodi mai'r rheini sydd â'r angen mwyaf am ofal meddygol da yw'r rhai sy'n lleiaf tebygol o'i gael, oni

that, with a targeted, determined effort to enhance services to achieve real, measurable and attributable improvement. The focus of this work will be on prevention, early detection, treatment and better management of specific conditions.

chymerir camau yn hynny o beth. Felly, rhaid inni roi sylw arbennig i ardaloedd difreintiedig a'r lleoedd lle ceir canlyniadau iechyd gwaeth. Rydym yn cynllunio rhaglen waith er mwyn gwneud hynny, ynghyd ag ymdrech benderfynol, wedi'i thargedu, i wella gwasanaethau i sicrhau gwelliant gwirioneddol a mesuradwy y gellir ei briodoli. Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar atal, canfod yn gynnar, triniaeth a sicrhau gwell rheolaeth ar gyflyrau penodol.

The third area is improving quality in health services, particularly health outcomes for patients. This week, we are publishing our quality delivery plan. This hugely important document lays out how we will build on success to date in making quality, in its wider sense, the key test of the services that we provide. That success is evident, for example, in falling rates of C. difficile and MRSA and reductions in bedsores. In stroke care, we have dramatically improved everyday care, delivering significant and sustained improvement. However, I want to stress that our approach is not to simply target isolated examples. My aim is that all services should be safe, effective, accessible, affordable and sustainable. I want an NHS where the quality is good every day in all areas and where practice adapts and improves as new evidence emerges. The quality delivery plan sets out how we will systematically tackle both quality assurance and quality improvement. Strong leadership is vital to this and the NHS is already changing how care is promoted, managed, monitored and continuously improved.

Y trydydd maes yw gwella ansawdd mewn gwasanaethau iechyd, yn enwedig canlyniadau iechyd cleifion. Yr wythnos hon, rydym yn cyhoeddi ein cynllun i sicrhau ansawdd. Mae'r ddogfen hynod bwysig hon yn nodi sut y byddwn yn adeiladu ar y llwyddiant a wnaed hyd yma wrth sicrhau mai ansawdd, yn ei ystyr ehangach, yw'r prawf allweddol o ran y gwasanaethau a ddarparwn. Mae'r llwyddiant hwnnw yn amlwg, er enghraifft, yng nghyfraddau'r achosion o C. difficile ac MRSA, sy'n gostwng, ac yn y gostyngiadau yn nifer y doluriau gwely. Ym maes gofal strôc, rydym wedi gwella gofal o ddydd i ddydd yn syfrdanol, gan sicrhau gwelliant sylweddol a pharhaus. Fodd bynnag, rwyf am bwysleisio nad yw ein dull gweithredu yn ymwneud â thargedu enghreifftiau unigol yn unig. Fy nod yw sicrhau bod pob gwasanaeth yn ddiogel, effeithiol, hygyrch, fforddiadwy a chynaliadwy. Rwyf am gael GIG lle mae'r ansawdd yn dda bob dydd ym mhob maes, a lle mae arfer yn addasu ac yn gwella wrth i dystiolaeth newydd ddod i'r amlwg. Mae'r cynllun sicrhau ansawdd yn nodi sut y byddwn yn mynd i'r afael yn systematig â sicrhau ansawdd a gwella ansawdd. Mae arweiniad cryf yn hanfodol yn hyn o beth, ac mae'r GIG eisoes yn newid y modd y caiff gofal ei hyrwyddo, ei reoli, ei fonitro a'i wella'n barhaus

Our plan emphasises four elements, as part of a quality improvement approach that can match any in the world. The first element is inspiring all staff to take responsibility for improving the quality of care that they provide and helping them do so. The 1000 Lives initiatives have shown how much can be achieved through engaging staff in identifying and tackling obstacles to best

Mae ein cynllun yn rhoi pwyslais ar bedair elfen, fel rhan o ddull o wella ansawdd sydd cystal ag unrhyw un yn y byd. Yr elfen gyntaf yw ysbrydoli pob aelod o staff i gymryd cyfrifoldeb am wella ansawdd y gofal y maent yn ei ddarparu a'u helpu i wneud hynny. Mae mentrau 1000 o Fywydau wedi dangos faint y gellir ei gyflawni drwy sicrhau bod staff yn chwarae rhan weithredol

practice. The 1000 Lives Plus programme will continue to have a core role in delivering transformational change. The next element is giving the public a clearer voice in driving up care quality. During 2012, we will develop a national approach to measuring health service user experience. The best judge of the quality of a service is the recipient. I want patients to have the chance to describe their experiences to those who provide their care, so that there is a clear understanding of what is working well and what is not. I also want people to know that their comments were addressed. The third element is using clinical audits to test the quality of care and drive improvement. In April, we issued an annual rolling plan setting out how we expect all health boards and trusts to take part in national clinical audits—some 30 in total. That will give stark clarity on the performance of our services and a real incentive to improve. The final element is using research and innovation to improve care and accelerating the uptake of beneficial new technology. In support of this, I recently announced proposals to establish a best practice and innovation board to focus on speeding up the identification and, more importantly, the spread of good practice.

wrth ganfod a mynd i'r afael â'r hyn sy'n rhwystro arfer gorau. Bydd rhaglen 1000 o Fywydau a Mwy yn parhau i fod â rôl graidd wrth gyflawni newid trawsnewidiol. Yr elfen nesaf yw rhoi llais cliriach i'r cyhoedd o ran gwella ansawdd gofal. Yn ystod 2012, byddwn yn datblygu dull cenedlaethol o fesur profiad defnyddwyr y gwasanaeth iechyd. Y barnwr gorau o ansawdd gwasanaeth yw'r sawl sy'n ei dderbyn. Rwyf am i gleifion gael y cyfle i ddisgrifio'u profiadau i'r rhai sy'n darparu eu gofal, fel bod dealltwriaeth glir o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda. Rwyf hefyd am i bobl wybod bod eu sylwadau yn cael sylw. Y drydedd elfen yw defnyddio archwiliadau clinigol i brofi ansawdd y gofal ac ysgogi gwelliant. Ym mis Ebrill, bu inni gyhoeddi cynllun treigl blynyddol sy'n nodi'r ffaith ein bod yn disgwyl i bob bwrdd iechyd a phob ymddiriedolaeth gymryd rhan mewn archwiliadau clinigol cenedlaethol—tua 30 ohonynt. Bydd hynny'n rhoi eglurder llwyr ynghylch perfformiad ein gwasanaethau a bydd yn gymhelliad gwirioneddol i wella. Yr elfen olaf yw defnyddio gwaith ymchwil ac arloesi i wella gofal a chynyddu'r defnydd a wneir o dechnoleg newydd fuddiol. I gefnogi hyn, cyhoeddais gynigion yn ddiweddar ynghylch sefydlu bwrdd arfer gorau ac arloesedd a fyddai'n canolbwyntio ar gyflymu'r broses o nodi ac, yn bwysicach, o ledaenu arfer da.

I turn now to quality assurance. Healthcare quality must be good everywhere in Wales, every day. The quality delivery plan sets out our assurance system, which includes four elements: a quality assurance framework to drive improvement, with our published Welsh health service standards at its core; constant local self-assessment; continuous independent and peer review; and open, transparent reporting across the system, coupled with swift action where needed. By October this year, building on the outcome indicators in the programme for government, we will have identified a suite of population outcome indicators and NHS performance measures designed to monitor people's health and the effectiveness of the NHS in key areas. These measures are the more clinically focused targets promised in 'Together for Health'.

Trof yn awr at sicrhau ansawdd. Rhaid i ansawdd gofal iechyd fod yn dda ym mhob man yng Nghymru, bob dydd. Mae'r cynllun darparu ansawdd yn nodi ein system sicrwydd, sy'n cynnwys pedair elfen: fframwaith sicrhau ansawdd i ysgogi gwelliant, y mae ein safonau gwasanaeth iechyd i Gymru sydd wedi'u cyhoeddi yn sylfaen iddo; hunanasesu lleol di-dor; adolygu annibynnol a chan gymheiriaid yn barhaus; a dull adrodd agored a thryloyw ar draws y system, ynghyd â gweithredu cyflym lle bo angen. Erbyn mis Hydref eleni, gan adeiladu ar y dangosyddion canlyniadau yn y rhaglen lywodraethu, byddwn wedi nodi cyfres o ddangosyddion canlyniadau ynghylch poblogaeth a mesurau perfformiad y GIG a fydd wedi'u cynllunio i fonitro iechyd pobl ac effeithiolrwydd y GIG mewn meysydd allweddol. Y mesurau hyn yw'r targedau mwy clinigol eu ffocws a addawyd

yn 'Law yn Llaw at Iechyd'.

3.00 p.m.

The context for the condition-specific outcome indicators and NHS performance measures will be set out in the service delivery plans for major health services that we are publishing and will form the basis on which we hold the NHS to account. By November, we will have issued service delivery plans for maternity, mental health, cancer, cardiac services, stroke, diabetes, primary and community care, unscheduled care, palliative and end-of-life care and oral health. These will aim to reflect the latest thinking in each area.

Bydd y cyd-destun ar gyfer y dangosyddion canlyniadau sy'n canolbwyntio'n benodol ar gyflyrau a mesurau perfformiad y GIG yn cael eu nodi yn y cynlluniau darparu gwasanaethau ar gyfer gwasanaethau iechyd mawr y byddwn yn eu cyhoeddi, a byddwn yn defnyddio'r rhain yn sail i ddwyn y GIG i gyfrif. Erbyn mis Tachwedd, byddwn wedi cyhoeddi cynlluniau darparu gwasanaethau ar gyfer y gwasanaethau a ganlyn: mamolaeth, iechyd meddwl, canser, y galon, strôc, diabetes, gofal sylfaenol a chymunedol, gofal heb ei drefnu, gofal lliniarol, gofal diwedd bywyd ac iechyd y geg. Y bwriad yw y bydd y rhain yn adlewyrchu'r syniadau diweddaraf ym mhob maes.

The next area is reconfiguring and modernising services. Services are changing, even as we speak, and always have, through local initiatives, reflecting changes in demography, needs and technology. We have spoken in recent years about strengthening services in the community in order to treat people more locally, preventing unnecessary attendance at or admission to hospital. We are already seeing shifts in that direction. Conditions such as coronary heart disease, chronic lung disease and diabetes should be successfully managed in the community. I am pleased that we reduced emergency admissions and re-admissions for all of these conditions last year, compared with the previous year—an important marker for improving community-based care. We have also cut the average length of time people admitted with these conditions spend in hospital.

Y maes nesaf yw ad-drefnu a moderneiddio gwasanaethau. Mae gwasanaethau'n newid, a hynny wrth inni siarad, ac maent bob amser wedi gwneud hynny, drwy fentrau lleol, gan adlewyrchu newidiadau mewn demograffeg, anghenion a thechnoleg. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi siarad am gryfhau gwasanaethau yn y gymuned er mwyn trin pobl yn fwy lleol, gan atal derbyniadau diangen i'r ysbyty. Rydym eisoes yn gweld newidiadau i'r cyfeiriad hwnnw. Dylai cyflyrau fel clefyd coronaidd y galon, clefyd cronig yr ysgyfaint a diabetes gael eu rheoli'n llwyddiannus yn y gymuned. Rwyf yn falch ein bod wedi lleihau derbyniadau brys ac aildderbyniadau mewn perthynas â phob un o'r cyflyrau hyn y llynedd, o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol; mae hon yn garreg filltir bwysig ar gyfer gwella gofal yn y gymuned. Rydym hefyd wedi torri hyd yr amser, ar gyfartaledd, y mae pobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty â'r cyflyrau hyn yn ei dreulio yn yr ysbyty.

There is a danger in portraying change as always threatening, or as services being downgraded. We have a duty to ensure that our services to patients, our hospitals, community services and primary care are supported, safe and sustainable. In every part of Wales, there have been intensive discussions with clinical staff and extensive engagement with the public—greater engagement than has ever been seen before.

Ceir perygl o bortreadu newid fel rhywbeth sydd bob amser yn fygythiol, neu fel sefyllfa lle y mae gwasanaethau'n cael eu hisraddio. Mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod ein gwasanaethau i gleifion, ein hysbytai, ein gwasanaethau cymunedol a'n gofal sylfaenol yn cael eu cefnogi, yn ddiogel ac yn gynaliadwy. Ym mhob rhan o Gymru, bu trafodaethau dwys gyda staff clinigol ac ymgysylltu helaeth â'r cyhoedd—mwy o

The commitment by clinicians and managers to meet the public, explain issues, and listen to and respond to their views is also unprecedented. This really is an opportunity to put services on a solid basis for the next generation.

ymgysylltu nag a gafwyd erioed o'r blaen. Mae'r ymrwymiad a wnaed gan glinigwyr a rheolwyr i gwrdd â'r cyhoedd, i egluro materion iddynt, i wrando arnynt ac i ymateb i'w barn hefyd yn ymrwymiad na welwyd ei debyg o'r blaen. Mae hwn yn gyfle gwirioneddol i sicrhau bod gwasanaethau ar seiliau cadarn ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

I reject the view that there is a cross-party consensus against change. I believe we all realise that services cannot be frozen in time, and must change to match changing needs and circumstances. As I said earlier, it is clear that we need to build our community services, and this is happening. We need to reduce the dependency on hospital services, although of course they must be there for those who need them.

Rwyf yn gwrthod y farn bod consensws trawsbleidiol yn erbyn newid. Credaf fod pob un ohonom yn sylweddoli nad yw'n bosibl rhewi gwasanaethau mewn amser, a bod yn rhaid newid y gwasanaethau hyn i gyfateb i anghenion ac amgylchiadau sy'n newid. Fel y dywedais yn gynharach, mae'n amlwg bod angen inni adeiladu ein gwasanaethau cymunedol, ac mae hynny'n digwydd. Mae angen inni leihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau ysbyty, er bod yn rhaid i'r gwasanaethau hynny fod ar gael, wrth gwrs, i'r rhai sydd eu hangen.

Engagement around change, I hope, will be part of the next point I want to mention: an improving relationship with the public and patients. When we turned our back on a competition-based, market-driven NHS, we did not reject the idea that the public should influence the NHS. I want to see the people of Wales much more involved in the NHS and their own health. 'Together for Health' committed us to a more open relationship with the public and the development of a new draft compact. This will be in place by August.

Gobeithio y bydd ymgysylltu mewn perthynas â newid yn rhan o'r pwynt nesaf yr wyf am ei wneud, sef gwella'r berthynas â chleifion a'r cyhoedd. Pan droesom ein cefnau ar y syniad o gael GIG a oedd yn seiliedig ar gystadleuaeth ac a oedd yn cael ei yrru gan y farchnad, nid oeddem yn gwrthod y syniad y dylai'r cyhoedd ddylanwadu ar y GIG. Rwyf am weld pobl Cymru yn ymgysylltu llawer mwy â'r GIG ac â'u hiechyd eu hunain. Roedd 'Gyda'n Gilydd dros Iechyd' yn peri ein bod yn ymrwymo i berthynas fwy agored â'r cyhoedd ac i'r broses o ddatblygu compact drafft newydd. Bydd y compact hwn ar waith erbyn mis Awst.

I propose to issue a new information strategy to improve transparency, indicating how we will dramatically improve information for the public. We will be publishing our public information delivery plan imminently on the Welsh Government website. All local health boards and trusts will be required to make major improvements to their websites to ensure the information they publish is more relevant, understandable and widely available.

Rwyf yn bwriadu cyhoeddi strategaeth gwybodaeth newydd i wella tryloywder, gan nodi sut y byddwn yn gwella ansawdd y wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd yn sylweddol. Byddwn yn cyhoeddi ein cynllun cyflenwi gwybodaeth gyhoeddus yn fuan ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd gofyn i'r holl fyrddau iechyd lleol a'r holl ymddiriedolaethau wneud gwelliannau mawr i'w gwefannau er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a gyhoeddir ganddynt yn fwy perthnasol, yn fwy dealladwy ac ar gael yn eang.

Already, through the My Health Online

Yn barod, drwy'r prosiect Fy Iechyd Ar-lein,

project, patients can book GP appointments and order repeat prescriptions online. I now expect health boards to take this much further on an all-Wales basis. I have required NHS bodies to nominate a board member who will be responsible for publishing their organisation's information.

gall cleifion drefnu apwyntiadau gyda'u meddygon teulu ac ailarchebu presgripsiynau ar-lein. Rwyf yn awr yn disgwyl i fyrddau iechyd fynd â'r camau hyn lawer ymhellach ledled Cymru. Rwyf wedi'i gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG enwebu aelod o'r bwrdd a fydd yn gyfrifol am gyhoeddi gwybodaeth am eu sefydliad.

The seventh area concerns making far better use of money. The NHS has over the last year made an excellent job of managing its resources. Not only has it made savings in year of £290 million without compromising on quality, but it has performed extremely well against the service expectations I set earlier in the year.

Mae'r seithfed maes yn ymwneud â defnyddio arian lawer yn well. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r GIG wedi rheoli ei adnoddau'n ardderchog. Mae'r GIG nid yn unig wedi gwneud arbedion o £290 miliwn yn ystod y flwyddyn, a hynny heb gyfaddawdu ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir, ond mae hefyd wedi perfformio'n arbennig o dda yn erbyn y disgwyliadau ynglŷn â'r gwasanaeth a bennwyd gennyf yn gynharach yn y flwyddyn.

Another commitment in 'Together for Health' was to strengthen partnership arrangements, linking the Welsh Government, the NHS and trade unions. The Welsh partnership forum is in the process of developing a new strategic architecture for partnership working in Wales. To recognise the crucial role of staff—and I cannot praise NHS staff too highly—we have agreed a new workforce development and organisation framework, 'Working Together, Working Differently', which was fully discussed and agreed with trade unions and has been endorsed by the Welsh partnership forum.

Ymrwymiad arall yn 'Gyda'n Gilydd dros Iechyd' oedd atgyfnerthu trefniadau partneriaeth, gan gysylltu Llywodraeth Cymru, y GIG ac undebau llafur. Mae fforwm partneriaeth Cymru yn y broses o ddatblygu strwythur strategol newydd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yng Nghymru. Er mwyn cydnabod y rôl hanfodol y mae staff yn ei chwarae—ac ni allaf roi gormod o ganmoliaeth i staff y GIG—rydym wedi cytuno ar fframwaith newydd ar gyfer datblygu a threfnu'r gweithlu, sef 'Working Together, Working Differently'. Cafodd y fframwaith hwn ei drafod yn llawn a chytunwyd arno â'r undebau llafur, a chafodd ei gymeradwyo hefyd gan fforwm partneriaeth Cymru.

I want to conclude with a brief word on planning and performance management. I have mentioned a number of separate topics, such as quality, the workforce and finance, and in developing policy we are linking all these together at every point. As to performance, my aim will be to establish high standards as a given, and encourage and empower all staff to make improvements wherever they can. My department works closely with the NHS to ensure that it delivers at all times as it should against national standards, and does so in a manner that supports the ongoing sustainability of services.

Rwyf am orffen gyda gair byr ar gynllunio a rheoli perfformiad. Rwyf wedi crybwyll nifer o bynciau ar wahân, megis ansawdd, y gweithlu a chyllid. Wrth ddatblygu polisi, rydym yn cysylltu'r pynciau hyn ar hyd yr amser. O ran perfformiad, fy nod yw sefydlu safonau uchel fel y safonau a ddisgwylir, ynghyd ag annog a grymuso'r staff i wneud gwelliannau lle bynnag y gallant. Mae fy adran yn gweithio'n agos â'r GIG i sicrhau ei bod bob amser yn darparu gwasanaethau yn unol â'r safonau cenedlaethol, ac yn gwneud hynny mewn modd sy'n cefnogi'r ddarpariaeth barhaus o wasanaethau cynaliadwy.

*Gwelliant 1 Jocelyn Davies*

*Cynnwys ar ddiwedd y cynnig:*

*ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i:*

*a) dangos atebolrwydd llwyr am y GIG; a*

*b) amlinellu'n glir y rhesymau ariannol a chlinigol dros unrhyw gynigion i ad-drefnu ysbytai.*

*Amendment 1 Jocelyn Davies*

*Insert at end of motion:*

*and calls on the Welsh Government to:*

*a) demonstrate full accountability for the NHS; and*

*b) clearly outline the financial and clinical reasons for any hospital reconfiguration proposals.*

**Elin Jones:** I move amendment 1 in the name of Jocelyn Davies.

**Elin Jones:** Cynigiaf welliant 1 yn enw Jocelyn Davies.

Plaid Cymru will be supporting all of the amendments and the motion today. I welcome the Minister's progress report on 'Together for Health' and her commitment to a six-monthly progress report. The Minister has outlined many areas today, and in her progress report, that are not politically contentious. You certainly have Plaid Cymru's support to continue the work to deliver some of these changes. However, in my contribution this afternoon, I will focus on some areas where there may be a difference of emphasis between Plaid Cymru and the Government.

Bydd Plaid Cymru'n cefnogi pob un o'r gwelliannau a'r cynnig heddiw. Croesawaf adroddiad cynnydd y Gweinidog ar 'Gyda'n Gilydd dros Iechyd', a'i hymrwymiad i ddarparu adroddiad cynnydd bob chwe mis. Mae'r Gweinidog wedi amlinellu nifer o feysydd heddiw—ac yn ei hadroddiad cynnydd—nad ydynt yn ddadleuol mewn cyd-destun gwleidyddol. Yn sicr, cewch gefnogaeth Plaid Cymru i barhau â'r gwaith sy'n cael ei wneud i gyflawni rhai o'r newidiadau hyn. Fodd bynnag, yn fy nghyfraniad y prynhawn yma, byddaf yn canolbwyntio ar rai o'r meysydd lle y mae pwyslais Plaid Cymru a'r Llywodraeth yn wahanol, o bosibl.

There is no doubt that the Government is gearing up to one of its major programmes of change for the remainder of its Assembly term, which is a programme of NHS reconfiguration, which the Minister alluded to in her statement this afternoon. That programme in particular is a programme of hospital service reconfiguration, and there are some political points that I would like to make on this.

Nid oes amheuaeth nad yw'r Llywodraeth yn paratoi i weithredu un o'i phrif raglenni o newidiadau ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad—rhaglen ar gyfer ad-drefnu'r GIG, sef y rhaglen y cyfeiriodd y Gweinidog ati yn ystod ei datganiad y prynhawn yma. Yn benodol, mae'r rhaglen hon yn rhaglen ar gyfer ad-drefnu gwasanaethau ysbytai, a hoffwn wneud rhai pwyntiau gwleidyddol yn ei chylch.

First, we must all accept, including the Minister, that this programme of hospital service reconfiguration was not clearly outlined for the people of Wales in the Labour manifesto or in the programme for government. In fact, it is slightly like the NHS reform in England, in that it is a programme that lacks a clear democratic mandate. It is quite clear to all of us that the launching of this programme of change was delayed until after the local elections, due to

Yn gyntaf, mae'n rhaid i bob un ohonom—gan gynnwys y Gweinidog—dderbyn nad oedd y rhaglen o ad-drefnu gwasanaethau ysbytai wedi'i hamlinellu'n glir i bobl Cymru ym maniffesto'r Blaid Lafur nac yn y rhaglen lywodraethu. Yn wir, mae'r sefyllfa hon rywbeth yn debyg i sefyllfa'r GIG yn Lloegr, gan ei bod yn rhaglen sydd â diffyg mandad democrataidd clir. Mae'n eithaf clir i bob un ohonom fod y broses o lansio'r rhaglen hon wedi cael ei gohirio tan ar ôl yr etholiadau

the political sensitivity, particularly in relation to the Labour Party, of hospital centralisation plans in some areas. I will leave the party politics at that—[ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.'] Although some Members in my party would like me to continue in that vein, I will move on. I hope that we are moving into a period of greater honesty and transparency in relation to the proposals for changes to NHS services, with fewer hysterical accusations of scaremongering in this Chamber and elsewhere.

lleol, oherwydd sensitifrwydd gwleidyddol—yn enwedig mewn perthynas â'r Blaid Lafur—cynlluniau ar gyfer canoli gwasanaethau ysbytai mewn rhai ardaloedd. Gadawaf y materion sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth plaid felly—[AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.'] Er yr hoffai rhai Aelodau o'm plaid imi barhau yn yr un modd, symudaf ymlaen. Gobeithio ein bod yn symud i gyfnod o onestrwydd a thryloywder mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer newid gwasanaethau'r GIG, gyda llai o gyhuddiadau hysterig am godi bwganod yn y Siambr hon ac mewn mannau eraill.

Our NHS is in a challenging situation. There are severe financial pressures that will remain severe for at least the next four years and there is a need, as the Minister outlined, to improve clinical excellence and outcomes for patients. I therefore understand that the Minister and the local health boards must consider the reconfiguration of services. Changes within the NHS happen all the time, as new technologies, drugs and treatments come on board. However, the reconfiguration of services should not be driven only by short-term financial pressures or by any ideological attraction to bigger, centralised service centres. Reconfiguration needs to be based on the evidence that any major change will deliver improved clinical excellence and better patient outcomes.

Mae ein GIG mewn sefyllfa heriol. Mae gennym bwysau ariannol difrifol a fydd yn parhau'n ddifrifol am y pedair blynedd nesaf o leiaf, ac mae angen inni wella rhagoriaeth glinigol a chanlyniadau i gleifion, fel yr amlinellodd y Gweinidog. Rwyf yn deall, felly, fod yn rhaid i'r Gweinidog a'r byrddau iechyd lleol ystyried ad-drefnu gwasanaethau. Mae newidiadau o fewn y GIG yn digwydd drwy'r amser, wrth i dechnolegau, cyffuriau a thriniaethau newydd gael eu cyflwyno. Fodd bynnag, ni ddylai'r broses o ad-drefnu gwasanaethau gael ei symbylu gan bwysau ariannol tymor byr yn unig, na chan unrhyw atyniad ideolegol at ganolfannau gwasanaeth canolog a mwy. Mae angen i'r broses ad-drefnu fod yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n dangos y bydd unrhyw newid mawr yn sicrhau rhagoriaeth glinigol well a chanlyniadau gwell i gleifion.

Marcus Longley's report that was published last week, commissioned by the Welsh NHS Confederation, is an important contribution to a base of evidence. It states where evidence exists for a particular model change and, just as importantly, states where evidence does not exist for any proposed change. It is therefore essential that, in proposing changes to the configuration of NHS services, full consideration is given to all evidence, not just to a selective choice of statistics to serve a particular argument.

Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf gan Marcus Longley, sef yr adroddiad a gomisiynwyd gan Gonffederasiwn GIG Cymru, yn gyfraniad pwysig i'r sylfaen dystiolaeth. Mae'n nodi lle y mae tystiolaeth yn bodoli ar gyfer newid model penodol, ac yn nodi lle nad oes tystiolaeth yn bodoli ar gyfer unrhyw newid arfaethedig, sydd yr un mor bwysig. Felly, wrth gynnig ad-drefnu gwasanaethau'r GIG, mae'n hanfodol rhoi ystyriaeth lawn i'r holl dystiolaeth sydd ar gael, nid yn unig i ddewis dethol o ystadegau a fydd yn cefnogi dadl benodol.

We all know that proposals to change hospital services are subject to considerable local concerns and political lobbying. More than anything, I want local health boards to

Gwyddom oll fod pryder lleol sylweddol a lobïo gwleidyddol ynglŷn â newid gwasanaethau ysbyty. Yn fwy na dim, rwyf am i fyrddau iechyd lleol amlinellu'n glir eu

clearly outline their reasons and evidence for proposing changes and then to consult widely. I am concerned that the democratic accountability of local health boards is not sufficient. Yes, they are accountable to the Minister, and you, as Minister, are accountable to us, but you also have another role, which is to take an independent decision on any proposal that remains contentious between a local community health council and a local health board.

rhesymau dros gynnig newidiadau a'u tystiolaeth ar gyfer gwneud hynny, ac yna ymgynghori'n eang yn eu cylch. Pryderaf nad yw atebolrwydd democrataidd byrddau iechyd lleol yn ddigonol. Mae'n wir eu bod yn atebol i'r Gweinidog, a'ch bod chi, fel Gweinidog, yn atebol i ni. Serch hynny, mae gennych rôl arall, sef gwneud penderfyniad annibynnol ar unrhyw gynnig sy'n parhau'n fater dadleuol rhwng cyngor iechyd cymuned lleol a bwrdd iechyd lleol.

Given the major changes ahead and the substantial reconfiguration that may come our way, I propose that, in addition to accountability to the Minister, which is wholly important, local health boards should also have to propose and have their plans scrutinised individually by the Health and Social Care Committee. That democratic scrutiny by the Assembly committee should happen for every local health board in Wales. I hope that, in her response today, the Minister will have no objection in principle to such additional scrutiny by the Health and Social Care Committee. If she does not object in principle, then I only have to persuade the Chairman of the Health and Social Care Committee that that would be a good idea.

O ystyried y newidiadau mawr sydd o'm blaenau a'r ad-drefnu sylweddol a allai ddod, cynigiaf y dylai byrddau iechyd lleol, yn ogystal â bod yn atebol i'r Gweinidog, sy'n hollbwysig, orfod cynnig eu cynlluniau i'r Pwyllgor Iechyd Gofal Cymdeithasol i graffu arnynt yn unigol. Dylai'r gwaith craffu democrataidd hwnnw gael ei wneud gan bwyllgor y Cynulliad mewn perthynas â phob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru. Gobeithio na fydd y Gweinidog, yn ei hymateb heddiw, yn gwrthwynebu mewn egwyddor waith craffu ychwanegol o'r fath gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Os nad yw'r Gweinidog yn gwrthwynebu'r cynllun hwn mewn egwyddor, y cyfan y bydd yn rhaid imi ei wneud fydd argyhoeddi Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y byddai'n syniad da.

*Gwelliant 2 William Graham*

*Amendment 2 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi bod agenda Llywodraeth Cymru, 'Law yn Llaw at Iechyd' yn cynnwys cynlluniau i leihau nifer y safleoedd ysbytai sy'n darparu gwasanaethau damweiniau ac achosion brys 24/7 o dan law meddyg ymgynghorol.*

*Notes that the Welsh Government's 'Together for Health' agenda includes plans to reduce the number of hospital sites providing 24/7 consultant-led accident and emergency services.*

*Gwelliant 3 William Graham*

*Amendment 3 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn cydnabod y consensws trawsbleidiol yn erbyn israddio ysbytai lleol a gwasanaethau iechyd ar draws Cymru.*

*Recognises the cross-party consensus against the downgrading of local hospitals and health services across Wales.*

**William Graham:** I move amendments 2 and 3 in my name.

**William Graham:** Cynigiaf welliannau 2 a 3 yn fy enw.

The Welsh Conservatives will be supporting the amendments of Plaid Cymru and the Welsh Liberal Democrats. The public deserve to know what the Government is planning to do with their NHS. I am grateful to the Minister for her interim report today.

Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi gwelliannau Plaid Cymru a gwelliannau Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Mae'r cyhoedd yn haeddu cael gwybod am yr hyn y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei wneud gyda'u GIG. Rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ei hadroddiad dros dro heddiw.

The problems in south-east Wales graphically demonstrate Labour's failure to grasp the concept that changes in demographics, particularly in relation to the provision of orthopaedic services, have raised fresh concerns about the financial pressures placed on NHS front-line services, after figures have revealed that the equivalent of more than 30 operations a day were cancelled in a two-year period. Statistics from health boards across Wales have shown that over 16,000 operations were cancelled by hospitals across the nation between 2009 and 2011. Following that, the next year, it was revealed that nearly 2,500 operations were cancelled due to a shortage of beds, which is equivalent to nearly 10 a day. These statistics paint a stark picture of the pressures faced by health boards and the huge demand for limited resources. 'Together for Health' was right to point out that the Welsh NHS is in a very poor state. Under successive Welsh Labour Governments, many health outcomes are worse and high levels of health inequality prevail.

Mae'r problemau yn ne-ddwyrain Cymru yn dangos yn fyw fethiant y Blaid Lafur i ddeall y cysyniad bod newidiadau mewn demograffeg, yn enwedig mewn perthynas â darparu gwasanaethau orthopedig, wedi codi pryderon newydd am y pwysau ariannol a roddir ar wasanaethau rheng flaen y GIG, wedi i ffigurau ddatgelu bod nifer o lawdriniaethau sy'n cyfateb i fwy na 30 y diwrnod wedi'u canslo dros gyfnod o ddwy flynedd. Dengys ystadegau gan fyrddau iechyd ledled Cymru fod dros 16,000 o lawdriniaethau wedi'u canslo gan ysbytai ledled y wlad rhwng 2009 a 2011. Yn dilyn hynny, yn ystod y flwyddyn ddilynol, datgelwyd bod bron 2,500 o lawdriniaethau wedi'u canslo oherwydd prinder gwelyau, sy'n cyfateb i bron 10 y diwrnod. Mae'r ystadegau hyn yn rhoi darlun llwm o'r pwysau a wynebir gan fyrddau iechyd a'r galw mawr am adnoddau cyfyngedig. Roedd 'Gyda'n Gilydd dros Iechyd' yn iawn wrth ddweud bod GIG Cymru mewn cyflwr gwael iawn. O dan sawl Llywodraeth Lafur yng Nghymru, mae llawer o ganlyniadau iechyd yn waeth ac mae lefelau uchel o anghydraddoldeb iechyd yn parhau i fodoli.

How long you wait for treatment depends entirely on where you live. While enormous orthopaedic delays have been successfully tackled in most areas, they continue to be a problem in the Cardiff and Vale University Local Health Board area. People are continuously denied reasonable service for certain specialities. Professor Marcus Longley said in his review that there is an accumulating body of evidence that suggests that patients in Wales do not always get the best possible outcomes from their hospital care. Some key speciality areas, namely major trauma, general trauma and emergency care, stroke care, maternity and newborn care, because of the way in which services are organised in Wales, fall well short of

Mae am ba hyd y byddwch yn aros am driniaeth yn dibynnu'n gyfan gwbl ar ble yr ydych yn byw. Er bod sylw llwyddiannus wedi'i roi i achosion o oedi enfawr o ran triniaeth orthopedig yn y rhan fwyaf o ardaloedd, mae'r achosion hyn yn parhau'n broblem yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae pobl yn cael eu hamddifadu'n barhaus o wasanaeth rhesymol ar gyfer rhai arbenigeddau. Dywedodd yr Athro Marcus Longley yn ei adolygiad fod corff cynyddol o dystiolaeth sy'n awgrymu nad yw cleifion yng Nghymru bob amser yn cael y canlyniadau gorau posibl o'u gofal mewn ysbyty. Mae rhai meysydd allweddol o arbenigedd, sef trawma mawr, trawma cyffredinol a gofal brys, gofal strôc,

what the evidence suggests is optimal.

gofal mamolaeth a gofal i'r newydd-anedig, yn sgîl y modd y caiff gwasanaethau eu trefnu yng Nghymru, o safon sydd dipyn islaw'r lefel orau posibl, sef y lefel y mae'r dystiolaeth yn ei hawgrymu.

One in eight people in Wales remain on an NHS waiting list and there has been another rise in the number of patients not yet seen. An additional 14,000 people were added to the list in March, bringing the total number of patients referred for treatment, but waiting for a hospital appointment, to over 390,000. That figure was only 376,000 in February. When Carwyn Jones became First Minister at the end of 2009, 227,000 people were waiting for the start of their treatment, while the figures for March 2012 show a rise of over 70%. Thousands of people are still waiting for far too long and increasing delays in all specialities are a cause for concern for us all. Only last week, it was revealed that an additional 14,000 patients were added to NHS waiting lists.

Mae un o bob wyth o bobl yng Nghymru yn parhau ar restr aros y GIG, a bu cynnydd arall yn nifer y cleifion na chawsant eu gweld eto. Cafodd 14,000 o bobl eu hychwanegu at y rhestr ym mis Mawrth, gan ddod â chyfanswm y cleifion a atgyfeiriwyd i gael triniaeth ond sy'n aros am apwyntiad ysbyty i dros 390,000. Dim ond 376,000 oedd y ffigur hwnnw ym mis Chwefror. Pan ddaeth Carwyn Jones yn Brif Weinidog ar ddiwedd 2009, roedd 227,000 o bobl yn aros i ddechrau eu triniaeth; mae'r ffigurau ar gyfer mis Mawrth 2012 yn dangos cynnydd o dros 70%. Mae miloedd o bobl yn dal i aros yn llawer rhy hir, ac mae oedi cynyddol ym mhob arbenigedd yn achosi pryder i bob un ohonom. Yr wythnos diwethaf, datgelwyd bod 14,000 o gleifion wedi'u hychwanegu at restrau aros y GIG.

Despite the hard work of front-line staff, our health boards have treaded water financially. Labour's record-breaking cuts are putting an immense strain on hospitals and the resulting problems are only set to get worse. In October 2011, the draft budget was announced, which contained an additional £288 million for the NHS in Wales over the next three years. The Minister stated that the budget included additional recurrent funding of £63 million per annum, which would be used by the NHS to drive forward necessary local service improvements by redesigning services to make them safer and more sustainable.

Er gwaethaf y gwaith caled a wneir gan staff yn y rheng flaen, mae ein byrddau iechyd wedi aros yn eu hunfan yn ariannol. Mae toriadau'r Blaid Lafur, y toriadau uchaf erioed, yn rhoi straen aruthrol ar ysbytai, ac mae'r problemau sy'n deillio ohonynt yn sicr o waethygu. Ym mis Hydref 2011, cyhoeddwyd y gyllideb ddrafft, a oedd yn cynnwys £288 miliwn ychwanegol ar gyfer y GIG yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf. Dywedodd y Gweinidog fod y gyllideb yn cynnwys cyllid rheolaidd ychwanegol o £63 miliwn y flwyddyn—arian a fyddai'n cael ei ddefnyddio gan y GIG i sicrhau gwelliannau angenrheidiol i wasanaethau lleol drwy ail-greu gwasanaethau i'w gwneud yn fwy diogel ac yn fwy cynaliadwy.

The Minister also said that NHS managers would be held accountable for the financial management of their organisations, with strong action taken if financial targets were not achieved. The dependency on year-end financial support was to end and the Minister warned that there would be no further support during the financial year. Last week, the Minister stated that no district general hospital in Wales would close and that our network of district general hospitals would

Dywedodd y Gweinidog hefyd y byddai rheolwyr y GIG yn atebol am reolaeth ariannol eu sefydliadau, a byddai camau cryf yn cael eu cymryd pe na bai targedau ariannol yn cael eu cyflawni. Roedd y ddibyniaeth ar gymorth ariannol diwedd y flwyddyn i fod i ddod i ben, a rhybuddiodd y Gweinidog na fyddai cymorth pellach yn cael ei ddarparu yn ystod y flwyddyn ariannol. Yr wythnos diwethaf, dywedodd y Gweinidog na fyddai dim un ysbyty cyffredinol dosbarth

retain a central role in the future delivery of NHS services. She also said that she does not want to hear the word 'downgrading'. She has said that reconfiguration is not downgrading; it is about improving services. That is, quite simply, not the case.

yng Nghymru yn cau, a dywedodd y byddai ein rhwydwaith o ysbytai cyffredinol dosbarth yn cadw rôl ganolog o ran darparu gwasanaethau'r GIG yn y dyfodol. Dywedodd hefyd nad oedd hi am glywed y gair 'israddio'. Mae hi wedi dweud nad israddio yw ad-drefnu, ac mai proses sy'n ymwneud â gwella gwasanaethau ydyw. Mewn gair, nid yw hynny'n wir.

*Gwelliant 4 Peter Black*

*Amendment 4 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi manylion llawn unrhyw newidiadau arfaethedig i ddarpariaethau gwasanaethau'r GIG o ganlyniad i 'Law yn Llaw at Iechyd', cyn gynted â phosibl er mwyn gallu hwyluso trafodaethau deallus yn lleol.*

*Calls on the Welsh Government to provide full details of any proposed changes to NHS service delivery as a result of 'Together for Health' at the earliest opportunity so as to facilitate informed debates at a local level.*

**Kirsty Williams:** I move amendment 4 in the name of Peter Black.

**Kirsty Williams:** Cynigiaf welliant 4 yn enw Peter Black.

3.15 p.m.

The Welsh Liberal Democrat group will be supporting the other amendments on the order paper this afternoon. I thank the Minister for her statement this afternoon and her update with regard to the implementation of 'Together for Health'. I would like to focus on some of the main components of 'Together for Health', the first of which is service modernisation. The Minister very gracefully skirted around the issue of what service modernisation means in this context.

Bydd grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'r gwelliannau eraill ar bapur y drefn y prynhawn yma. Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad y prynhawn yma ac am y wybodaeth ddiweddaraf a roddodd o ran gweithredu 'Law yn Llaw at Iechyd'. Hoffwn ganolbwyntio ar rai o brif elfennau 'Law yn Llaw at Iechyd', y cyntaf ohonynt yw moderneiddio gwasanaethau. Bu i'r Gweinidog osgoi, yn gywrain iawn, gwestiwn yr hyn a olygir wrth foderneiddio gwasanaethau yn y cyd-destun hwn.

Since the publication of 'Together for Health', we have had delay, prevarication and a huge building up of distrust in communities about what their local health services are going to look like. The issue is not just with persuading members of the opposition of her plans. After all, it is not opposition Members who have pictures on the front pages of their website of them holding up signs saying 'Hands off our hospital' and 'Keep all our hospital services'. She has a way to go in convincing her own party colleagues of the need for change, it seems.

Ers cyhoeddi 'Law yn Llaw at Iechyd', cafwyd oedi, osgoi ateb a drwgdybiaeth yn cronni mewn cymunedau ynghylch sut olwg fydd ar eu gwasanaethau iechyd lleol. Nid yw'n fater o ddarbwyllo aelodau'r gwrthbleidiau yn unig am ei chynlluniau. Wedi'r cyfan, nid Aelodau'r gwrthbleidiau sydd â lluniau ar eu gwefannau ohonynt yn dal arwyddion sy'n dweud, 'Gadwch lonydd i'n hysbyty' a 'Cadwch ein holl wasanaethau ysbyty'. Mae'n ymddangos bod ganddi gryn waith argyhoeddi ar ei chyd-Aelodau yn ei phlaid ei hun fod angen newid.

Undoubtedly, as I said in the Welsh

Heb os, fel y dywedais yn ystod dadl y

Conservatives' debate on health last week, the challenges facing the Welsh NHS are complex, they are many and they will simply not go away by sticking our heads in the sand. What is required is clear leadership, a clear articulation of why change is necessary and for the Minister and the local health boards to have the courage of their convictions and to go out into their local areas and make the case for change. Instead, since the publication of 'Together for Health', we have had an absence of all of those things. I find particularly worrying the ongoing response by the Minister to countless questions about what is happening: 'This is not a matter for me, but a matter for the local health boards'. If that is the case, Minister, what happens if each local health board comes back and does not argue the case for change? Your central, core strategic document tells those local health boards that they need to modernise and reconfigure their services. It is time that you took responsibility for your part in the strategic direction of the NHS.

Ceidwadwyr Cymreig ar iechyd yr wythnos diwethaf, mae'r heriau sy'n wynebu GIG Cymru yn gymhleth; maent yn niferus ac ni fyddant yn diflannu drwy gadw ein pennau yn y tywod. Yr hyn sydd ei angen yw arweinyddiaeth glir, a mynegi'n glir paham mae newid yn angenrheidiol, ac mae gofyn i'r Gweinidog a'r byrddau iechyd lleol fod yn barod i sefyll dros eu hegwyddorion gan gyflwyno'r achos dros newid yn eu hardaloedd lleol. Yn hytrach, ers cyhoeddi 'Law yn Llaw at Iechyd', ni chafwyd dim un un o'r pethau hynny. Mae ymateb parhaus y Gweinidog i gwestiynau dirifedi ynghylch beth sy'n digwydd yn destun cryn bryder: 'Nid yw hynny'n fater i mi, ond yn fater i'r byrddau iechyd lleol'. Os mai dyna sut y mae, Weinidog, beth fydd yn digwydd os bydd pob bwrdd iechyd lleol yn dod yn ôl ac nad yw'n dadlau'r achos dros newid? Mae eich dogfen strategaeth greiddiol, ganolog yn dweud wrth fyrddau iechyd lleol fod angen iddynt foderneiddio ac ad-drefnu eu gwasanaethau. Mae'n bryd i chi gymryd cyfrifoldeb dros eich rhan chi yng nghyfeiriad strategol y GIG.

Turning to health inequalities, there is much to commend the Minister on with regard to the greater emphasis and focus on public health since the start of this new Government. However, we have a long way to go. The figures for the number of avoidable deaths for 2001-10 were published today and they show a significantly higher rate of avoidable deaths in Wales than in England.

Gan droi at anghydraddoldebau iechyd, mae llawer i'w ganmol am waith y Gweinidog o ran mwy o bwyslais a ffocws ar iechyd cyhoeddus ers dechrau'r Llywodraeth newydd. Fodd bynnag, mae gennym lawer iawn i'w wneud eto. Heddiw, cyhoeddwyd ffigurau nifer y marwolaethau y gellir eu hosgoi ar gyfer 2001-10 ac maent yn dangos bod cyfradd sylweddol uwch o farwolaethau y gellir eu hosgoi yng Nghymru o'i chymharu â Lloegr.

Turning to the key issue of workforce development, previous contributors have already referred to Marcus Longley's report for the Welsh NHS Confederation. There were some very serious messages in that report about the recruitment and retention of staff. I would like to focus on medics. It is increasingly difficult to staff rotas and to get the right type of medics with the right qualifications to provide services in all parts of Wales. I have heard little in what the Minister has said this afternoon that shows me that the Government is addressing that. The Minister has launched her doctor recruitment drive, but we have had no indication from the Government as to how

Gan droi at fater allweddol datblygu'r gweithlu, mae cyfranwyr eisoes wedi cyfeirio at adroddiad Marcus Longley ar Gonffederasiwn GIG Cymru. Mae rhai negeseuon difrifol iawn yn yr adroddiad hwnnw am recriwtio a chadw staff. Hoffwn ganolbwyntio ar feddygon. Mae'n gynyddol anodd staffio rotas a chael y math cywir o feddygon â'r cymwysterau cywir i ddarparu gwasanaethau ym mhob rhan o Gymru. Ychydig yr wyf wedi ei glywed yn yr hyn a ddywedodd y Gweinidog y prynhawn yma sy'n dangos i mi fod y Llywodraeth yn mynd i'r afael â hynny. Mae'r Gweinidog wedi lansio ei hymgyrch recriwtio meddygon, ond nid ydym wedi cael dim arwydd gan y

many doctors it expects to be able to recruit to Wales as a result of that drive. Last December, I asked the Minister to consider setting up an internal NHS locum bank for doctors so that we could cut down on the £30 million that we spent last year on locum cover for hospital doctors. The Minister said that she would consider that. I understand that her officials have said that they would look to pilot such arrangements, and I would be grateful to hear from the Minister this afternoon whether any progress has been made in this regard. It could bring significant savings and ensure greater continuity of care for patients.

Llywodraeth ynghylch faint o feddygon y mae'n disgwyl bod modd eu recriwtio i Gymru o ganlyniad i'r ymgyrch. Fis Rhagfyr diwethaf, gofynnais i'r Gweinidog ystyried sefydlu banc locwm GIG mewnol i feddygon er mwyn lleihau'r £30 miliwn a wariwyd gennym y llynedd ar wasanaethau locwm ar gyfer meddygon ysbyty. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n ystyried hynny. Deallaf fod ei swyddogion wedi dweud y byddent yn treialu trefniadau o'r fath, a byddwn yn ddiolchgar o glywed gan y Gweinidog y prynhawn yma a wnaed unrhyw gynnydd yn hyn o beth. Gallai ddod ag arbedion sylweddol a sicrhau gwell dilyniant gofal i gleifion.

Last, but not least, I would like to discuss the financial regime. The Minister says that it is not a bail-out. I guess that it is a bit like the infamous McKinsey report that turned out not to be a report after all, but the longest PowerPoint presentation in history. However the Minister may struggle to find ways to describe what happened with the NHS finances this year, for me, it is instantly recognisable as a bail-out. However, we have to acknowledge that the LHBs have made huge strides. The £12 million that the Government made available is, in terms of the overall NHS spend, indeed small. My question to her and to the First Minister, which has not been answered so far, is: how much of the savings made by local health boards this year are recurrent savings, and how many of those savings were achieved by one-off emergency interventions? The answer to that will really show us the true state of NHS finances.

Yn olaf, ond cyn bwysiced, hoffwn drafod y drefn ariannol. Nid mater o achub croen y GIG ydyw, medd y Gweinidog. Mae'n debyg ei fod ychydig yn debyg i adroddiad enwog McKinsey, nad oedd yn adroddiad wedi'r cyfan, ond cyflwyniad PowerPoint hwyaf y byd. Er bod y Gweinidog o bosibl yn ei chael yn anodd dod o hyd i ffyrdd o ddisgrifio'r hyn a ddigwyddodd i gyllid y GIG eleni, i mi, gellir ei ddisgrifio'n hawdd fel mater o achub ei groen. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni gydnabod bod y byrddau iechyd lleol wedi cymryd camau breision. Mae'r £12 miliwn a ddarparwyd gan y Llywodraeth, o safbwynt gwariant cyffredinol y GIG, yn wir, yn fach. Fy nghwestiwn iddi hi ac i'r Prif Weinidog, nad yw wedi ei ateb hyd yma, yw: faint o'r arbedion a wnaed gan fyrddau iechyd lleol eleni sy'n arbedion rheolaidd, a faint o'r arbedion hynny a gafwyd o ganlyniad i ymyriadau brys unwaith ac am byth? Bydd yr ateb i hynny'n dangos gwir gyflwr ariannol y GIG.

**Lynne Neagle:** I am pleased that we are having this debate today, because despite the bluster and faux outrage we heard from them in the Chamber last Wednesday, the uncomfortable truth for the Welsh Conservatives is that they do not want to have the responsible and hard-headed conversation about the future of the NHS that the Longley report shows that we so urgently need, because to do so would expose the fundamental flaw at the heart of their party's policy on health. They say that they want a world-class NHS that is built around people not institutions, a service that is outcome-

**Lynne Neagle:** Rwy'n falch ein bod ni'n cael y ddadl hon heddiw, oherwydd er gwaethaf y stŵr a'r ffug ddicter a glywsom ganddynt yn y Siambr ddydd Mercher diwethaf, y gwir anghyfforddus i'r Ceidwadwyr Cymreig yw nad ydynt eisiau'r drafodaeth gyfrifol ac ymarferol am ddyfodol y GIG y mae adroddiad Longley yn dangos bod arnom ei hangen ar gymaint o frys, oherwydd byddai gwneud hynny'n dangos y diffyg sylfaenol wrth wraidd polisi eu plaid ar iechyd. Maent yn dweud eu bod eisiau GIG o'r radd flaenaf sydd wedi'i strwythuro o amgylch pobl nid sefydliadau, gwasanaeth sy'n cael ei ysgogi

driven and more community-based, in which there is ever more and better integration between the NHS, social services, local government and other key agencies. They claim to have reformist instincts and a progressive agenda on health, that they want the best possible major trauma services, the best emergency care, the best stroke care and world-class maternity and paediatric services, yet they seek to ignore an independent expert report that says that making progress towards those vital aims must necessarily involve significant change.

gan ganlyniadau ac sy’n fwy seiliedig ar y gymuned, lle y mae gwell integreiddio fwyfwy rhwng y GIG, gwasanaethau cymdeithasol, llywodraeth leol ac asiantaethau allweddol eraill. Maent yn honni bod ganddynt reddf i ddiwygio ac agenda flaengar ar iechyd, eu bod am gael y gwasanaethau trawma mawr gorau posibl, y gofal brys gorau, y gofal strôc gorau a gwasanaethau mamolaeth a pediatrig o’r radd flaenaf, ac eto maent yn ceisio anwybyddu adroddiad arbenigol annibynnol sy’n dweud bod gwneud cynnydd tuag at yr amcanion hynny yn golygu bod rhaid gwneud newidiadau sylweddol.

**Janet Finch-Saunders:** Will you take an intervention?

**Janet Finch-Saunders:** A wnewch dderbyn ymyriad?

**Lynne Neagle:** Not at the moment. Rather than acting like a responsible opposition by engaging constructively in this vital debate, they are joining the nationalists in resorting to scaremongering about the NHS, despite the fact that it is a tactic that has done nothing to deliver electoral success for Plaid in recent times.

**Lynne Neagle:** Na wnaf ar hyn o bryd. Yn hytrach nag ymddwyn fel gwrthblaid gyfrifol drwy gymryd rhan adeiladol yn y ddadl hanfodol hon, maent yn ymuno â’r cenedlaetholwyr gan droi at godi bwganod am y GIG, er gwaetha’r ffaith nad yw hynny’n dacteg sydd wedi gwneud dim i roi llwyddiant etholiadol i Blaid Cymru yn ddiweddar.

**Antoinette Sandbach:** I remember the reorganisation by Labour of community hospitals in north Wales. This was Labour Government policy, and Labour AMs were campaigning locally; I see Sandy Mewies sitting there. That policy, you claimed, was to create exactly to create the kind of service that you have discussed.

**Antoinette Sandbach:** Rwy’n cofio Llafur yn ad-drefnu ysbytai cymuned yn y gogledd. Roedd hyn yn bolisi gan y Llywodraeth Lafur, ac roedd Aelodau Cynulliad Llafur yn ymgyrchu’n lleol; rwy’n gweld Sandy Mewies yn eistedd acw. Roeddech chi’n honni mai diben y polisi hwnnw oedd creu’r union fath o wasanaeth yr ydych wedi ei drafod.

**Lynne Neagle:** That intervention has not really taken us any further forward, has it? It is the kind of cheap and grubby politics that invents hospital downgrades that do not exist that deliberately frightens people into thinking that their hospital is closing and that pretends that we can have a first-class NHS built around structures, institutions and methods of service delivery that have changed little in 50 years. I think that it is time to accept that you simply cannot have it both ways. Without offering any kind of viable alternative, you cannot continue to say that you want to see the best possible outcomes for patients. As the Longley report makes crystal clear, the status quo is simply

**Lynne Neagle:** Nid yw’r ymyriad hwnnw wedi ein symud ymlaen ymhellach, nac ydyw? Dyma’r math o wleidyddiaeth wamal a budr sy’n dyfeisio prosesau israddio ysbytai nad ydynt yn bodoli, sy’n fwriadol yn dychryn pobl nes peri iddynt feddwl bod eu hysbyty yn cau ac sy’n esgus y gallwn gael GIG o’r radd flaenaf wedi ei lunio ar sail strwythurau, sefydliadau a dulliau o ddarparu gwasanaethau nad ydynt wedi newid fawr ddim mewn 50 mlynedd. Credaf ei bod yn bryd derbyn na allwch ei chael hi bob ffordd. Heb gynnig dim math o ddewis amgen ymarferol, ni allwch barhau i ddweud eich bod eisiau gweld y canlyniadau gorau posibl i gleifion. Fel y nododd adroddiad Longley yn

not an option.

gwbl glir, nid yw'r sefyllfa fel ag y mae yn opsiwn.

While the economic situation that we face makes the argument for change more urgent, however much the Tories would love to turn this into an argument about spending cuts, this is not just about budgets. Governments and health services across the world are facing up to the great challenges posed by social, demographic and economic change, ageing populations, big public health challenges and the need for a fundamental rethink about the way in which we deliver social and residential care.

Er bod y sefyllfa economaidd sy'n ein hwynebu yn ddadl dros gael newid ar fwy o frys, er cymaint y byddai'r Torïaid wrth eu boddau'n troi hyn yn ddadl am y toriadau gwariant, nid yw hyn yn ymwneud â chyllidebau yn unig. Mae Llywodraethau a gwasanaethau iechyd ledled y byd yn wynebu heriau mawr yn sgîl newid cymdeithasol, demograffig ac economaidd, poblogaethau sy'n heneiddio, heriau mawr o ran iechyd cyhoeddus a'r angen i ailfeddwl yn sylfaenol am y ffordd yr ydym yn darparu gofal cymdeithasol a gofal preswyl.

Before the Welsh Conservative Members get up and trot out their predictable lines about Labour cutting the health budget in Wales, it is worth reminding ourselves once again why we have to take such tough decisions on health spending. Any spending cuts in Wales are your cuts, not ours. They are Tory cuts, not Labour cuts, and if you have a problem with that I suggest you pick up the phone to talk to George Osborne and Nick Clegg and complain to them, because it is frankly laughable to try to lay the blame at the door of the Welsh Government.

Cyn i Aelodau'r Ceidwadwyr Cymreig godi ar eu traed a pharablu eu geiriau rhagweladwy am Lafur yn torri'r gyllideb iechyd yng Nghymru, mae'n werth atgoffa ein hunain unwaith eto pam yr ydym yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd o'r math hwn ar wariant ar iechyd. Eich toriadau chi, nid ein rhai ni, yw unrhyw doriadau gwariant yng Nghymru. Toriadau'r Torïaid ydyn nhw, nid toriadau Llafur, ac os yw hynny'n peri problem ichi, rwy'n awygrymu y dylech godi'r ffôn i siarad â George Osborne a Nick Clegg a chwyno wrthynt, oherwydd, a bod yn blaen, mae ceisio rhoi'r bai ar Lywodraeth Cymru'n chwerthinllyd.

**Antoinette Sandbach:** Will you take an intervention?

**Antoinette Sandbach:** A wnewch dderbyn ymyriad?

**Lynne Neagle:** No, because I will run out of time if I do.

**Lynne Neagle:** Na wnaf, oherwydd ni fydd gennyf amser os gwnaf hynny.

The Welsh Government is doing its best to manage the impossible hand that we have been dealt by Westminster, but I suppose that I should not be surprised at anything from the Tories when it comes to the NHS. Last week, taking their lead again from Plaid Cymru, we saw a number of Welsh Conservatives attempt to misrepresent my position in relation to the minor injuries unit at County Hospital in Panteg, as if they had somehow uncovered evidence of me saying one thing nationally and another thing locally. I was a bit surprised that they were paying such close interest, given that neither of the regional Conservative Members saw fit to attend the packed public meeting that I chaired on the

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gorau i reoli'r sefyllfa amhosibl a roddwyd inni gan San Steffan, ond mae'n debyg na ddylwn synnu at unrhyw beth gan y Torïaid o ran y GIG. Yr wythnos diwethaf, gan ddilyn Plaid Cymru unwaith eto, gwelsom nifer o Geidwadwyr Cymreig yn ceisio camliwio fy safbwynt yng nghyswllt yr uned mân anafiadau yn Ysbyty Sir Panteg, fel pe baent wedi darganfod tystiolaeth fy mod wedi dweud un peth yn genedlaethol a rhywbeth arall yn lleol. Roeddwn yn synnu braidd fod ganddynt gymaint o ddiddordeb, o ystyried nad oedd dim un o Aelodau rhanbarthol y Ceidwadwyr yn ystyried y byddai'n addas iddynt fod yn bresennol yn y cyfarfod

issue, a meeting that was well-publicised in advance in the local press. Had they been there, perhaps they would understand that my position has been consistent throughtout, and that I called for a halt in the closure process simply to allow time for specific concerns to be addressed by the local health board, including the ability of local GPs to fill the gap in provision left by the closure of the unit. I am not and have never been opposed to change in the NHS, be that locally or nationally, and I made that clear in my representations at the time. Indeed, there is an obvious synergy between the kind of transformation advocated in the Longley report and the Clinical Futures programme in Gwent and the specialist and critical care centre for Cwmbran that I am so passionate about.

cyhoeddus gorlawn a gadeiriais ar y mater; cafwyd cyhoeddusrwydd da o flaen llaw yn y wasg leol. Pe baent wedi bod yno, efallai y byddent yn deall bod fy safbwynt wedi bod yn gyson drwy gydol y broses, ac imi alw am ddod â'r broses o gau'r uned i ben, er mwyn rhoi amser i'r bwrdd iechyd lleol fynd i'r afael â phryderon penodol, gan gynnwys gallu meddygon teulu lleol i lenwi'r bwlch yn y ddarpariaeth o ganlyniad i gau'r uned. Nid wyf erioed wedi gwrthwynebu newid yn y GIG, boed hynny'n lleol neu'n genedlaethol, ac eglurais hynny'n glir yn fy sylwadau ar y pryd. Yn wir, mae synergedd amlwg rhwng y math o drawsnewid a argymhellir yn adroddiad Longley a'r rhaglen Dyfodol Clinigol yng Ngwent ac yng nghanolfan arbenigol a gofal critigol Cwmbrân, yr wyf mor angerddol yn ei chylch.

I will always stand up for the people of Torfaen when I feel that questions about their health service have not been addressed, but I also recognise the need for radical change on a national level. I am impatient to see those outcomes improved, the gap with England narrowed and the end to a system whereby you are more likely to die in hospital if you are admitted on the weekend than on a weekday.

Byddaf bob amser yn cadw cefn pobl Torfaen pan fyddaf yn teimlo nad yw cwestiynau am eu gwasanaeth iechyd wedi cael sylw, ond rwy'n cydnabod yr angen am newid radical ar lefel genedlaethol hefyd. Rwy'n awyddus i weld y canlyniadau hynny'n gwella, y bwlch â Lloegr yn culhau a diwedd i'r system lle yr ydych yn fwy tebygol o farw yn yr ysbyty os ydych yn mynd yno fel claf ar benwythnos yn hytrach nag yn ystod yr wythnos.

The Longley report and 'Together for Health' show that achieving all those things is within our reach—

Mae adroddiad Longley a 'Law yn Llaw at Iechyd' yn dangos bod yr holl bethau hynny o fewn ein cyrraedd—

**Angela Burns:** Order. You need to bring your remarks to a close. I have given you extra time for an intervention.

**Angela Burns:** Trefn. Mae angen ichi ddod â'ch sylwadau i ben. Rwyf wedi rhoi amser ychwanegol ichi ar gyfer ymyriad.

**Lynne Neagle:** They set out a clear path for us to follow. If the other parties are serious about their commitment to the NHS, it is time they stopped hiding behind downgrades that do not exist and the politics of fear—

**Lynne Neagle:** Maent yn cyfleu llwybr clir i ni ei ddilyn. Os yw pleidiau eraill o ddifrif am eu hymrwymiad i'r GIG, mae'n bryd iddynt roi'r gorau i guddio y tu ôl i gynlluniau israddio nad ydynt yn bodoli a gwleidyddiaeth ar sail ofn—

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** Order. Thank you.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Trefn. Diolch.

**Lynne Neagle:** —and get on with the job of being a constructive—

**Lynne Neagle:**—a bwrw ymlaen â'r gwaith o fod yn adeiladol—

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** Order. I call Janet Finch-Saunders.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Trefn. Galwaf Janet Finch-Saunders.

**Janet Finch-Saunders:** I welcome the report from the Minister for Health and Social Services. However, I am absolutely stunned that the Member for Torfaen can launch into a five-minute tirade about the health service in England. If memory serves me, your constituency is Torfaen and the National Assembly for Wales is in Wales. I find it irregular for such an important issue for the nation of Wales as the health of the people of Wales to be addressed in the way you have done.

**Janet Finch-Saunders:** Rwy'n croesawu'r adroddiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Fodd bynnag, rwyf wedi fy syfrdanu'n llwyr y gall yr Aelod dros Dor-faen areithio'n llym am bum munud am y gwasanaeth iechyd yn Lloegr. Os cofiaf yn iawn, Tor-faen yw eich etholaeth ac mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng Nghymru. Mae'n amhriodol bod mater mor bwysig i bobl Cymru ag iechyd pobl Cymru wedi cael ei drafod yn y modd y gwnaethoch chi.

**Lynne Neagle** *rose*—

**Lynne Neagle** *a gododd*—

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** Will you take an intervention?

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** A wnewch dderbyn ymyriad?

**Janet Finch-Saunders:** No. Minister, when we first debated 'Together for Health', we on these benches asked whether the Welsh Government would review its decision to make substantial cuts to our health budget—and, with respect to the Member for Torfaen, yes, they are cuts. This is an axe that is hovering over our front-line services and affecting our potential future recruitment. We believe that, not only is the NHS in Wales not being given enough funding, but the Welsh Government is not enabling this money to be spent in the most effective way. A pertinent example of this are the latest orthopaedic surgery waiting figures, which, despite a Wales-wide £21.5 million package to eliminate long waiting times for such appointments, show that 11.9% of patients are still waiting more than 26 weeks in Wales, with 356 patients waiting more than 36 weeks in Wales.

**Janet Finch-Saunders:** Na wnaf. Weinidog, pan wnaethom ni drafod 'Law yn Llaw at Iechyd' am y tro cyntaf, gofynasom ni ar y meinciau hyn a fyddai Llywodraeth Cymru yn adolygu ei phenderfyniad i wneud toriadau sylweddol yn ein cyllideb iechyd, a, gyda phob parch i'r Aelod dros Dor-faen, mae'r rhain yn doriadau. Mae hon yn fwyell sy'n hofran dros ein gwasanaethau rheng flaen ac sy'n effeithio ar ein gweithgareddau recriwtio posibl yn y dyfodol. Rydym o'r farn, nid yn unig na roddwyd digon o arian i'r GIG yng Nghymru, ond nad yw Llywodraeth Cymru yn galluogi gwario'r arian hwn yn y modd mwyaf effeithiol. Enghraifft berthnasol o hyn yw'r ffigurau aros orthopedig diweddaraf, sydd, er gwaethaf pecyn Cymru gyfan gwerth £21.5 miliwn i ddileu amseroedd aros hir ar gyfer apwyntiadau o'r fath, yn dangos bod 11.9% o gleifion yn dal i aros mwy na 26 wythnos yng Nghymru, a 356 o gleifion yn aros mwy na 36 wythnos yng Nghymru.

'Together for Health' states that the NHS must use every penny more carefully and that this will sometimes demand significant service change. It includes plans for a reduction in the number of hospital sites providing 24/7 consultant-led accident and emergency services, something that has seen immense cross-party opposition and caused immense general concern among our residents in Wales. Furthermore, the Minister for health has now confirmed that she expects the consequences of meeting the Welsh

Mae 'Law yn Llaw at Iechyd' yn nodi bod rhaid i'r GIG ddefnyddio pob ceiniog yn fwy gofalus ac y bydd hyn weithiau'n mynnu newid sylweddol yn y gwasanaeth. Mae'n cynnwys cynlluniau i ostwng nifer y safleoedd ysbyty sy'n darparu gwasanaethau damweiniau ac achosion brys o dan arweiniad meddyg ymgynghorol 24/7, sy'n syniad y cafwyd gwrthwynebiad trawsbleidiol aruthrol iddo ac a achosodd bryder cyffredinol ymhlith ein trigolion yng Nghymru. Ar ben hynny, mae'r Gweinidog

Institute for Health and Social Care's 'The Case for Change' to include reducing admissions to and reliance on hospital beds. Figures this week show that more than 30 operations a day were cancelled in Wales from 2009 to 2011, many due to bed shortages, the very beds that are now being cut, yes cut, in Wales.

iechyd erbyn hyn wedi cadarnhau ei bod yn disgwyl y bydd canlyniadau bodloni dogfen Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, 'The Case for Change', yn cynnwys lleihau derbyniadau i welyau mewn ysbytai a'r ddibyniaeth arnynt. Mae ffigurau'r wythnos hon yn dangos i fwy na 30 o driniaethau bob dydd gael eu canslo yng Nghymru rhwng 2009 a 2011, a llawer oherwydd prinder gwelyau, yr union welyau sy'n awr yn cael eu tynnu, ie, eu tynnu o ysbytai yng Nghymru.

The strains on our front-line services and resources must be addressed—over six months, certainly. 'Together for Health' mentioned the need for sustainable staffing, and yet we have seen this week that north Wales has a terrible shortage of doctors. Betsi Cadwaladr University Local Health Board has a medical vacancy rate of 9.2%. In an effort to ameliorate the effects of this on patients, more than £13.3 million a year is spent on locum and agency staff. Dr Stefan Coghlan, the BMA Welsh Council chairman has said that this is unsustainable and that changes must be made. 'The Case for Change' mentions recruitment difficulties experienced by six out of seven health boards in paediatrics and emergency medicine. Furthermore, the General Medical Council has assessed paediatric training rotations in Wales as being in the lowest quartile in the UK for training satisfaction. Despite the launch of a doctor recruitment campaign in January, the latest Cabinet paper admits that it is unlikely that a sufficient number of doctors could be recruited.

Rhaid mynd i'r afael â'r straen ar ein gwasanaethau a'n hadnoddau rheng flaen—dros chwe mis, yn sicr. Mae 'Law yn Llaw at Iechyd' yn crybwyll yr angen am staffio cynaliadwy, ac eto rydym wedi gweld yr wythnos hon fod prinder ofnadwy o feddygon yn y gogledd. Mae gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr gyfradd swyddi gwag meddygol o 9.2%. Mewn ymdrech i liniaru effeithiau hyn ar gleifion, mae mwy na £13.3 miliwn yn cael ei wario ar wasanaeth locwm a staff asiantaeth. Dywedodd Dr Stefan Coghlan, cadeirydd Cyngor BMA Cymru, fod hyn yn anghynaliadwy a bod rhaid gweld newidiadau. Mae 'The Case for Change' yn crybwyll yr anawsterau recriwtio ym maes meddygaeth bediatrig ac achosion brys sydd gan chwech o'r saith bwrdd iechyd. Ar ben hynny, mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol wedi asesu cylchdroadau hyfforddiant pediatrig yng Nghymru gan gasglu eu bod yn y chwartel isaf yn y DU o ran boddhad ynghylch hyfforddiant. Er gwaethaf lansio ymgyrch recriwtio meddygon ym mis Ionawr, mae papurau diweddaraf y Cabinet yn cyfaddef ei bod yn annhebygol y gallai nifer digonol o feddygon gael eu recriwtio.

Minister, I hope that you have taken very seriously the comments made today by Tina Donnelly, the director of the Royal College of Nursing in Wales, who today called for more, not fewer community nurses, contradicting the Welsh Government's own proposals to reduce local services.

Weinidog, rwy'n gobeithio eich bod wedi ystyried o ddifrif y sylwadau a wnaed heddiw gan Tina Donnelly, cyfarwyddwr Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, sydd heddiw yn galw am ragor o nyrsys cymunedol, nid llai ohonynt, gan wrth-ddweud cynigion Llywodraeth Cymru ei hun ynghylch lleihau gwasanaethau lleol.

3.30 p.m.

Community care must be centred on an ethos

Rhaid i ethos o weithredu er y budd gorau i'r

of acting in the best interests of the patient, including hospital treatment, where needed. When I have raised this in a speech before, you have agreed with me that there are times when there is no other option than treatment in a hospital in Wales. So as to ensure that vulnerable patients do not suffer as a result of the shift from hospital and community care to social care, it is these kinds of issues that need real patient input. I would welcome the opportunity for public engagement in a reassessment of our healthcare in Wales to consider more effective spending and a review of priorities to really reflect the health issues facing the people of Wales today. Such issues include sight loss, following last week's cross-party motion and full accountability from the Welsh Government—the same Welsh Government that has led since this institution began: Welsh Labour—as well as the month-on-month failing waiting times and figures, and particularly the general uncertainty and real fear among people over the future of their essential local health services in Wales.

claf fod wrth wraidd gofal cymunedol, gan gynnwys triniaeth yn yr ysbyty, lle bo angen. Pan fu imi grybwyll hyn mewn araith o'r blaen, gwnaethoch gytuno â mi fod adegau pan nad oes dewis arall ond i gael triniaeth mewn ysbyty yng Nghymru. Er mwyn sicrhau nad yw cleifion sy'n agored i niwed yn dioddef o ganlyniad i symud o'r ysbyty a gofal cymunedol i ofal cymdeithasol, ar y mathau hyn o faterion y mae angen mewnbwn gwirioneddol gan gleifion. Byddwn yn croesawu'r cyfle i sicrhau bod y cyhoedd yn cymryd rhan wrth ailasesu ein gofal iechyd yng Nghymru er mwyn ystyried dulliau mwy effeithiol o wario a chynnal adolygiad o'r blaenoriaethau i adlewyrchu'r materion iechyd sy'n wynebu pobl Cymru bellach. Mae materion o'r fath yn cynnwys colli golwg, yn dilyn y cynnig trawsbleidiol yr wythnos diwethaf ac atebolrwydd llawn gan Lywodraeth Cymru—sef yr un Llywodraeth sydd wedi arwain yng Nghymru ers i'r sefydliad hwn ddechrau: Llafur Cymru—yn ogystal â'r amseroedd aros a'r ffigurau aros sy'n methu fis ar ôl mis, ac yn enwedig yr ansicrwydd cyffredinol a'r ofn gwirioneddol ymysg pobl ynghylch dyfodol eu gwasanaethau iechyd lleol hanfodol yng Nghymru.

**Jenny Rathbone:** Many Members were at the breakfast meeting last week at which Professor Longley's reports were launched. We have all seen the evidence; it is just that some of us do not seem able to imbibe it. No change is not an option, and I congratulate the Minister on constantly reiterating the need for change, on sticking to her guns, and on understanding the extent of the challenge ahead of us. It is fatuous for Elin Jones to say that these proposals were not in the manifesto. This report was published only last week, so how could it have been in our manifesto 18 months ago? William Graham talked about cancelled operations, but that is precisely because the services that we have are simply not set up to meet the needs of our population. We all have a duty to ensure that the money that we spend on the Welsh NHS is well spent. Thank goodness that we are in the unified national Welsh NHS rather than the fragmented English NHS, which faces many of the same challenges but does not have the unification or the extent of collaboration that we have here in Wales.

**Jenny Rathbone:** Roedd nifer o Aelodau yn y cyfarfod brecwast yr wythnos diwethaf pan lansiwyd adroddiadau'r Athro Longley. Rydym i gyd wedi gweld y dystiolaeth; y broblem yw nad yw rhai ohonom yn gallu ei chofleidio. Nid yw peidio â newid yn opsiwn, ac rwy'n llongyfarch y Gweinidog am ailadrodd yn gyson fod angen newid, am ddal ei thir, ac am ddeall graddau'r her sydd o'n blaenau. Ynfydrwydd yw dweud, fel y gwnaeth Elin Jones, nad oedd y cynigion hyn yn y maniffesto. Dim ond yr wythnos diwethaf y cyhoeddwyd yr adroddiad hwn, felly sut y gallai fod wedi bod yn ein maniffesto 18 mis yn ôl? Siaradodd William Graham am lawdriniaethau wedi'u canslo, ond mae hynny'n ymwneud yn union â'r ffaith nad yw'r gwasanaethau sydd gennym wedi'u sefydlu i ddiwallu anghenion ein poblogaeth. Mae gennym oll ddyletswydd i sicrhau bod yr arian yr ydym yn ei wario ar GIG Cymru yn cael ei wario'n dda. Diolch byth ein bod yn GIG unedig cenedlaethol Cymru yn hytrach na GIG tameidiog Lloegr, sy'n wynebu nifer o'r un heriau ond nad yw

wedi'i uno fel yn achos GIG Cymru, a lle nad oes cymaint o gydweithio.

To answer Kirsty's point, the extent of the collaboration between these health boards is clear, in that they commissioned this report to enable members of the public to understand the extent of the challenge facing us.

I ateb pwynt Kirsty, mae graddau'r cydweithio rhwng y byrddau iechyd yn glir, gan eu bod wedi comisiynu'r adroddiad hwn i alluogi aelodau'r cyhoedd i ddeall maint yr her sy'n ein hwynebu.

**Antoinette Sandbach** *rose—*

**Antoinette Sandbach** *a gododd—*

**Jenny Rathbone:** I am not giving way at the moment, thank you. This is not about cutting or downgrading services; it is about doing things differently. If AMs continue to argue that the world will come to an end if their local hospital does things differently, they will continue to cheat their patient of the world-class service that they deserve. Let me tell you how with an example from north Wales. Five years ago, north Wales centralised its specialised stomach operations from four district hospitals into one. The result has improved survival rates and re-operation rates so that they are now better than the UK average. That is a clear example of complicated operations needing to be done with a level of critical mass to ensure the best outcome from these life-threatening operations.

**Jenny Rathbone:** Ni fyddaf yn ildio ar hyn o bryd, diolch. Nid yw hyn yn ymwneud â thorri neu israddio gwasanaethau; mae'n ymwneud â gwneud pethau'n wahanol. Os bydd Aelodau'r Cynulliad yn parhau i ddadlau y bydd y byd yn dod i ben os yw eu hysbyty lleol yn gwneud pethau'n wahanol, byddant yn parhau i amddifadu eu cleifion o'r gwasanaeth y maent yn ei haeddu, sef gwasanaeth sydd ymhlith y gorau yn y byd. Gadewch imi ddweud wrthych pam mae hynny'n wir, gan ddefnyddio enghraifft o ogledd Cymru. Bum mlynedd yn ôl, bu i ogledd Cymru ganoli ei llawdriniaethau stumog arbenigol o bedwar ysbyty dosbarth i un. Mae'r canlyniad wedi gwella cyfraddau goroesi a chyfraddau o ran cael ail-lawdriniaeth gan beri iddynt ragori ar gyfartaledd y DU erbyn hyn. Mae hynny'n enghraifft glir o'r ffaith bod angen sicrhau bod lefel o fàs critigol ynghlwm wrth lawdriniaethau cymhleth i sicrhau y ceir y canlyniad gorau o'r llawdriniaethau hyn lle y mae bygythiad i fywyd.

**Antoinette Sandbach** *rose*—

**Antoinette Sandbach** *a gododd*—

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** Order. Will you be taking any interventions?

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Trefn. A fyddwch yn derbyn unrhyw ymyriadau?

**Jenny Rathbone:** Not at the moment, no. It is important to recognise that hotel accommodation is offered to the relatives of these patients so that they can be with their loved ones at this critical time.

**Jenny Rathbone:** Na, nid ar hyn o bryd. Mae'n bwysig cydnabod bod llety mewn gwesty yn cael ei gynnig i berthnasau'r cleifion hyn fel y gallant fod gyda'u hanwyliaid yn ystod y cyfnod hynod bwysig hwn.

Cancer is also an emotive issue and every single family across Wales will have their own story to tell of cancer in their family. It is a challenging thing to treat, but is there any link between increased journey times to hospital and increased mortality rates from cancer? Absolutely not. The only correlation

Mae canser hefyd yn fater emosiynol a bydd gan bob teulu ledled Cymru ei stori ei hun i'w hadrodd am ganser yn y teulu. Mae trin canser yn her, ond a oes unrhyw gysylltiad rhwng amseroedd teithio hwy i'r ysbyty a chyfraddau uwch o ran marw o ganser? Dim o gwbl. Gwelwyd yr unig gydberthynas

between journey times and mortality rates was for prostate cancer and the distance from home to the GP surgery—

rhwng amseroedd teithio a chyfraddau marwolaethau yn achos canser y brostad a’r pellter o’r cartref i’r feddygfa—

**Kirsty Williams:** I am grateful that the Member for Cardiff Central is making these points about access to cancer treatment. It must be very easy to do so when you are the Assembly Member for Cardiff Central. There are people in my constituency who have turned down their cancer treatment because, to access that treatment, they had to travel to Cheltenham. The prospect of doing that was too much for them and they turned it down. So, before you make glib statements about access to cancer treatment, I respectfully request that you learn a little bit more about Wales outside Cardiff.

**Kirsty Williams:** Rwy’n ddiolchgar bod yr Aelod dros Ganol Caerdydd yn gwneud y pwyntiau hyn ynghylch mynediad at driniaeth canser. Mae’n rhaid ei bod yn hawdd iawn gwneud hynny pan ydych yn Aelod Cynulliad dros Ganol Caerdydd. Mae pobl yn fy etholaeth i sydd wedi gwrthod eu triniaeth canser oherwydd, er mwyn cael y driniaeth honno, byddai’n rhaid iddynt deithio i Cheltenham. Roedd amgyffred gwneud hynny yn ormod iddynt, a bu iddynt wrthod y driniaeth. Felly, cyn ichi wneud datganiadau parod am fynediad at driniaeth canser, gofynnaf yn barchus ichi ddysgu ychydig yn fwy am Gymru y tu allan i Gaerdydd.

**Jenny Rathbone:** I do not know why you think that I do not know anything about Wales outside Cardiff, but we can talk about that outside this meeting. Let me tell you this: if the debate continues to be conducted in the context of the extent to which services have to be local, patients will always assume that, if they have to travel, they will not be able to use the service. If you ask the question in the right manner—that is, by asking, ‘Are you prepared to travel for a better quality service?’—in two-thirds of cases, the patients answer ‘yes’. It is being able to travel that is causing people to have much better outcomes. That is true of specialist trauma services. Only 1,000 people in Wales have that terrible disaster called upon them, but they need the very best care when that happens. It reduces mortality by 25% and the length of stay by four days. That is the sort of decision that I would expect us to make. It would not matter whether the service was in Brecon, Cardiff or Wrexham, to be frank. Therefore, I would like us to have a clear commitment to changing the service before it collapses underneath us.

**Jenny Rathbone:** Nid wyf yn gwybod pam y credwch nad wyf yn gwybod dim am Gymru y tu allan i Gaerdydd, ond gallwn siarad am hynny y tu allan i’r cyfarfod. Gadewch imi ddweud hyn wrthych: os bydd y ddadl yn parhau i gael ei chynnal yng nghyd-destun y graddau y mae’n rhaid i wasanaethau fod yn lleol, bydd cleifion bob amser yn cymryd yn ganiataol, os oes yn rhaid iddynt deithio, na fyddant yn gallu defnyddio’r gwasanaeth. Os gofynnwch y cwestiwn yn y modd cywir—hynny yw, drwy ofyn, ‘A ydych yn barod i deithio i gael gwasanaeth o ansawdd gwell?’—mewn dwy ran o dair o achosion, mae’r cleifion yn ateb ‘ydw’. Y gallu i deithio sy’n achosi i bobl gael canlyniadau llawer gwell. Mae hynny’n wir am wasanaethau trawma arbenigol. Dim ond 1,000 o bobl yng Nghymru sy’n profi’r trychineb ofnadwy hwn, ond mae angen y gofal gorau posibl arnynt pan fydd hynny’n digwydd. Mae’n lleihau lefelau marwolaethau 25%, ac yn torri pedwar diwrnod oddi ar hyd yr arhosiad. Dyna’r math o benderfyniad y byddwn yn disgwyl inni ei wneud. Ni fyddai ots pa un a fyddai’r gwasanaeth yn Aberhonddu, yng Nghaerdydd ynteu yn Wrecsam, a dweud y gwir. Felly, hoffwn inni gael ymrwymiad clir i newid y gwasanaeth cyn iddo chwalu o’n cwmpas.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** Order. You need to bring your comments to a close.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Trefn. Mae angen ichi ddod â’ch sylwadau i ben.

**Jenny Rathbone:** The way in which paediatric services are unable to fill their vacancies is an indication of how events will overtake us if we do not take these decisions.

**Jenny Rathbone:** Mae'r ffaith nad yw gwasanaethau pediatrig yn gallu llenwi eu swyddi gwag yn arwydd o'r modd y bydd digwyddiadau yn ein trechu oni wnawn y penderfyniadau hyn.

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** I thank Members for their contributions. I will discuss the amendments before I turn to the contributions. Most of the amendments that have been tabled refer to changes in hospital services, but I believe that there is a real danger in our focusing excessively on this issue. I am willing to accept the Plaid Cymru and Welsh Liberal Democrats' amendments with one caveat: the Government does not do the planning. Planning is a matter for the local statutory bodies, the LHBs, working with the community health councils and the community. I need to remain separate, as Elin Jones referred to, in case there is a local impasse, in which case I may have to decide what is in the best interests for the future. That is the formal position.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau. Byddaf yn trafod y gwelliannau cyn imi droi at y cyfraniadau. Mae'r mwyafrif o'r gwelliannau sydd wedi'u cyflwyno yn cyfeirio at newidiadau i wasanaethau ysbytai, ond rwy'n credu bod perygl gwirioneddol os ydym yn canolbwyntio'n ormodol ar y mater hwn. Rwy'n barod i dderbyn gwelliannau Plaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, gan gynnwys un cafeat: nid y Llywodraeth sy'n cynllunio. Mae cynllunio yn fater i'r cyrff statudol lleol, sef y byrddau iechyd lleol, gan weithio gyda'r cynghorau iechyd cymuned a'r gymuned. Mae angen imi aros ar wahân, fel y dywedodd Elin Jones, rhag ofn y ceir sefyllfa leol sy'n amhosibl ei datrys; mewn sefyllfa o'r fath, byddai'n rhaid imi benderfynu ar yr hyn sy'n peri'r budd gorau ar gyfer y dyfodol. Dyna'r sefyllfa ffurfiol.

**Elin Jones** *rose—*

**Elin Jones** *a gododd—*

**Lesley Griffiths:** I cannot take any interventions, sorry.

**Lesley Griffiths:** Mae'n ddrwg gennyf, ni allaf dderbyn unrhyw ymyriadau.

I have made clear to the NHS that the full details of proposals must be issued at the earliest opportunity and that the process of consultation will be initiated by October.

Rwyf wedi ei gwneud yn glir i'r GIG fod yn rhaid i fanylion llawn y cynigion gael eu cyhoeddi cyn gynted ag y bo modd, ac y bydd y broses ymgynghori wedi dechrau erbyn mis Hydref.

I cannot accept amendments 2 and 3 in the name of the Welsh Conservatives. 'Together for Health' is not a plan for service change, it does not specify service patterns, and there is no agenda—hidden or overt—to change the number of services available. It is for local determination.

Ni allaf dderbyn gwelliannau 2 a 3 yn enw'r Ceidwadwyr Cymreig. Nid yw 'Law yn Llaw at Iechyd' yn gynllun ar gyfer newid gwasanaethau, nid yw'n nodi patrymau gwasanaeth, ac nid oes agenda—boed yn un gudd neu'n un agored—i newid nifer y gwasanaethau sydd ar gael. Mae hynny i'w benderfynu'n lleol.

I will now turn to Members' contributions. In response to Elin Jones, I say that I do not think that it is anything like the UK Government's health policy and it is nothing to do with the local government elections. I

Trof yn awr at gyfraniadau Aelodau. Mewn ymateb i Elin Jones, dywedaf nad wyf yn credu ei fod yn debyg o gwbl i bolisi iechyd Llywodraeth y DU, ac nad oes a wnelo hyn ddim â'r etholiadau llywodraeth leol.

was told clearly by Members that they wanted more engagement and more consultation. We have done that and now I am accused of delay; it seems that I just cannot win. We know that there are many challenges facing the NHS and several Members referred to them. One of the main challenges is recruitment. It is a huge issue and I am told about it all the time. To return to Elin's point, local health boards are independent and, therefore, can be invited to the Health and Social Care Committee.

Dywedodd yr Aelodau wrthyf yn glir eu bod eisiau mwy o ymgysylltu a mwy o ymgynghori. Rydym wedi gwneud hynny, ac rwy'n cael fy nghyhuddo yn awr o oedi; mae'n ymddangos na allaf ennill. Gwyddom fod nifer o heriau yn wynebu'r GIG, a chyfeiriodd nifer o Aelodau atynt. Un o'r prif heriau yw recriwtio. Mae'n fater enfawr ac mae'n cael ei grybwyll wrthyf drwy'r amser. Gan ddychwelyd at bwynt Elin, mae byrddau iechyd lleol yn annibynnol ac, felly, gellir eu gwahodd i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Kirsty referred to finance. My understanding—and I cannot give you any better breakdown than this—is that, of the £290 million saved, £250 million is recurrent and £40 million is non-recurrent. I am meeting with the chairs and the chief executives tomorrow, so I will ask them again for further information about that. It was not a bail-out. The £12 million, which, as you said, represents 0.2% and very little, was a flexibility that was very much in line with the recommendation of the Public Accounts Committee that health boards make more effective use of funding across the years to improve medium and long-term financial planning. Following those three organisations having that, my officials commissioned an external financial review to give me the assurance that that limited flexibility will not adversely affect their financial plans.

Cyfeiriodd Kirsty at ariannu. Yn ôl yr hyn a ddeallaf—ac ni allaf roi dadansoddiad gwell na hyn ichi—mae £250 miliwn o'r £290 miliwn a arbedwyd yn arian rheolaidd, ac mae £40 miliwn yn arian achlysurol. Byddaf yn cyfarfod â'r cadeiryddion a'r prif weithredwyr yfory, felly byddaf yn gofyn iddynt eto am ragor o wybodaeth am hynny. Nid cymorth ariannol diamod ydoedd. Roedd y £12 miliwn, sydd, fel y dywedasoch, yn 0.2% ac yn ychydig iawn, yn fesur hyblygrwydd a oedd, i raddau helaeth, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y dylai byrddau iechyd fanteisio ar gyllid ar draws y blynyddoedd yn fwy effeithiol er mwyn gwella cynllunio ariannol yn y tymor canolig a'r tymor hir. Ar ôl i'r tri sefydliad gael hynny, comisiynodd fy swyddogion adolygiad ariannol allanol i roi'r sicrwydd imi na fydd yr hyblygrwydd cyfyngedig hwnnw yn effeithio'n andwyol ar eu cynlluniau ariannol.

Both Lynne Neagle and Jenny Rathbone referred to the status quo not being an option, and I am glad that you welcome that. I think that the Tories would like to preserve services in aspic. It cannot be done and it has to be changed.

Cyfeiriodd Lynne Neagle a Jenny Rathbone at y ffaith nad yw cadw'r sefyllfa fel y mae yn opsiwn, ac rwy'n falch eich bod yn croesawu hynny. Rwy'n meddwl y byddai'r Torïaid yn hoffi i wasanaethau fod yn hollol ddigyfnewid. Ni ellir gwneud hynny, ac mae'n rhaid ei newid.

Janet Finch-Saunders referred to medical recruitment being a real issue—

Dywedodd Janet Finch-Saunders fod recriwtio meddygol yn broblem fawr—

**Antoinette Sandbach** *rose*—

**Antoinette Sandbach** *a gododd*—

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** Order. Minister, will you take an intervention?

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Trefn. Weinidog, a wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Lesley Griffiths:** I do not have time for

**Lesley Griffiths:** Mae'n ddrwg gennyf, nid

interventions, sorry. Janet still wants nothing to change. As Lynne Neagle said, you cannot have it both ways, Janet. We must have change and we must ensure that our services are safe and sustainable.

oes gennyf amser i dderbyn ymyriadau. Mae Janet yn parhau i ddymuno i bethau beidio â chael eu newid. Fel y dywedodd Lynne Neagle, ni allwch ei chael hi bob ffordd, Janet. Rhaid inni gael newid a rhaid inni sicrhau bod ein gwasanaethau yn ddiogel ac yn gynaliadwy.

William Graham, I clearly want to involve the public much more and be much more open and transparent. That is the whole idea of 'Together for Health', of the six-monthly update reports and the compact with the public. You referred to Marcus Longley's report, as did several Members. I want the people of Wales to have the best health outcomes, and that is why reconfiguration is not about downgrading but about ensuring that we have those services for people from Wales.

William Graham, mae'n amlwg fy mod yn awyddus i gynnwys y cyhoedd i raddau llawer mwy helaeth ac yn dymuno bod yn llawer mwy agored a thryloyw. Dyna yw holl fwriad 'Law yn Llaw at Iechyd', yr adroddiadau i'r roi'r wybodaeth ddiweddaraf bob chwe mis a'r compact â'r cyhoedd. Cyfeiriasoch at adroddiad Marcus Longley, fel y gwnaeth sawl Aelod. Rwyf am i bobl Cymru gael y canlyniadau iechyd gorau, a dyna pam nad yw ail-gyflunio yn ymwneud ag israddio; yn hytrach, mae'n ymwneud â sicrhau bod gennym y gwasanaethau hynny ar gyfer pobl o Gymru.

I thank Members for the debate. I will be coming back in six months' time. It is a long journey, I know, but I will give six-monthly updates and I hope that we will see significant improvements.

Diolch i'r Aelodau am y ddadl. Byddaf yn dod yn ôl ymhen chwe mis. Mae'n daith hir, mi wn, ond byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf bob chwe mis, a gobeithio y byddwn yn gweld gwelliannau sylweddol.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there is no objection. Amendment 1 is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Y cynnig yw ein bod yn derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 1 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1.*
*Amendment 1 agreed.*

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? I see that there is an objection. In that case, I defer all further voting on this item until voting time.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Y cynnig yw ein bod yn derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, rwy'n gohirio pob pleidlais arall ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Polisi Teithio Byw Llywodraeth Cymru
## The Welsh Government's Active Travel Policy

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** The Presiding Officer has selected

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Mae'r Llywydd wedi dethol gwelliannau 1, 2 a 3 yn

amendments 1, 2 and 3 in the name of William Graham and amendments 4 and 5 in the name of Peter Black.

enw William Graham a gwelliannau 4 a 5 yn enw Peter Black.

*Cynnig NDM4982 Jane Hutt*

*Motion NDM4982 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn ystyried polisïau teithio llesol Llywodraeth Cymru, a photensial teithio llesol o ran mynd i'r afael â thlodi, gwella iechyd y cyhoedd a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.*

*Considers the Welsh Government's active travel policies and the potential of active travel to tackle poverty, improve public health and reduce greenhouse gas emissions.*

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I move the motion.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Cynigiaf y cynnig.

Last week, I published a White Paper on legislation to create better and safer routes for walking and cycling. You will have all seen a copy and will, no doubt, be considering it carefully. It is a good paper, and I believe that the active travel Bill will help to achieve a step change in significantly increasing the rates of walking and cycling in this country. However, that is not what I am going to talk about today, because the proposed Bill is just one part of what we are doing as a Government to support active travel, specifically walking and cycling. That is why I want to have a broader debate today about active travel.

Yr wythnos diwethaf, cyhoeddais Bapur Gwyn ar ddeddfwriaeth i greu llwybrau gwell a mwy diogel ar gyfer cerdded a beicio. Byddwch i gyd wedi gweld copi ohono, a byddwch, heb os, yn ei ystyried yn ofalus. Mae'n bapur da, a chredaf y bydd y Bil teithio llesol yn helpu i gyflawni newid mawr o ran cynyddu cyfraddau cerdded a beicio yn y wlad hon yn sylweddol. Fodd bynnag, nid dyna'r hyn y byddaf yn siarad amdano heddiw, oherwydd dim ond un rhan yw'r Bil arfaethedig o'r hyn yr ydym ni fel Llywodraeth yn ei wneud i gefnogi teithio llesol, gan gynnwys cerdded a beicio yn benodol. Dyna pam yr wyf yn awyddus i gael trafodaeth ehangach heddiw am deithio llesol.

Why is it important and what are we already doing to get more people out of their cars and incorporating walking and cycling into their everyday journeys? Active travel is important because of its benefits for health and wellbeing, the environment and society. Walking and cycling offer the opportunity to build moderate, pleasant exercise into people's lives, bringing immediate and longer-term benefits to physical as well as mental health, and improving quality of life.

Pam mae hynny'n bwysig a beth yr ydym eisoes yn ei wneud i gael mwy o bobl allan o'u ceir ac i ymgorffori cerdded a beicio yn eu siwrneiau bob dydd? Mae teithio llesol yn bwysig oherwydd y manteision y mae'n eu cynnig o ran iechyd a lles, yr amgylchedd a chymdeithas. Mae cerdded a beicio yn cynnig cyfle i bobl gynnwys ymarfer corff cymedrol a braf yn rhan o'u bywydau, gan greu manteision ar unwaith, ac yn y tymor hwy, o ran iechyd corfforol a meddyliol, a chan wella ansawdd bywyd.

More frequent walking and cycling do not just benefit the individual, but wider society. Walking and cycling get you out and about in the community in which you live, giving you a sense of belonging, helping you to feel a

Mae cerdded a beicio'n amlach yn peri budd nid yn unig i'r unigolyn, ond i'r gymdeithas ehangach. Mae cerdded a beicio yn mynd â chi allan yn y gymuned lle rydych yn byw, gan roi ichi ymdeimlad o berthyn, gan eich

part of the area and keeping communities strong and vibrant. I can vouch for that on the basis of my bike ride around Connah's Quay last week, which took me ages, and people were giving me a little wave as they were going by.

helpu i deimlo'n rhan o'r ardal a chan gadw cymunedau'n gryf ac yn fywiog. Gallaf dystio i hynny ar sail fy nhaith feicio o amgylch Cei Connah yr wythnos diwethaf, a gymerodd oes imi, ac roedd pobl yn codi llaw arnaf wrth iddynt fynd heibio.

Active travel has a role to play in tackling poverty. Private transport in the form of the motor car is becoming more unaffordable for many on low incomes. Active travel offers a more affordable means of travel for most people. Nearly half of the households in Wales already own a bicycle, and walking does not cost a penny if you have sensible shoes and a brolly. Making it easier for people to travel actively can help to tackle deprivation, as difficulty with access to work is a significant factor in worklessness.

Mae gan deithio llesol rôl i'w chwarae wrth fynd i'r afael â thlodi. Mae cludiant preifat ar ffurf ceir yn dod yn fwy anfforddiadwy i nifer o bobl sydd ar incwm isel. Mae teithio llesol yn cynnig dull mwy fforddiadwy o deithio i'r rhan fwyaf o bobl. Mae bron hanner y cartrefi yng Nghymru eisoes yn berchen ar feic, ac ni fydd cerdded yn costio ceiniog os oes gennych esgidiau synhwyrol ac ymbarél. Gall sicrhau ei bod yn haws i bobl deithio'n llesol helpu i fynd i'r afael ag amddifadedd, gan fod anhawster o ran mynd i weithle yn ffactor sylweddol mewn perthynas â diweithdra.

More people walking and cycling will make us all better off. Walking and cycling can contribute to the economy. They can improve accessibility to local retailers and businesses, and they have the potential to increase the attractiveness of an area as a location where people live and work. Walking and cycling give us a healthier workforce, so fewer days are lost to sickness absence. They lower congestion on our roads. They make Wales a better place in which to live and, therefore, a more attractive place to come and build a business. They can even boost our tourism economy by making Wales an even more attractive place to visit. We had a great response last week to the launch of the White Paper. We had national coverage and lots of interest in Wales, which has to be good for the economy.

Os bydd mwy o bobl yn cerdded ac yn beicio, byddem i gyd yn elwa. Gall cerdded a beicio gyfrannu at yr economi. Gallant wneud manwerthwyr a busnesau lleol yn fwy hygyrch, ac mae ganddynt y potensial i wneud ardal yn lle mwy deniadol i bobl fyw a gweithio ynddi. Mae cerdded a beicio yn rhoi gweithlu iachach inni, fel bod llai o ddiwrnodau'n cael eu colli oherwydd absenoldeb salwch. Maent yn lleihau tagfeydd ar ein ffyrdd. Maent yn gwneud Cymru yn lle gwell i fyw ac, felly, yn lle mwy deniadol i'r rheini sydd am adeiladu busnes. Gallant hyd yn oed roi hwb i'n heconomi dwristiaeth drwy wneud Cymru'n lle sydd hyd yn oed yn fwy deniadol i ymweld ag ef. Cawsom ymateb gwych yr wythnos diwethaf i lansiad y Papur Gwyn. Cawsom sylw cenedlaethol a bu llawer o ddiddordeb yng Nghymru, ac mae'n rhaid bod hynny'n beth da i'r economi.

Increasing our rates of walking and cycling also provides us with an opportunity to improve our public spaces, to build more cohesive and integrated communities, and to contribute to more positive perceptions of public safety. Sustainability is a core organising principle of the Welsh Government, and active travel is a more sustainable way of getting around than motorised travel. Active travel, in all its forms, generates fewer greenhouse gas

Mae cynyddu ein cyfraddau cerdded a beicio hefyd yn rhoi'r cyfle inni wella ein mannau cyhoeddus, i adeiladu cymunedau mwy cydlynol ac integredig, ac i gyfrannu at ganfyddiadau mwy cadarnhaol o ddiogelwch y cyhoedd. Mae cynaliadwyedd yn brif egwyddor drefniadol gan Lywodraeth Cymru, ac mae teithio llesol yn ffordd fwy cynaliadwy o deithio o gwmpas na thrafnidiaeth fodurol. Mae teithio llesol, yn ei holl ffurfiau, yn cynhyrchu llai o allyriadau

emissions and less air pollution, and both walking and cycling are far quieter than motorised transport, and so create less noise pollution.

nwyon tŷ gwydr a llai o lygredd aer, ac mae cerdded a beicio yn llawer tawelach na thrafnidiaeth fodurol, ac maent felly yn creu llai o lygredd sŵn.

3.45 p.m.

**Simon Thomas:** Will you give way?

**Simon Thomas:** A wnewch chi ildio?

**Carl Sargeant:** In a second.

**Carl Sargeant:** Gwnaf, mewn eiliad.

We have had some success in getting people to walk and cycle more, but not as much as we had hoped. We know that people want to walk and cycle more, but that they often do not, and the key factor in that is often identifying the combination of physical, informational and personal barriers.

Rydym wedi cael rhywfaint o lwyddiant o ran cael pobl i gerdded a beicio mwy, ond nid cymaint ag yr oeddem wedi gobeithio. Gwyddom fod pobl yn awyddus i gerdded a beicio mwy, ond gwyddom hefyd nad ydynt yn gwneud hynny'n aml. Yn aml, y ffactor allweddol yn hynny o beth yw canfod y cyfuniad o rwystrau, rhai corfforol, rhai personol a rhai'n ymwneud â gwybodaeth, y mae pobl yn eu hwynebu.

**Simon Thomas:** I am grateful to the Minister for giving way and for carrying on for a few moments longer, because it gave me an even stronger point on which to intervene. I very much agree with the positive benefits that come from walking and cycling that he has outlined, but many new developments, including shopping developments and work developments, do not take account of people's ability to reach them on foot, nor do they take account of people's ability to reach them easily and safely by cycling. They are often dedicated to cars, with roundabouts and ways of access that simply do not allow for walking and cycling. Is it the Government's proposal to look at this in the future, to have better and safer access?

**Simon Thomas:** Rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ildio ac am barhau i siarad am ychydig eiliadau, gan ei fod wedi rhoi pwynt sydd hyd yn oed yn gryfach imi ymyrryd yn ei gylch. Rwyf yn cytuno â'r manteision cadarnhaol sy'n deillio o gerdded a beicio, sef y manteision a amlinellwyd ganddo, ond nid yw llawer o ddatblygiadau newydd, gan gynnwys datblygiadau siopa a gwaith, yn rhoi sylw i allu pobl i gerdded iddynt, ac nid ydynt yn rhoi sylw i allu pobl i'w cyrraedd yn hawdd ac yn ddiogel ar feic ychwaith. Maent yn aml wedi'u darparu'n unswydd ar gyfer ceir, gyda chylchfannau a ffyrdd mynediad nad ydynt yn caniatáu i bobl gerdded na beicio. A yw'r Llywodraeth yn bwriadu edrych ar y mater hwn yn y dyfodol, er mwyn cael mynediad gwell a mwy diogel?

**Carl Sargeant:** The Member raises a very important point. The White Paper for the active travel Bill, which I launched last week, seeks to consult with people on the very issue that the Member raises with regard to the planning process for additionality of road networks and so on and the consideration of easy access in the mapping areas of cycleways and walkways.

**Carl Sargeant:** Mae'r Aelod yn codi pwynt pwysig iawn. Bydd y Papur Gwyn ar gyfer y Bil teithio llesol, a lansiwyd gennyf yr wythnos diwethaf, yn ceisio ymgynghori â phobl ar yr union fater a godwyd gan yr Aelod, o ran y broses gynllunio ar gyfer cael ychwanegeg o rwydweithiau ffyrdd ac yn y blaen, ac o ran ystyried cael mynediad hawdd yn yr ardaloedd sydd wedi'u mapio ar gyfer llwybrau beicio a llwybrau cerdded.

We know that there is not a culture of walking and cycling in Wales as there is in Denmark and the Netherlands. This means

Gwyddom nad oes diwylliant o gerdded a beicio yng Nghymru fel sydd yn Denmarc a'r Iseldiroedd. Golyga hyn fod gormod o bobl

that too many people jump in the car when they do not need to, because walking and cycling are not seen as the most natural and obvious ways of making a shorter journey. When it comes to changing the way people travel, we need to be thinking about the infrastructure that is needed, but we also need to think more broadly about how we encourage a change in their behaviour, which is the very point that Simon raised a couple of seconds ago.

yn neidio i'r car pan nad oes angen iddynt, gan nad yw cerdded na beicio'n cael eu gweld fel y ffyrdd mwyaf naturiol ac amlwg o wneud taith fer. O ran newid y ffordd y mae pobl yn teithio, mae angen inni feddwl am y seilwaith sydd ei angen arnom, ond mae angen inni feddwl yn ehangach hefyd am sut y byddwn yn annog pobl i newid eu hymddygiad, sef yr union bwynt a gododd Simon rai eiliadau'n ôl.

I am aware that we have not achieved as much on this agenda as we should have wished for. That is why, since I took on the portfolio, extra effort has been put into sustainable travel centres being more focused and more meaningful, with Cardiff having the largest personalised travel planning project in the UK. That is why we have made Wales a world leader in bringing forward a vital piece of legislation. I am not going to nit-pick over some of the criticisms contained in the amendments; I am prepared to accept them all on the basis that there is a genuine desire across the Chamber to make progress on this issue.

Rwyf yn ymwybodol o'r ffaith nad ydym wedi cyflawni cymaint ar yr agenda hon ag yr oeddem wedi dymuno. Dyna pam, ers imi ymgymryd â'r portffolio hwn, y gwnaed ymdrech ychwanegol i wneud canolfannau teithio cynaliadwy yn fwy pwrpasol ac yn fwy ystyrlon, ac yng Nghaerdydd y mae'r prosiect cynlluniau teithio personol mwyaf yn y DU. Dyna pam yr ydym wedi sicrhau bod Cymru yn arwain y byd wrth gyflwyno darn hanfodol o ddeddfwriaeth. Nid wyf am hollti blew ynghylch rhai o'r beirniadaethau sydd yn y gwelliannau; rwyf yn barod i'w derbyn i gyd ar y sail bod gwir awydd ar draws y Siambr i sicrhau cynnydd ar y mater hwn.

I ask Members to engage positively in the process of transforming the way Wales travels and, in doing so, to change our image from that of a country that is frequently criticised for ill-health and poor levels of physical activity to being one of the most progressive in Europe in providing facilities and encouragement for healthy, active travel.

Gofynnaf i'r Aelodau ymgysylltu'n gadarnhaol â'r broses o drawsnewid y ffordd y mae Cymru'n teithio ac, wrth wneud hynny, newid ein delwedd o fod yn wlad sy'n cael ei beirniadu'n aml oherwydd afiechyd a lefelau gwael o weithgarwch corfforol, i fod yn un o wledydd mwyaf blaengar Ewrop o ran darparu cyfleusterau ac anogaeth ar gyfer teithio iach a theithio llesol.

*Gwelliant 1 William Graham*

*Amendment 1 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi â phryder nad yw Cymru, ar hyn o bryd, ar y llwybr cywir i gyrraedd targedau allweddol a gaiff eu diffinio yng Nghynllun Gweithredu Cerdded a Beicio Llywodraeth Cymru.*

*Notes with concern that Wales is currently not on course to meet key targets defined in the Welsh Government's Walking and Cycling Action Plan.*

*Gwelliant 2 William Graham*

*Amendment 2 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi'r sylwadau a wnaeth Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd yn ei Adroddiad Blynyddol cyntaf, y bu cynnydd y Llywodraeth yn ansicr o ran annog newid ymddygiad tuag at ddewisiadau teithio doethach.*

*Notes the comments made by the Climate Change Commission for Wales in its First Annual Report that the Government has made uncertain progress in encouraging behavioural change for smarter choices of travel.*

*Gwelliant 3 William Graham*

*Amendment 3 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar effaith gronnol ei mentrau teithio llesol ar allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru.*

*Calls on the Welsh Government to publish an annual report on the cumulative impact of its active travel initiatives on greenhouse gas emissions in Wales.*

**Byron Davies:** I move amendments 1, 2 and 3 in the name of William Graham.

**Byron Davies:** Cynigiaf welliannau 1, 2 a 3 yn enw William Graham.

I welcome the opportunity to contribute to this debate. I have again read with interest the Welsh Government's active travel policies and the potential of active travel to tackle poverty, improve public health and reduce greenhouse gas emissions. We have consistently supported this and previous Welsh Governments in their ambition to increase active travel policies. In fact, a political consensus has been built around this issue over a number of years. The important thing is to provide safe areas for pedestrians, cyclists and car users. With that political consensus in mind, we also support the Liberal Democrats' amendments.

Croesawaf y cyfle i gyfrannu at y ddadl hon. Rwyf wedi darllen eto, gyda diddordeb, bolisïau Llywodraeth Cymru ar deithio llesol a'r potensial sydd gan deithio llesol i fynd i afael â thlodi, gwella iechyd y cyhoedd a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Rydym wedi cefnogi'r Llywodraeth hon a Llywodraethau blaenorol Cymru yn gyson yn eu huchelgais i ehangu eu polisïau teithio llesol. Yn wir, datblygwyd consensws gwleidyddol ynghylch y mater hwn dros nifer o flynyddoedd. Y peth pwysig yw darparu mannau diogel ar gyfer cerddwyr, beicwyr a defnyddwyr ceir. Gyda'r consensws gwleidyddol hwnnw mewn golwg, rydym hefyd yn cefnogi gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Putting the general points in our agreement aside, something that I have raised before in this Chamber is our concern about the lack of delivery and the worrying trends in some of the key targets and indicators. We, on this side of the Chamber, are concerned that many of these plans, put in place some years ago, are not on course to meet targets. I give the example of the projected increase in the number of people undertaking walking for recreation to 50% from the baseline of 40%. The most recent data show a drop to 34%. There is also the target to triple the percentage of adults whose main mode of travel to work is cycling from a baseline of 1.4%. The progress report noted that, in 2010, the figure stood at just 1.6%, which is a

Gan roi pwyntiau cyffredinol ein cytundeb o'r neilltu, un mater yr wyf wedi'i godi o'r blaen yn y Siambr hon yw ein pryder ynghylch diffyg darpariaeth ac ynghylch tueddiadau sy'n peri gofid mewn perthynas â rhai o'r targedau a dangosyddion allweddol. Rydym ni, ar yr ochr hon i'r Siambr, yn pryderu am y ffaith nad yw llawer o'r cynlluniau hyn, a gafodd eu rhoi ar waith rai blynyddoedd yn ôl, ar y trywydd iawn i fodloni'r targedau. Enghraifft o hynny yw'r cynnydd a ragwelwyd yn nifer y bobl sy'n cerdded yn eu hamser hamdden, sef cynnydd i 50% o'r llinell sylfaen o 40%. Mae'r data diweddaraf yn dangos gostyngiad i 34%. Ceir hefyd y targed i dreblu canran yr oedolion sy'n beicio fel eu prif ddull o deithio i'r

mere increase of 0.2%. This dataset is a clear demonstration that delivery is failing.

gwaith o linell sylfaen o 1.4%. Mae'r adroddiad yn nodi mai'r ffigur ar gyfer 2010 oedd 1.6% yn unig, sy'n gynnydd o 0.2% yn unig. Mae'r gyfres hon o ddata yn dangos yn glir fod y ddarpariaeth yn methu.

The political consensus around this issue is clearly not being translated into a political priority by the Government. It is for that reason that we have moved amendment 1, noting with concern the lack of action. I would be interested to hear the Minister's response to this. I will leave my colleague Russell George to expand on amendments 2 and 3 in his contribution. These are sound amendments covering an important area of this report—an area I know he cares passionately about.

Mae'n glir nad yw'r consensws gwleidyddol ynghylch y mater hwn wedi sicrhau ei fod yn flaenoriaeth wleidyddol i'r Llywodraeth. Dyna pam yr ydym wedi cynnig gwelliant 1, gan nodi gyda phryder fod diffyg gweithredu. Byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed ymateb y Gweinidog i'r mater hwn. Gadawaf i'm cyd-Aelod Russell George ymhelaethu ar welliannau 2 a 3 yn ei gyfraniad. Mae'r gwelliannau hyn yn rhai cadarn sy'n cwmpasu maes pwysig yn yr adroddiad hwn, a gwn fod ganddo angerdd am y maes hwnnw.

I want to finish by touching on the missed opportunities and the underlying issues of tackling obesity, adding value to the schemes and this Government's ambitions. Cycling, walking, running and other active travel arrangements are key elements in the fight against obesity. I know, as a cyclist myself—and I am delighted to hear that the Minister has joined our ranks—of the inherent benefits of cycling. I want to ensure that people feel safe and secure in taking up this excellent recreation, as well as it being a clear alternative to the car. I pay tribute to Sustrans for its work in projecting its vision in pushing these ideas, schemes and projects.

Rwyf am orffen drwy sôn am y cyfleoedd a gollwyd ac am faterion sylfaenol o ran mynd i'r afael â gordewdra, gan ychwanegu gwerth at y cynlluniau ac at uchelgeisiau'r Llywodraeth hon. Mae beicio, cerdded, rhedeg a threfniadau teithio llesol eraill yn elfennau allweddol o'r frwydr yn erbyn gordewdra. Fel beiciwr fy hun—ac rwyf yn falch iawn o glywed bod y Gweinidog wedi ymuno â'n rhengoedd—gwn am fanteision cynhenid beicio. Rwyf am sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel wrth ymgymryd â'r gweithgaredd hamdden ardderchog hwn, yn ogystal â sicrhau bod beicio'n ddewis pendant yn lle defnyddio'r car. Talaf deyrnged i Sustrans am y gwaith y mae'r sefydliad wedi'i wneud wrth fynegi ei weledigaeth drwy hyrwyddo'r syniadau, y cynlluniau a'r prosiectau hyn.

I want to make it clear that I am not suggesting that people walk to work every day. I am not suggesting that people must cycle every day. However, we must change habits and make cycling and walking part of the general commute. It would be a monumental success to get 50% of the population using the bike or walking to work once a week. Therefore, in closing, I want to make a final plea: tackling obesity in Wales is key and the clear consensus we have in this Chamber on issues such as this must be turned into action. Above all, it must help to change behaviour. I do not pretend that this is an easy mission and it gives me no great

Rwyf am ei gwneud yn glir nad wyf yn awgrymu bod pobl yn cerdded i'r gwaith bob dydd. Nid wyf yn awgrymu bod pobl yn gorfod beicio bob dydd. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni newid ein harferion a gwneud beicio a cherdded yn rhan o'r broses gymudo'n gyffredinol. Byddai'n llwyddiant aruthrol sicrhau bod 50% o'r boblogaeth yn defnyddio beic neu'n cerdded i'r gwaith unwaith yr wythnos. Felly, i gloi, rwyf am wneud y ple olaf hwn: mae mynd i'r afael â gordewdra yng Nghymru yn fater allweddol, ac mae'n rhaid i'r consensws clir sydd gennym yn y Siambr hon ar faterion fel hyn arwain at weithredu. Yn anad dim, rhaid iddo

pleasure to draw attention to strategies missing targets, having worrying trends or just not working. A recent report contained the alarming news that 21% of 15-year-olds in Wales are classified as obese or overweight. This is the fourth highest rate in the world. Therefore, this strategy is key to reversing this, but we really must deliver.

helpu'r broses o newid ymddygiad pobl. Nid wyf yn honni bod hon yn dasg hawdd, ac nid yw'n rhoi pleser mawr imi dynnu sylw at strategaethau sy'n methu cyrraedd eu targedau, strategaethau sy'n dangos tueddiadau gofidus neu strategaethau nad ydynt yn gweithio. Mae adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cynnwys y newyddion brawychus bod 21% o ddisgyblion 15 oed yng Nghymru yn ordew neu dros eu pwysau. Dyma'r gyfradd uchaf ond tair yn y byd. Felly, mae'r strategaeth hon yn allweddol i wyrdroi'r sefyllfa hon, ond mae'n rhaid inni ei chyflawni.

*Gwelliant 4 Peter Black*

*Amendment 4 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod llwybrau cerdded a llwybrau beicio lleol wedi'u cysylltu â'i gilydd a chanolfannau teithio eraill er mwyn creu llwybrau rhanbarthol a chenedlaethol hyfyw.*

*Calls on the Welsh Government to ensure that local pedestrian and cycle routes are linked to each other and other transport hubs to create viable regional and national routes.*

*Gwelliant 5 Peter Black*

*Amendment 5 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn credu y dylid ei gwneud yn orfodol i bob datblygiad cynllunio mawr ystyried yr angen am fynediad rhwydd i gerddwyr a beicwyr.*

*Believes all major planning developments should be required to take into account the need for easy access by pedestrians and cyclists.*

**Eluned Parrott:** I move amendments 4 and 5 in the name of Peter Black.

**Eluned Parrott:** Cynigiaf welliannau 4 a 5 yn enw Peter Black.

I broadly welcome the plans in the White Paper. However, there are a couple of specific issues that I would like to ask the Minister to consider in this and his broader strategic plans. That is what I would like to focus on today. With that in mind, I would like to thank the Minister for his support for our amendments and for the charming picture he painted of his own positive experience of cycling around his constituency. I am sure we all enjoyed that.

Rwyf yn croesawu'r cynlluniau sydd yn y Papur Gwyn. Fodd bynnag, mae ychydig o faterion penodol yr hoffwn ofyn i'r Gweinidog eu hystyried yn y cyd-destun hwn ac yng nghyd-destun ei gynlluniau strategol ehangach. Hoffwn ganolbwyntio ar hynny heddiw. Gyda hynny mewn golwg, hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am gefnogi ein gwelliannau ac am y darlun hudolus a gyfleodd o'i brofiad cadarnhaol ef o feicio o amgylch ei etholaeth. Rwyf yn sicr bod pob un ohonom wedi mwynhau'r darlun hwnnw.

Obviously, infrastructure is essential to promoting cycling and walking in Wales, but it is not only about creating the infrastructure

Yn amlwg, mae seilwaith yn hanfodol i'r gwaith o hyrwyddo beicio a cherdded yng Nghymru, ond nid yw hwn yn fater o greu

itself. It is about ensuring that this infrastructure interacts effectively with other modes of transport and gives us a system that is truly integrated. A coherent network of cycle paths needs to be regional or national in focus rather than local in nature. With commuting increasingly taking place across county boundaries, local authorities will need to ensure that networks do not stop at the county line.

seilwaith yn unig. Mae hefyd yn ymwneud â sicrhau bod y seilwaith hwn yn rhyngweithio'n effeithiol â dulliau eraill o drafnidiaeth ac yn rhoi system wirioneddol integredig inni. Mae angen i rwydwaith cydlynol o lwybrau beicio fod yn rhanbarthol neu'n genedlaethol ei natur, yn hytrach na lleol. Gan fod pobl yn cymudo'n gynyddol ar draws ffiniau sirol, bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau nad yw'r rhwydweithiau'n dod i ben ar y ffiniau sirol hyn.

Likewise, the regulation relating to cycling and walking lanes needs to be updated to ensure that we can take advantage of new developments and make them central to our planning processes. I welcome the fact that the Bill will place a duty on local authorities to consider cycling and walking improvements when they approve new roads. However, I believe that this needs to go further. As Simon Thomas pointed out, all major planning developments should be required to take into account the need for easy access by pedestrians and cyclists, perhaps by preparing active travel plans as part of the planning process. This should include things such as ensuring safe access in the first place, along with safe cycle storage, which will make cycling a much more attractive option for people. Making these aspects central to major developments, such as office blocks, shopping centres and housing developments, will begin to ingrain a culture of cycling and walking in our planning system.

Yn yr un modd, mae angen i'r rheoliadau sy'n ymwneud â llwybrau beicio a cherdded gael eu diweddaru i sicrhau y gallwn fanteisio ar ddatblygiadau newydd a'u gwneud yn ganolog i'n prosesau cynllunio. Croesawaf y ffaith y bydd y Bil yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried gwelliannau cerdded a beicio pan fyddant yn cymeradwyo ffyrdd newydd. Fodd bynnag, credaf fod angen mynd ymhellach. Fel y nododd Simon Thomas, dylai fod gofyn i bob datblygiad cynllunio mawr roi sylw i'r angen am fynediad hawdd i gerddwyr a beicwyr, efallai drwy baratoi cynlluniau teithio llesol fel rhan o'r broses gynllunio. Dylai'r broses hon gynnwys pethau fel sicrhau mynediad diogel yn y man cyntaf, ynghyd â storio beiciau'n ddiogel, a fydd yn gwneud beicio'n ddewis llawer mwy deniadol i bobl. Byddai gwneud y camau hyn yn elfennau canolog o ddatblygiadau mawr, fel blociau swyddfeydd, canolfannau siopa a datblygiadau tai, yn dechrau'r broses o sicrhau bod diwylliant o feicio a cherdded yn ymwreiddio yn ein system gynllunio.

I live on a modern estate with several cycle tracks. I can cycle to my heart's content within my estate, but I cannot cycle to anywhere. The track ends at a dangerous country road. All over Wales there are islands of isolated cycle tracks that do not link together effectively. They tick boxes but they do not make a valuable contribution to the local transport infrastructure. Therefore, I would encourage the Minister to make this case very strongly in his policy documents, and look at ways in which he can ensure that the new cycle and pedestrian routes work with other forms of transport to create truly viable and attractive alternatives to the car.

Rwyf yn byw ar ystâd fodern gyda nifer o lwybrau beicio. Gallaf feicio faint a fynnaf o fewn fy ystâd, ond ni allaf feicio i unman. Mae'r llwybr yn dod i ben ar ffordd wledig beryglus. Ledled Cymru, mae ynysoedd o lwybrau beiciau ynysig nad ydynt yn cysylltu â'i gilydd yn effeithiol. Maent yn ticio blychau ond nid ydynt yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r seilwaith trafnidiaeth lleol. Felly, byddwn yn annog y Gweinidog i gyflwyno'r achos hwn yn gryf iawn yn ei ddogfennau polisi, ac i edrych ar ffyrdd o sicrhau bod y llwybrau beicio a cherdded newydd yn asio â mathau eraill o gludiant i greu dewisiadau gwirioneddol hyfyw a deniadol yn lle'r car.

I am glad that the Government is planning to re-issue advice on urban design for cyclists and walkers. A central part of this must include advice for planners on providing, as I said, safe cycle storage, to ensure that people feel confident that they can leave their bikes for a reasonable period of time to go to work, to go shopping or take the children to school. They need that sense of confidence to be able to do this.

Rwyf yn falch bod y Llywodraeth yn bwriadu ailgyhoeddi cyngor ar gynllunio trefol ar gyfer beicwyr a cherddwyr. Mae'r rhaid i ran ganolog o'r broses hon gynnwys cyngor i gynllunwyr ar ddarparu—fel y dywedais—adnoddau ar gyfer storio beiciau'n ddiogel, er mwyn sicrhau bod pobl yn teimlo'n hyderus eu bod yn gallu gadael eu beiciau am gyfnod rhesymol o amser i fynd i'r gwaith, i fynd i siopa neu i fynd â'r plant i'r ysgol. Mae angen yr ymdeimlad hwnnw o hyder arnynt i allu gwneud hynny.

Although the duty on local authorities is welcome, it needs to be backed up by resources to develop the schemes. A worrying aspect of the legislation is a lack of identified resource. Cities such as Copenhagen have managed to develop a strong cycling ethos over a long period because political leadership and resources were provided during that time. Obviously, the Government is hoping that the active travel Bill will provide the leadership necessary for local authorities to pursue this, but we need to think carefully about how we find appropriate funding, or local authorities will have little ability to do anything radical or significant in that regard.

Er bod y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i'w chroesawu, mae angen cefnogi'r ddyletswydd hon ag adnoddau i ddatblygu'r cynlluniau. Un agwedd ar y ddeddfwriaeth sy'n peri pryder yw'r diffyg adnoddau a nodwyd. Mae dinasoedd fel Copenhagen wedi llwyddo i ddatblygu ethos beicio cryf dros gyfnod hir oherwydd bod arweiniad gwleidyddol ac adnoddau wedi'u rhoi yn ystod y cyfnod hwnnw. Yn amlwg, mae'r Llywodraeth yn gobeithio y bydd y Bil teithio llesol yn rhoi'r arweiniad sydd ei angen ar awdurdodau lleol i ddilyn y trywydd hwn, ond mae angen inni feddwl yn ofalus am sut y byddwn yn dod o hyd i gyllid priodol, neu ni fydd gan awdurdodau lleol fawr o allu i wneud dim byd radical na sylweddol yn hynny o beth.

I urge the Government to lay out clearly what central funding might be available and what other funding routes might be viable in these kinds of projects, rather than simply legislating for local authorities. I am pleased that the Government's consultation aims for monitoring to focus on how many additional people cycle or walk to work or school, rather than how many additional infrastructure upgrades can be developed. We are looking at an outcomes model, rather than an outputs model, which is to be welcomed. That approach will ensure that changes to other factors that affect cycling and walking can be taken into account as well, because it is not just the interventions—they do not exist in a vacuum, they exist in the midst of a complicated set of other things. I note that the Government has avoided setting a concrete target in relation to this point. While that is acceptable, perhaps, during the consultation period, the Government will need to set a firm target to allow it to assess the success of

Rwyf yn annog y Llywodraeth i ddatgan yn glir pa gyllid canolog a allai fod ar gael a pha ffynonellau cyllid eraill a allai fod yn hyfyw mewn perthynas â'r math hwn o brosiect, yn hytrach na deddfu ar gyfer awdurdodau lleol yn unig. Rwyf yn falch bod ymgynghoriad y Llywodraeth am i'r broses fonitro i ganolbwyntio ar faint o bobl ychwanegol sy'n beicio neu'n cerdded i'r gwaith neu'r ysgol, yn hytrach na faint o brosiectau ychwanegol i uwchraddio'r seilwaith y gellir eu datblygu. Rydym yn edrych ar fodel canlyniadau yn hytrach na model allbynnau, sydd i'w groesawu. Bydd y dull hwnnw'n sicrhau y gellir ystyried newidiadau mewn ffactorau eraill sy'n effeithio ar feicio a cherdded, oherwydd nad mater o ymyriadau yn unig yw hyn—nid ydynt yn bodoli mewn gwagle; maent yn bodoli o fewn set gymhleth o bethau eraill. Sylwaf fod y Llywodraeth wedi osgoi gosod targed pendant mewn perthynas â'r pwynt hwn. Er bod hynny'n dderbyniol, yn ystod y cyfnod ymgynghori,

its own work and that of local authorities in this area.

mae'n bosibl y bydd angen i'r Llywodraeth bennu targed pendant er mwyn iddi allu asesu llwyddiant ei gwaith ei hun a gwaith awdurdodau lleol yn y maes hwn.

**Jenny Rathbone:** I was delighted to read the White Paper, which was published last week by the Minister, because the walking and cycling action plan launched in 2009 has not led to the step change that we require. There seems to be widespread consensus on the step change that is needed, which is a delight to hear. Unfortunately, in my own constituency of Cardiff Central, the problem of pollution from car traffic is getting a lot worse. That is demonstrated by the nitrogen dioxide levels on Newport Road. Therefore, despite the emphasis in the Minister's White Paper on the way in which high petrol prices are hitting people hard in the pocket, unfortunately that is not changing the patterns of travel to work on the eastern side of Cardiff. I welcome the report as a means of ensuring that local authorities have to address this issue when they are undertaking roadworks, for example. Roadworks—which happen a lot in Cardiff, unfortunately—are one of the sources of the pollution that cause so much damage to people's health in the city. I have yet to see any improvement for walking and cycling in conjunction with the repair or reconfiguration of our road system in Cardiff. Therefore, I hope that the White Paper will lead to the legislation placing a new duty on local authorities to address the mapping that is required.

**Jenny Rathbone:** Roeddwn wrth fy modd o ddarllen y Papur Gwyn, a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf gan y Gweinidog, gan nad yw'r cynllun gweithredu cerdded a beicio a lansiwyd yn 2009 wedi arwain at y newid sylweddol y mae ei angen arnom. Mae'n ymddangos bod gennym gonsensws eang ar y newid sylweddol y mae ei angen arnom, ac mae'n bleser gen i glywed hynny. Yn anffodus, yn fy etholaeth i, sef Canol Caerdydd, mae problem llygredd sy'n deillio o draffig ceir yn gwaethygu'n fawr. Dangosir hynny gan lefelau'r nitrogen deuocsid a geir ar Heol Casnewydd. Felly, er gwaethaf y pwyslais sydd ym Mhapur Gwyn y Gweinidog ar y ffaith bod prisiau uchel petrol wedi rhoi ergyd galed i bocedi pobl, yn anffodus, nid yw hynny'n newid patrymau teithio i'r gwaith ar ochr ddwyreiniol Caerdydd. Croesawaf yr adroddiad fel modd o sicrhau bod yn rhaid i awdurdodau lleol fynd i'r afael â'r mater hwn pan fyddant yn ymgymryd â gwaith ffordd, er enghraifft. Mae gwaith fordd—ac mae llawer o hynny'n digwydd yng Nghaerdydd, yn anffodus—yn un o ffynonellau'r llygredd sy'n achosi cymaint o ddifrod i iechyd pobl yn y ddinas. Nid wyf eto wedi gweld gwelliant ar gyfer cerdded a beicio mewn perthynas â thrwsio neu ad-drefnu ein system ffyrdd yng Nghaerdydd. Felly, rwyf yn gobeithio y bydd y Papur Gwyn yn arwain at ddeddfwriaeth sy'n gosod dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r mapio sydd ei angen.

There are a few issues that I would like the new administration in Cardiff Council to pick up on. One is the walking to school initiative, which is being celebrated next week by Marlborough Primary School in my constituency. There is not much evidence that this initiative, led by an enthusiastic parent, is being rolled out by the local authority to all other primary schools in Cardiff. That is what needs to happen.

Hoffwn weld y weinyddiaeth newydd yng Nghyngor Caerdydd yn trafod rhai materion. Un yw'r fenter cerdded i'r ysgol, sy'n cael ei dathlu yr wythnos nesaf gan Ysgol Gynradd Marlborough yn fy etholaeth. Nid oes llawer o dystiolaeth bod y fenter hon, a arweinir gan riant brwdfrydig, yn cael ei chyflwyno gan yr awdurdod lleol i bob ysgol gynradd arall yng Nghaerdydd. Dyna a ddylai ddigwydd.

Secondly, we are blessed in Cardiff with a lot of early twentieth century houses, which have lanes behind them. The previous

Yn ail, yng Nghaerdydd rydym yn ffodus bod gennym lawer o dai a adeiladwyd ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, sydd â ffyrdd y tu

administration was busily trying to gate all the lanes for privacy's sake, when, in fact, they would be an ideal location for safe cycling and walking routes, as they would separate people from traffic. They may need to be gated at night to prevent anti-social behaviour but, during the day, I would like to see them open and being actively promoted as safe cycling routes. However, as Eluned Parrot said, they would need to join up with safe road crossings. Those are two aspects of the White Paper that I hope will lead to a step change in the way that local authorities get to grips with this agenda.

ôl iddynt. Roedd y weinyddiaeth flaenorol yn brysur yn ceisio cau'r holl ffyrdd hynny er mwyn sicrhau preifatrwydd, pan fyddent, mewn gwirionedd, yn lleoliadau delfrydol ar gyfer cael llwybrau beicio a cherdded diogel, gan y byddent yn gwahanu pobl a thraffig. Efallai y byddai angen eu cau yn ystod y nos er mwyn atal ymddygiad gwrthgymdeithasol ond, yn ystod y dydd, hoffwn eu gweld ar agor ac yn cael eu hyrwyddo fel llwybrau beicio diogel. Fodd bynnag, fel y dywedodd Eluned Parrot, byddai angen iddynt ymuno â chroesfannau diogel ar y ffyrdd. Gobeithip y bydd y ddwy agwedd hyn ar y Papur Gwyn yn arwain at newid sylweddol yn y modd y mae awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â'r agenda hon.

I have two questions for the Minister. Will Flying Start promote cycling proficiency? Let us start at the beginning. Will schools be encouraged to run road safety cycling training, as one of the ways in which we will instil young people and their parents with the confidence that they are fit to navigate these excellent new cycle routes that I hope we will get. Lastly, I look forward to seeing the picture of the Minister on his bike.

Mae gennyf ddau cwestiwn i'r Gweinidog. A fydd y rhaglen Dechrau'n Deg yn hyrwyddo hyfedredd o ran beicio? Gadewch inni ddechrau yn y dechrau. A fydd ysgolion yn cael eu hannog i gynnal hyfforddiant diogelwch beicio ar y ffyrdd, fel un modd inni feithrin hyder pobl ifanc a'u rhieni fod ganddynt y gallu i ddefnyddio'r llwybrau beicio newydd rhagorol yr wyf yn gobeithio y byddwn yn eu cael. Yn olaf, rwy'n edrych ymlaen at weld y llun o'r Gweinidog ar ei feic.

4.00 p.m.

**Russell George:** There are a few Members here who would like to see those pictures of the Minister on his bike. We were wondering whether the bike he spoke about at the beginning was an electric bike or a manual bike; perhaps he could confirm at the end.

**Russell George:** Mae ambell Aelod yma a fyddai'n hoffi gweld y lluniau hynny o'r Gweinidog ar ei feic. Roeddem yn meddwl tybed a oedd y beic y soniodd amdano ar y dechrau yn feic trydan neu'n feic traddodiadol; efallai y gallai gadarnhau hynny ar y diwedd.

My colleague Byron Davies has touched upon the rationale for our amendments 2 and 3, but I just want to take this opportunity to flesh out two points a bit further. As a member of the Climate Change Commission for Wales, I thought that the commissioner was very fair and balanced in his first annual report—he certainly gave the Government credit where progress had been made across the sectors. In terms of transport, he said that some progress had been made in decarbonising the sector in Wales—a sector that contributes nearly 7 million tonnes of greenhouse gas emissions each year.

Mae fy nghyd-Aelod Byron Davies wedi cyfeirio at y rhesymeg dros ein gwelliannau 2 a 3, ond rwyf am achub y cyfle hwn i ddweud rhagor am ddau bwynt. A minnau'n aelod o Gomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd, roeddwn o'r farn bod y comisiynydd yn deg a chytbwys iawn yn ei adroddiad blynyddol cyntaf—yn sicr rhoddodd ganmoliaeth i'r Llywodraeth lle y cafwyd cynnydd ar draws y sectorau. O ran trafnidiaeth, dywedodd fod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud wrth ddatgarboneiddio'r sector yng Nghymru—mae'r sector yn cyfrannu bron 7 miliwn

However, there are still question marks as to whether carbon reduction and climate adaption has been integrated with the reprioritised transport strategy.

tunnell o allyriadau nwyon tŷ gwydr bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae cwestiwn o hyd ynghylch a yw lleihau carbon ac ymaddasu i'r hinsawdd wedi eu hintegreiddio â'r strategaeth drafnidiaeth sydd wedi'i hailflaenoriaethu.

I am sure that the Minister is aware that transport will be one of the key agendas in the commission's work this year. At the heart of that is what the Government can do to initiate and accelerate behavioural change, which is a fundamental principle of the active travel plans. In particular, how will the forthcoming Bill be used to effectively sell the message that walking and cycling to school or work is not only good for the individual in terms of improved health outcomes, but is also beneficial for the environment? What the commissioner has said is that there is still no clear trend that progress is being achieved in this area, and the 'Smarter Choices' guide produced by Government in 2007 was for local authorities and relevant stakeholders to develop innovative and best-practice models of sustainable transport across Wales so that we would get that modal shift away from the car.

Rwy'n siŵr bod y Gweinidog yn ymwybodol y bydd trafnidiaeth yn un o'r agendâu allweddol yng ngwaith y comisiwn eleni. Wrth wraidd hynny y mae'r hyn y gall y Llywodraeth ei wneud i symbylu a chyflymu newid ymddygiad, sy'n un o egwyddorion sylfaenol y cynlluniau teithio llesol. Yn benodol, sut y bydd y Bil yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo'n effeithiol y neges bod cerdded a beicio i'r ysgol neu'r gwaith nid yn unig yn beth da i'r unigolyn o ran canlyniadau iechyd gwell, ond ei fod hefyd yn llesol i'r amgylchedd? Yr hyn y mae'r comisiynydd wedi'i ddweud yw nad oes eto duedd amlwg i ddangos bod cynnydd yn y maes hwn, a lluniwyd y canllaw 'Dewisiadau Craffach' gan y Llywodraeth yn 2007 ar gyfer awdurdodau lleol a rhanddeiliaid perthnasol er mwyn iddynt ddatblygu modelau arferion gorau, arloesol o drafnidiaeth gynaliadwy ledled Cymru fel y byddem yn gweld newid moddol oddi wrth ddefnyddio ceir.

There are some good examples but, on the whole, there has not been the drive or encouragement to deliver this agenda on the ground. For example, I know that my colleague Julie Morgan has raised on a number of occasions in the Chamber the loss of the cycle hire scheme in Cardiff; if such a scheme should flourish anywhere in Wales it is here, in the capital. Questions have to be asked of local authorities. Is the necessary infrastructure in place? Is the marketing in place? Is there a will to implement good, sustainable transport projects? The Bill will obviously place a duty on local authorities, which will ensure that some of those questions are answered. Of course, duty and will can be different sides of the same coin, and that is why I believe that the Government has a pivotal role in ensuring that the overall message of change is right, and is communicated effectively.

Ceir rhai enghreifftiau da ond, ar y cyfan, ni chafwyd yr ymdrech na'r anogaeth i roi'r agenda hon ar waith ar lawr gwlad. Er enghraifft, gwn fod fy nghyd-Aelod Julie Morgan wedi sôn droeon yn y Siambr am golli'r cynllun llogi beiciau yng Nghaerdydd; os dylai cynllun o'r fath ffynnu yn unrhyw le yng Nghymru, dylai ddigwydd yn y brifddinas. Rhaid cwestiynu'r awdurdodau lleol. A yw'r seilwaith angenrheidiol wedi'i sefydlu? A oes marchnata ar waith? A oes parodrwydd i weithredu prosiectau trafnidiaeth cynaliadwy, da? Bydd y Bil yn amlwg yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol, a bydd hynny'n sicrhau bod rhai o'r cwestiynau hynny'n cael eu hateb. Wrth gwrs, gall dyletswydd a pharodrwydd fod yn ddwy ochr i'r un geiniog, a dyna pam yr wy'n credu bod gan y Llywodraeth rôl ganolog o ran sicrhau bod y neges gyffredinol o newid yn gywir, ac yn cael ei chyfleu'n effeithiol.

Finally, and briefly, in relation to our

Yn olaf, ac yn fyr, o safbwynt ein gwelliant

amendment 3, if the Government states that the cumulative impact of its active travel plans will be to dynamically contribute to the reduction of greenhouse gases then it has to be properly measured and assessed. Without meaningful monitoring and measuring, such statements are, of course, worthless.

3, os bydd y Llywodraeth yn datgan y bydd effaith gronnol ei chynlluniau teithio llesol yn cyfrannu'n ddynamig at leihau nwyon tŷ gwydr, yna rhaid mesur ac asesu hynny'n gywir. Heb fonitro a mesur ystyrlon, mae datganiadau o'r fath, wrth gwrs, yn ddiwerth.

**Joyce Watson:** When historians look back at the first years of the National Assembly for Wales they will have much to celebrate. Two of the landmarks that will stand the test of time are free bus travel for the elderly and the establishment of the Wales coast path. These two projects helped to realise a vision of a more active and equal society. Now, Wales is to become the first country in the world to require local councils to provide routes for walking and cycling. The active travel Bill will build on the excellent work that is already being done through the sustainable travel centres in mid and west Wales, in Carmarthen, Haverfordwest and Aberystwyth, and I fully expect it to be successful. The Welsh Government will have to support local government to deliver the requirements of the Bill, of course; in that regard, I welcome the announcement by the Minister for Finance today of the £60 million boost to the local government borrowing initiative. We know that local authority budgets are under pressure, and this extra pot for capital projects will be a huge help. It will certainly help councils to undertake new and necessary improvements to our roads and cycle lanes.

**Joyce Watson:** Pan fydd haneswyr yn astudio blynyddoedd cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru bydd ganddynt lawer i'w ddathlu. Dwy garreg filltir fydd yn aros yn y cof yw teithio ar fysiau am ddim i'r henoed a sefydlu llwybr arfordir Cymru. Mae'r ddau brosiect hyn wedi helpu i wireddu gweledigaeth o gymdeithas fwy egnïol a chyfartal. Bellach, Cymru fydd y wlad gyntaf yn y byd i'w gwneud yn ofynnol i gynghorau lleol ddarparu llwybrau ar gyfer cerdded a beicio. Bydd y Bil teithio llesol yn datblygu'r gwaith rhagorol sydd eisoes yn digwydd drwy'r canolfannau teithio cynaliadwy yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, yng Nghaerfyrddin, Hwlffordd ac Aberystwyth, ac rwy'n llwyr ddisgwyl y bydd yn llwyddiannus. Bydd rhaid i Lywodraeth Cymru gefnogi llywodraeth leol i ateb gofynion y Bil, wrth gwrs; yn hynny o beth, rwy'n croesawu cyhoeddiad y Gweinidog Cyllid heddiw y bydd hwb o £60 miliwn i fenter benthyca llywodraeth leol. Rydym yn gwybod bod cyllidebau awdurdodau lleol o dan bwysau, a bydd y pot ychwanegol hwn ar gyfer prosiectau cyfalaf yn gymorth mawr. Bydd yn sicr yn helpu cynghorau i roi gwelliannau newydd ac angenrheidiol i'n ffyrdd a'n lonydd beicio ar waith.

In terms of delivering active travel, physical infrastructure is, of course, important. People have to have somewhere they can walk and cycle safely, taking them from point A to B. Local authorities will have to plan to ensure that they can deliver that. However, the White Paper acknowledges that outcomes are what really matter. In other words, the Bill will be deemed a success if more people walk and cycle, rather than if local authorities spend x amount of money on a new route. We must monitor usage rather than fixate simply on investment. I am therefore interested to hear the Minister's plans for measuring use, whether local authorities will be encouraged to use technology to clock the

O ran darparu teithio llesol, mae'r seilwaith ffisegol, wrth gwrs, yn bwysig. Rhaid i bobl gael rhywle lle y gallant gerdded a beicio'n ddiogel, gan fynd â nhw o bwynt A i B. Bydd rhaid i awdurdodau lleol gynllunio i sicrhau y gallant gynnig hynny. Fodd bynnag, mae'r Papur Gwyn yn cydnabod mai canlyniadau yw'r hyn sy'n gwir gyfrif. Mewn geiriau eraill, bydd y Bil yn cael ei ystyried yn llwyddiant os bydd rhagor o bobl yn cerdded a beicio, yn hytrach na phe bai awdurdodau lleol yn gwario hyn a hyn o arian ar lwybr newydd. Mae'n rhaid inni fonitro'r defnydd yn hytrach na chanolbwyntio ar fuddsoddi'n unig. Felly, rwyf yn awyddus i glywed beth yw cynlluniau'r Gweinidog ar gyfer mesur y

number of cyclists and perhaps walkers, and what we could learn from the Hands Up Scotland survey, which every September simply asks schoolchildren how they get to school.

defnydd, ac a fydd awdurdodau lleol yn cael eu hannog i ddefnyddio technoleg i gyfrif nifer y beicwyr ac efallai'r cerddwyr, a'r hyn y gallem ei ddysgu gan arolwg Hands Up yr Alban, sydd yn gofyn i blant ysgol bob mis Medi sut y maent yn cyrraedd yr ysgol.

Other Members have talked about the wider benefit of active travel—the contribution that it can make towards reducing obesity, carbon emissions and suchlike. We all recognise that, as a society, we are over-reliant on our cars. We can start to change that by shifting the emphasis of town planning away from car travel. Let us not forget that many people do not have access to a car, which has a huge impact on their lives. That fact came home to me very recently. When I was out campaigning in Ystradgynlais last month, I met two young men who were walking all over town. After passing them for the third or the fourth time, I said something to them about walking a long way. Their response struck me: 'You have to if you want to find a job these days'. That is sad but true. The fact is that two out of five jobseekers find that the lack of affordable transport is a barrier to finding a job.

Mae Aelodau eraill wedi sôn am fanteision ehangach teithio llesol—y cyfraniad y gall ei wneud tuag at leihau gordewdra, allyriadau carbon a phethau tebyg. Rydym oll yn cydnabod, fel cymdeithas, ein bod yn or-ddibynnol ar ein ceir. Gallwn ddechrau newid hynny drwy symud pwyslais cynllunio trefol oddi wrth deithio mewn car. Rhaid cofio nad oes gan lawer fynediad at gar, sy'n cael effaith fawr ar eu bywydau. Sylweddolais hynny'n ddiweddar iawn. Pan oeddwn yn ymgyrchu yn Ystradgynlais fis diwethaf, bu i mi gwrdd â dau ddyn ifanc a oedd yn cerdded ar hyd a lled y dref. Ar ôl eu pasio y trydydd neu'r pedwerydd tro, soniais wrthynt eu bod yn cerdded yn bell. Mae eu hymateb wedi aros yn fy nghof: 'Mae'n rhaid ichi os ydych chi am ddod o hyd i swydd y dyddiau hyn'. Mae hynny'n beth trist ond mae'n wir. Y gwir amdani yw bod dau o bob pump o'r rhai sy'n chwilio am waith yn gweld diffyg trafnidiaeth fforddiadwy yn rhwystr i ddod o hyd i swydd.

Turning to the issue of safety, what impact might the Bill have on the Welsh Government's long-standing commitment to increasing the use of 20 mph limits, particularly near schools? Every year, around a third of all pedestrian casualties are school pupils on a journey to or from school. We have all seen the adverts about the difference that travelling at 20 mph can make to a child's chance of survival. The number of 20 mph zones has risen steadily in recent years, but some councils have taken the guidance more seriously than others. For example, when I first raised this issue two years ago, of the 75 schools in Ceredigion, only two had 20 mph zones outside the school gates, while 54 had a 30 mph limit, eight had a 40 mph limit and 11 were in derestricted zones. Could the Bill address this?

Gan droi at fddiogelwch, pa effaith y gallai'r Bil ei chael ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru ers tro i gynyddu'r defnydd o derfynau cyflymder 20 milltir yr awr, yn enwedig ger ysgolion? Bob blwyddyn, mae tua thraean yr holl anafiadau i gerddwyr yn anafiadau i ddisgyblion ysgol ar daith i'r ysgol neu oddi yno. Rydym i gyd wedi gweld yr hysbysebion am y gwahaniaeth y gall teithio ar gyflymder o 20 milltir yr awr ei wneud i siawns plentyn i oroesi damwain. Mae nifer y parthau 20 milltir yr awr wedi cynyddu'n gyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond mae rhai cynghorau wedi bod yn fwy o ddifrif nag eraill wrth fabwysiadu'r canllawiau. Er enghraifft, pan godais y mater hwn am y tro cyntaf ddwy flynedd yn ôl, o'r 75 o ysgolion yng Ngheredigion, dim ond dwy a oedd â pharthau 20 milltir yr awr y tu allan i gatiau'r ysgol, tra oedd terfyn o 30 milltir yr awr y tu allan i 54 ohonynt. Roedd gan wyth ysgol derfyn cyflymder o 40 milltir yr awr ac roedd 11 yn barthau wedi eu cyfyngu. A allai'r Bil fynd i'r afael â hyn?

**Jocelyn Davies:** We in the Plaid Cymru group very much welcome this initiative on walking and cycling, and agree that local authorities are best placed to deliver traffic-free routes for pedestrians and cyclists. The previous Government's walking and cycling action plan made it clear that transport and the environment needed to be considered together. I was pleased to hear the Minister's answer to Simon Thomas's intervention that planning policy will now take walking and cycling into consideration when major developments are planned. I hope that that does not mean that we have the rather pathetic 12 inches of red paint at the side of the road, which is completely inadequate and, in fact, probably more dangerous. What we want to see is cyclists being able to opt for a motorist-free path when they cycle.

**Jocelyn Davies:** Rydym ni yng ngrŵp Plaid Cymru yn croesawu'r fenter hon ar gerdded a beicio yn fawr, ac yn cytuno mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu llwybrau di-draffig ar gyfer cerddwyr a beicwyr. Roedd cynllun gweithredu cerdded a beicio'r Llywodraeth flaenorol yn ei gwneud yn glir bod angen ystyried trafnidiaeth a'r amgylchedd gyda'i gilydd. Roeddwn yn falch o glywed ymateb y Gweinidog i ymyriad Simon Thomas wrth iddo ddweud y bydd y polisi cynllunio yn awr yn ystyried cerdded a beicio wrth gynllunio datblygiadau mawr. Rwy'n gobeithio nad ystyr hynny yw y bydd gennym 12 modfedd eithaf truenus o baent coch ar ochr y ffordd, sydd yn hollol annigonol ac, yn wir, yn ôl pob tebyg yn fwy peryglus. Yr hyn yr ydym eisiau ei weld yw y bydd bfeicwyr yn gallu dewis llwybr heb fodurwyr pan fyddant yn beicio.

I welcome the idea of a Bill that places a duty on councils to map out local routes that are safe for walkers and cyclists and also look to the future in relation to improvements to those routes and the creation of new ones. The idea of a national network is to be commended. However, the acknowledgement of the value of local routes for everyday use is important if behaviour change is to become a reality. I am pleased, like everyone else in the Chamber, that the Minister is a closet keen cyclist. I do not cycle—I readily admit that; in fact, I cannot cycle—but I like to walk and I agree with your consultation that a significant barrier to walking is the unpleasantness that can result if the route is close to fast-moving, heavy traffic. Therefore, the emphasis on safety and enjoyment is important. One of the main reasons why parents drive their children to school is the fear that they will be knocked down. The existence of short, local and safe routes to take you where you need to go is vital. I welcome legislation that achieves that.

Rwy'n croesawu'r syniad o Fil sy'n rhoi dyletswydd ar gynghorau i fapio llwybrau lleol sy'n ddiogel ar gyfer cerddwyr a beicwyr ac sy'n edrych at y dyfodol o ran gwella'r llwybrau hynny a chreu rhai newydd. Mae'r syniad o rwydwaith cenedlaethol i'w ganmol. Fodd bynnag, mae cydnabod gwerth llwybrau lleol ar gyfer defnydd bob dydd yn bwysig er mwyn i newid ymddygiad gael ei wireddu. Rwy'n falch, fel pawb arall yn y Siambr, fod y Gweinidog yn feiciwr brwd cudd. Nid wyf fi'n beicio—rwy'n barod i gyfaddef hynny; a dweud y gwir, nid wyf yn gallu beicio—ond rwy'n hoffi cerdded a chytunaf â'ch ymgynghoriad fod cerdded yn annifyr os yw'r llwybr ger traffig trwm sy'n symud yn gyflym ac felly'n rhwystr sylweddol. Felly, mae'r pwyslais ar ddiogelwch a mwynhad yn bwysig. Un o'r prif resymau y mae rhieni'n gyrru eu plant i'r ysgol yw'r pryder y byddant yn cael eu bwrw i lawr. Mae llwybrau byr, lleol a diogel i fynd â chi i'r man lle yr ydych am fynd yn hanfodol. Rwy'n croesawu deddfwriaeth sy'n cyflawni hynny.

Local authorities will be wondering about the resources that will back up the legislation. We must accept that, sometimes, these routes will be on private land. Has the Minister considered how conflict with resistant

Bydd yr awdurdodau lleol yn pendroni am yr adnoddau a fydd yn ategu'r ddeddfwriaeth. Mae'n rhaid inni dderbyn, weithiau, y bydd y llwybrau hyn ar dir preifat. A yw'r Gweinidog wedi ystyried sut y bydd

landowners will be managed? Will the legislation tackle this sometimes rather thorny issue? That is an important point, because the concept behind this policy is not just to reproduce existing and established rights of way but to establish new ones. As we all know, rights of way can be an extremely legalistic area of public policy.

gwrthdaro â thirfeddianwyr gwrthwynebus yn cael ei reoli? A fydd y ddeddfwriaeth yn mynd i'r afael â'r mater hwn sy'n ddyrys weithiau? Mae hwnnw'n bwynt pwysig, oherwydd nid yw'r cysyniad sy'n sail i'r polisi hwn yn ymwneud ag atgynhyrchu hawliau tramwy sy'n bod eisoes, sy'n rhai sefydledig, ond â sefydlu rhai newydd hefyd. Fel y gwyddom, gall hawliau tramwy fod yn faes hynod ddeddfol o bolisi cyhoeddus.

I note that the legislation will place a duty on local authorities, and that is fine, but does the Minister envisage that the legislation will give any rights to walkers and cyclists? Without specific rights, how will the duties materialise? There are no timescales involved in the creation of the legislation. Without rights for walkers and cyclists and without timescales, and perhaps without resources, monitoring and sanctions, I am concerned that this vision—which has much to commend it—runs the risk of being meaningless legislation unless local authorities enthusiastically pursue it. That would be a great shame.

Sylwaf y bydd y ddeddfwriaeth yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol, ac mae hynny'n iawn, ond a yw'r Gweinidog yn rhagweld y bydd y ddeddfwriaeth yn rhoi unrhyw hawliau i gerddwyr a beicwyr? Heb hawliau penodol, sut y bydd y dyletswyddau'n cael eu gwireddu? Nid oes amserlenni'n gysylltiedig â chreu'r ddeddfwriaeth. Heb hawliau ar gyfer cerddwyr a beicwyr a heb amserlenni, ac efallai heb adnoddau, monitro a sancsiynau, rwy'n pryderu bod perygl y bydd y weledigaeth hon—y mae llawer i'w ddweud o'i phlaid—yn ddeddfwriaeth ddiystyr oni bai fod awdurdodau lleol yn ei dilyn yn frwdfrydig. Byddai hynny'n drueni mawr.

**Julie Morgan:** I am pleased to speak in this debate in support of the Government's active travel policy. Such a policy has huge implications for the health and wellbeing of the people of Wales. I am keen to engage with it on a local level in my constituency in Cardiff North and in Cardiff as a whole. One of the Government's achievements, which the Minister has referred to, has been to set up sustainable travel centres, including one in Cardiff. The sustainable travel centres include infrastructure plans for walking and cycling. Since 2009, the Welsh Government has provided Cardiff Council with £16.2 million to support the sustainable travel centre. There have been some good results.

**Julie Morgan:** Rwy'n falch o gael siarad yn y ddadl hon i gefnogi polisi teithio llesol y Llywodraeth. Mae gan bolisi o'r fath oblygiadau enfawr i iechyd a lles pobl Cymru. Rwy'n awyddus i ymgysylltu â'r polisi ar lefel leol yn fy etholaeth yng Ngogledd Caerdydd ac yng Nghaerdydd yn gyffredinol. Un o lwyddiannau'r Llywodraeth, y mae'r Gweinidog wedi cyfeirio ato, yw sefydlu canolfannau teithio cynaliadwy, gan gynnwys un yng Nghaerdydd. Mae'r canolfannau teithio cynaliadwy yn cynnwys cynlluniau seilwaith ar gyfer cerdded a beicio. Ers 2009, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi £16.2 miliwn i Gyngor Caerdydd i gefnogi'r ganolfan teithio cynaliadwy. Cafwyd rhai canlyniadau da.

Cycling movements have increased by 16% since 2010. The Ask Cardiff survey showed that 19% commuted by walking and 7% by cycling. Commuting by car has reduced from 65% to 58% and traffic in the city centre has reduced by 5%. Progress has definitely been made in Cardiff as a result of these efforts—although, I think, as the Minister said in his introduction, that a lot more could have been

Mae teithio ar feic wedi cynyddu 16% ers 2010. Dangosodd arolwg Holi Caerdydd fod 19% yn cymudo drwy gerdded a 7% ar feic. Mae cymudo yn y car wedi gostwng o 65% i 58% ac mae'r traffig yng nghanol y ddinas wedi gostwng 5%. Yn sicr, cafwyd cynnydd yng Nghaerdydd o ganlyniad i'r ymdrechion hyn—er fy mod yn credu, fel y dywedodd y Gweinidog yn ei gyflwyniad, y gellid bod

achieved in Cardiff. First, there was the failure to provide a central integrated transport hub at the Cardiff bus station, which has a unique situation next to the rail station, with an emphasis on public transport and facilities for cyclists and walkers. I think that the development of public transport is essential to the development of walking and cycling. It all has to be integrated and work together. The previous administration in Cardiff local authority seemed to be set on developing the bus station by working on a developer-led policy. I hope, now that we have a change in the Cardiff administration, that it will work on a more transport-led policy and that that will help increase the opportunities for cycling and walking in the city centre. It is a shame that that has not been developed.

wedi cyflawni mwy yng Nghaerdydd. Yn gyntaf, roedd methwyd darparu canolfan drafnidiaeth integredig ganolog yng ngorsaf fysiau Caerdydd, sydd mewn safle unigryw ger yr orsaf reilffordd, gyda phwyslais ar drafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau ar gyfer beicwyr a cherddwyr. Credaf fod datblygu trafnidiaeth gyhoeddus yn hanfodol i ddatblygu cerdded a beicio. Mae'n rhaid i'r cyfan gael ei integreiddio a gweithio gyda'i gilydd. Roedd yn ymddangos bod gweinyddiaeth flaenorol awdurdod lleol Caerdydd yn benderfynol o ddatblygu'r orsaf fysiau drwy weithio ar bolisi'n seiliedig ar ddatblygwr. Rwy'n gobeithio, gan fod newid wedi bod erbyn hyn yng ngweinyddiaeth Caerdydd, y bydd yn gweithio ar bolisi sy'n fwy seiliedig ar drafnidiaeth ac y bydd hynny'n helpu i gynyddu'r cyfleoedd i feicio a cherdded yng nghanol y ddinas. Mae'n drueni nad yw hynny wedi cael ei ddatblygu.

The other disappointment in Cardiff, as Russell George has already mentioned, was the failure to develop a sustainable cycle-hire scheme. I have previously mentioned in the Chamber the sad disappointment of the OYBike scheme—the cycle-hire scheme that ended last December. It was sad that the scheme could not have struggled on and been built upon and developed. It was done on a bit of a shoestring, without a lot of investment, and only covered limited parts of Cardiff, mainly in the city centre. Nevertheless, there were 2,000 registered users and 11,000 cycle journeys during the period of just over two years that it lasted. It was a great shame that it was not continued and I hope that one of the priorities for the new council, in developing its walking and cycling strategy, will be to introduce a new bike-hire scheme.

Y siom arall yng Nghaerdydd, fel y mae Russell George eisoes wedi sôn, oedd methu â datblygu cynllun llogi beiciau cynaliadwy. Bu imi sôn eisoes yn y Siambr am siom trist y cynllun OYBike—y cynllun llogi beiciau a ddaeth i ben fis Rhagfyr diwethaf. Roedd yn drist na allai'r cynllun fod wedi dal ati, gan adeiladu arno a'i ddatblygu. Lluniwyd y cynllun ar ychydig o geiniogau, heb lawer o fuddsoddiad, ac roedd ar gael mewn rhannau cyfyngedig o Gaerdydd yn unig, yn bennaf yng nghanol y ddinas. Serch hynny, roedd 2,000 o ddefnyddwyr cofrestredig ac 11,000 o deithiau beicio yn ystod y cyfnod o ychydig dros ddwy flynedd y bu iddo bara. Roedd yn drueni mawr na pharhawyd â'r cynllun ac rwy'n gobeithio mai un o flaenoriaethau'r cyngor newydd, wrth ddatblygu ei strategaeth cerdded a beicio, fydd cyflwyno cynllun llogi beiciau newydd.

4.15 p.m.

However, in order for it to be fully successful, it must be a wider scheme and operate throughout the city and must be properly supported. Perhaps it would be possible for Cardiff to look at what has been done in cities such as Bristol and Nottingham, which have a good record of cycling. It is great that the Welsh Government will put it in law that local authorities have to put in place cycle

Fodd bynnag, er mwyn iddo fod yn gwbl lwyddiannus, rhaid iddo fod yn gynllun ehangach, rhaid iddo weithredu ar draws y ddinas a rhaid ei gefnogi'n briodol. Efallai y byddai'n bosibl i Gaerdydd edrych ar yr hyn a wnaed mewn dinasoedd fel Bryste a Nottingham, sydd â record dda o ran beicio. Mae'n wych y bydd Llywodraeth Cymru yn deddfu i sicrhau bod yn rhaid i awdurdodau lleol drefnu bod rhwydweithiau beicio ar

networks and I am pleased to say that Cardiff already produces cycle maps for cyclists. However, we also need many more cycle racks in stations, because, in my constituency, many of the stations have no cycle racks, including Lisvane and Thornhill.

gael, ac rwy’n falch o ddweud bod Caerdydd eisoes yn llunio mapiau beicio ar gyfer beicwyr. Fodd bynnag, mae angen llawer mwy o raciau beiciau mewn gorsafoedd, oherwydd, yn fy etholaeth i, nid oes gan nifer o’r gorsafoedd raciau beiciau, gan gynnwys Llys-faen a Thornhill.

Finally, will the Minister comment on the way in which we can balance the needs of walkers and cyclists? Many people cycle along the Taff Trail, which runs through my constituency of Cardiff North, down to the bay to work and it is glorious; it is a wonderful trail by the side of the river. However, many of those cyclists come down it at speed. I am a cyclist, but not a fast cyclist. It is quite alarming when you walk along and cyclists speed past you. Quite a lot of concern has been expressed to me by elderly people in particular, who like to walk their dogs and who have been used to being able to walk along the Taff Trail, before it was developed into its current form. I am totally in support of the Taff Trail and developing cycling facilities, but I wonder whether the Minister would comment on how we can combine walking and cycling in a way that is safe for both.

Yn olaf, a wnaiff y Gweinidog sylw ynghylch sut y gallwn gydbwyso anghenion cerddwyr a beicwyr? Mae nifer o bobl yn beicio ar hyd Taith Taf, sy’n mynd drwy fy etholaeth i, sef Gogledd Caerdydd, ac i lawr i’r bae i weithio, ac mae’n odidog; mae’n llwybr gwych wrth ochr yr afon. Fodd bynnag, mae nifer o’r beicwyr hynny yn mynd ar hyd y llwybr yn gyflym. Rwyf fi’n feiciwr, ond nid wyf yn feiciwr cyflym. Mae’n eithaf brawychus pan fyddwch yn cerdded ar hyd y llwybr a bod beicwyr yn mynd heibio ichi ar garlam. Mynegwyd cryn dipyn o bryder imi gan bobl oedrannus yn arbennig, sy’n hoffi mynd am dro gyda’u cŵn ac sydd wedi arfer â gallu cerdded ar hyd Taith Taf, cyn iddi gael ei datblygu i fod ar ei ffurf bresennol. Rwyf yn llwyr o blaid Taith Taf a datblygu cyfleusterau beicio, ond tybed a fyddai’r Gweinidog yn gwneud sylw ynghylch sut y gallwn gyfuno cerdded a beicio mewn ffordd sy’n ddiogel i’r ddau ffurf o deithio?

**Mark Isherwood:** You state in your White Paper that the purpose of the consultation on active travel is to identify and map a network of routes that are safe and appropriate for walking and cycling. Further on, you state that the maps will be advisory rather than definitive. As a number of previous speakers have said, there is a need for equality of access and walkers and cyclists are not the only groups that might be seeking access to such routes. How, therefore, will you engage with other groups, such as horse riders, bridleway associations and the British Driving Society, which represents carriage drivers, who argue that they also represent activities that are good for health and wellbeing and which engage people from all backgrounds, stimulate local economies and support local business, who also want to engage in this discussion to ensure that their historic access to some of these routes and the potential for their access to be included now are addressed?

**Mark Isherwood:** Rydych yn datgan yn eich Papur Gwyn mai diben yr ymgynghoriad ar deithio llesol yw nodi a mapio rhwydwaith o lwybrau sy’n ddiogel ac yn briodol ar gyfer cerdded a beicio. Yn ddiweddarach, rydych yn datgan y bydd y mapiau yn cynghori yn hytrach na’u bod yn ddiamod. Fel y mae nifer o siaradwyr wedi’i ddweud, mae angen cydraddoldeb o ran mynediad, ac nid cerddwyr a beicwyr yw’r unig grwpiau sydd efallai’n dymuno defnyddio llwybrau o’r fath. Felly, sut y byddwch yn ymgysylltu â grwpiau eraill, fel marchogion, cymdeithasau llwybrau ceffylau a Chymdeithas Yrru Prydain, sy’n cynrychioli gyrwyr cerbydau, sy’n dadlau eu bod hwythau’n cynrychioli gweithgareddau sy’n dda o ran iechyd a lles ac sy’n ennyn diddordeb pobl o bob cefndir, yn ysgogi economïau lleol ac yn cefnogi busnesau lleol, ac sydd hefyd yn awyddus i gymryd rhan yn y drafodaeth hon i sicrhau bod eu mynediad hanesyddol i rai o’r llwybrau hyn a’r posibilrwydd o gynnwys mynediad ar eu cyfer hwy bellach yn cael

sylw?

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I am grateful for the opportunity to respond to comments today. I am particularly pleased about the number of messages that I have received from Members across all parties in the Chamber expressing support for this process in relation to cycling and I was surprised by the number of keen cyclists we have in the Chamber. I am not sure that I would want to be on a tandem with Janet Finch-Saunders, because the Conservatives are known for back-pedalling, and I would not want to be on that bike. [*Laughter.*] Nevertheless, this is a serious issue that we are touching on today and I would like to pick up on the points that Members have brought to my attention today.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Rwy’n ddiolchgar am y cyfle i ymateb i’r sylwadau a wnaed heddiw. Rwy’n arbennig o falch fy mod wedi cael cynifer o negeseuon gan Aelodau o bob plaid yn y Siambr i fynegi eu cefnogaeth i’r broses hon mewn perthynas â beicio, ac roeddwn wedi fy synnu o ganfod faint o feicwyr brwd sydd gennym yn y Siambr. Nid wyf yn siŵr a fyddwn yn dymuno bod ar feic tandem gyda Janet Finch-Saunders, oherwydd gwyddys bod y Ceidwadwyr yn hoff o bedlo’n ôl, ac ni fyddwn eisiau bod ar y beic hwnnw. [*Chwerthin.*] Serch hynny, rydym yn ymdrin â mater difrifol heddiw, a hoffwn fynd i’r afael â’r pwyntiau a ddygwyd i’m sylw gan yr Aelodau heddiw.

Byron raised the issue of the targets in the walking and cycling action plan. We saw an increase in the number of people walking and cycling, but, yes, like you, I am disappointed with regard to the success of this and there has to be a cultural shift with regard to what we do to support this. That is the very reason why we have brought in the White Paper of the active travel Bill. The consultation closes on 14 August.

Cyfeiriodd Byron at y targedau yn y cynllun gweithredu cerdded a beicio. Gwelsom gynnydd yn nifer y bobl sy’n cerdded a beicio, ond, ie, fel chi, rwyf yn siomedig o ran llwyddiant hyn ac mae’n rhaid cael newid diwylliannol o ran yr hyn yr ydym yn ei wneud i’w gefnogi. Dyna’r rheswm pam rydym wedi cyflwyno Papur Gwyn y Bil teithio llesol. Daw’r ymgynghoriad i ben ar 14 Awst.

Eluned raised some interesting issues from her own region regarding the opportunity to join up extensive local cycle paths and to develop that so that people can access routes beyond their locality to get to work and use the routes for social activity as well, which is very important. Part of the process that we are seeking through the consultation on the White Paper is the proper design of the infrastructure and the new cycle paths and walkways.

Soniodd Eluned am rai materion diddorol o’i rhanbarth ei hun ynglŷn â’r cyfle i gyfuno nifer helaeth o lwybrau beicio lleol ac i ddatblygu hynny fel y gall pobl ddefnyddio llwybrau y tu hwnt i’w hardal leol i gyrraedd y gwaith a defnyddio’r llwybrau ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol yn ogystal, sy’n bwysig iawn. Mae rhan o’r broses yr ydym yn ei cheisio drwy gyfrwng yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn ymwneud â dylunio’r seilwaith a’r llwybrau beicio a cherdded newydd yn briodol.

Jocelyn Davies is right to raise the issue that cycle paths are more than 12 inches of red paint. They have to be designed properly. We will be seeking to issue guidance in relation to the Bill regarding the proper design processes for local authorities to adhere to.

Mae Jocelyn Davies yn iawn wrth ddweud nad 12 modfedd o baent coch yw llwybrau beicio yn unig. Rhaid iddynt gael eu cynllunio’n iawn. Byddwn yn ceisio cyhoeddi canllawiau mewn perthynas â’r Bil ar y prosesau dylunio priodol y dylai awdurdodau lleol gydymffurfio â hwy.

Jenny raised the issues, as have others, around the young people walking to school

Soniodd Jenny, fel y gwnaeth eraill, am y materion ynglŷn â’r fenter i gael pobl ifanc i

initiative. These are really important things. If we can create the right cultural shift at a young age, we know that that progresses into later life as using a bike becomes the norm, as does walking to work or undertaking social activities. We are supportive of that, and we work closely with Sustrans Cymru to develop these programmes. I visited a local school in Cardiff with Julie Morgan last year on a walk to school day, where we processed through the area of Cardiff quickly with young children who were taking forward this programme. It is something that I would like to further develop with the Minister for education with regard to training opportunities for young people in bicycle-riding proficiency.

gerdded i'r ysgol. Mae'r rhain yn bethau pwysig iawn. Os gallwn greu'r newid diwylliannol cywir pan fo pobl yn ifanc, gwyddom fod hynny'n parhau tan yn ddiweddarach mewn bywyd, gan fod defnyddio beic yn dod yn arferol iddynt, fel y mae cerdded i'r gwaith neu ymgymryd â gweithgareddau cymdeithasol. Rydym yn cefnogi hynny, ac rydym yn gweithio'n agos gyda Sustrans Cymru i ddatblygu'r rhaglenni hyn. Ymwelais ag ysgol leol yng Nghaerdydd gyda Julie Morgan y llynedd ar ddiwrnod cerdded i'r ysgol, pan wnaethom gerdded drwy ardal o Gaerdydd yn gyflym gyda phlant ifanc a oedd yn rhan o'r broses o weithredu'r rhaglen hon. Byddwn yn hoffi datblygu hynny ymhellach gyda'r Gweinidog addysg o ran rhoi cyfleoedd hyfforddi i bobl ifanc ym maes hyfedredd beicio.

However, this is about more than just bike riding—this is also about social activity and being more active in the way that we travel. As Joyce Watson pointed out, the safety element of this is also key. With regard to pedestrian accidents, there is a high incident rate in our most deprived communities in terms of young people being affected by motorised vehicle accidents. We need to protect our young people with regard to Safe Routes to Schools, and I am pleased that our initiative continues to support local communities.

Fodd bynnag, mae hyn yn ymwneud â mwy na mynd ar feic—mae hefyd yn ymwneud â gweithgareddau cymdeithasol a bod yn fwy corfforol yn y ffordd rydym yn teithio. Fel y nododd Joyce Watson, mae'r elfen ddiogelwch yn rhan allweddol o hyn hefyd. O ran damweiniau sy'n cynnwys cerddwyr, yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig mae cyfradd uchel o ddigwyddiadau lle yr effeithir ar bobl ifanc gan ddamweiniau cerbydau modur. Mae angen inni warchod ein pobl ifanc o ran Llwybrau Diogel i Ysgolion, ac rwy'n falch bod ein menter yn parhau i gefnogi cymunedau lleol.

On the difficulty around shared space, this is a consultation paper on which we are seeking many views from all. I have already met parties with an interest in horse riding last week, which Mark Isherwood mentioned. They all have an interest and have something to add to the consultation process, which we should duly note. This must also be about respect and the way in which we use these shared spaces. We have around 20,000 miles of public rights of way in Wales, 79% of which are already footpaths. It is about how we can use them. The issue is that footpaths are not always suitable for cyclists, but we must able to assess that. Through the planning process with local authorities, we should be able to demonstrate that process.

O ran yr anhawster ynghylch mannau a rennir, mae hwn yn bapur ymgynghori yr ydym yn ceisio barn pawb yn ei gylch. Cwrddais â'r rheini sydd a wnelont â marchogaeth yr wythnos diwethaf, fel y soniodd Mark Isherwood. Mae ganddynt oll ddiddordeb ac mae ganddynt rywbeth i'w ychwanegu i'r broses ymgynghori, a dylem roi sylw dyledus i hynny. Rhaid i hyn fod yn fater o barch hefyd a'r ffordd rydym yn defnyddio mannau a rennir. Mae gennym tua 20,000 o filltiroedd o lwybrau lle y ceir hawliau tramwy cyhoeddus yng Nghymru, ac mae 79% ohonynt eisoes yn llwybrau troed. Mae'n ymwneud â sut y gallwn eu defnyddio. Y broblem yw nad yw llwybrau troed bob amser yn addas i feicwyr, ond rhaid inni allu asesu hynny. Drwy'r broses gynllunio, gydag awdurdodau lleol, dylem allu dangos y broses honno.

**Ann Jones:** On shared surfaces, I put in a plea for those people with a hidden disability such as deafness. If you are on a shared surface on a cycle path, you have little ability to hear a bicycle coming behind you. That causes great difficulties in some local authority areas. Much has also been made of people being obese, but cycling is not something that many people with a disability can do, but they do not want to be told that they are causing utter chaos to the health budget because they have a disability.

**Ann Jones:** O ran arwynebau a rennir, hoffwn wneud apêl ar ran y bobl hynny sydd ag anabledd cudd, fel byddardod. Os ydych ar arwyneb a rennir ar lwybr beicio, nid yw'n hawdd ichi glywed beic sy'n dod y tu ôl ichi. Mae hynny'n achosi anawsterau mawr mewn ardaloedd rhai awdurdodau lleol. Mae llawer hefyd wedi cael ei ddweud am fod yn ordew, ond nid yw beicio yn rhywbeth y gall nifer o bobl sydd ag anabledd ei wneud; er hynny, nid ydynt am i rywun ddweud wrthynt eu bod yn achosi anhrefn llwyr i'r gyllideb iechyd oherwydd bod ganddynt anabledd.

**Carl Sargeant:** The Member raises an important issue and has raised it with me in the past. As I said, this is not just about cycling—this is about the whole opportunity for members of the public to say that they do not have a bike or that they do not wish to ride a bike, and that is fine as well. This is about having access to increase the amount of activity that people undertake on a daily basis, and not just on a weekly basis when they feel that they must go for a walk or go on a bike ride. It also gives an opportunity for some of our more deprived communities to easily access opportunities to work or the social environment through cycling, walking or other methods of sustainable transport.

**Carl Sargeant:** Mae'r Aelod yn crybwyll mater pwysig ac mae wedi ei grybwyll wrthyf o'r blaen. Fel y dywedais, nid yw hyn yn ymwneud â beicio yn unig—mae'n ymwneud â'r cyfle sydd gan aelodau'r cyhoedd i ddweud nad oes ganddynt feic neu nad ydynt yn dymuno mynd ar feic, ac mae hynny'n iawn hefyd. Mae hyn yn ymwneud â chael mynediad er mwyn cynyddu faint o weithgarwch y mae pobl yn ei wneud o ddydd i ddydd, ac nid dim ond unwaith yr wythnos pan fyddant yn teimlo bod yn rhaid iddynt fynd am dro neu fynd ar daith beic. Mae hefyd yn rhoi cyfle i rai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig gael mynediad rhwydd at gyfleoedd gwaith neu i'r amgylchedd cymdeithasol drwy feicio, cerdded neu fathau eraill o gludiant cynaliadwy.

**Eluned Parrott:** My point also concerns shared spaces. A number of new shared spaces are being created in places such as Pontypridd town centre, where the space is shared between cyclists, pedestrians and traffic at different times of the day, which presents a particular challenge for people with visual problems. Will you also look at those particular issues in your Bill?

**Eluned Parrott:** Mae fy mhwynt innau yn ymwneud â mannau a rennir. Mae nifer o fannau a rennir yn cael eu creu mewn lleoedd fel canol tref Pontypridd, lle mae'r mannau yn cael eu rhannu gan feicwyr, cerddwyr a thraffig ar adegau gwahanol o'r dydd. Mae hynny'n cyflwyno her arbennig i bobl sydd â phroblemau o ran eu golwg. A wnewch chi hefyd ystyried y materion penodol hynny yn eich Bil?

**Carl Sargeant:** I am pleased to take any views from Members and the public during the consultation process on the White Paper. I am familiar with shared space initiatives, although we as a Welsh Government have not supported any such initiatives, as these have all been led by local authorities and not by the Welsh Government. There are still many questions to be considered around the integration of shared spaces, but let us not

**Carl Sargeant:** Byddaf yn falch o gael unrhyw sylwadau gan yr Aelodau a'r cyhoedd yn ystod y broses o ymgynghori ar y Papur Gwyn. Rwy'n gyfarwydd â mentrau rhannu mannau, er nad ydym ni fel Llywodraeth Cymru wedi cefnogi unrhyw fentrau o'r fath, gan eu bod i gyd wedi'u harwain gan awdurdodau lleol ac nid gan Lywodraeth Cymru. Mae nifer o gwestiynau i'w hystyried o hyd ynghylch integreiddio

lose sight of the whole active travel element. The White Paper is just about increasing people's use of active travel, whether that is by bike, walking or other means of sustainable transport. There will always be a conflict, whether that is on a pavement, a road or a public footpath, between different modes of transport. As I said earlier, this can be designed out.

mannau a rennir, ond gadewch inni beidio â cholli golwg ar yr elfen teithio llesol gyfan. Mae'r Papur Gwyn yn ymwneud â chynyddu faint o deithio llesol y mae pobl yn ymgymryd ag ef yn unig, boed hynny ar feic, ar droed neu drwy fathau eraill o gludiant cynaliadwy. Bydd gwrthdaro bob amser rhwng gwahanol ddulliau o deithio, boed hynny ar balmant, ffordd neu lwybr troed cyhoeddus. Fel y dywedais yn gynharach, gellir cynllunio i ddatrys hyn.

There is also an opportunity for a respect agenda, so that people understand that cyclists should not whizz past Julie Morgan who wants to go at a more leisurely pace. There must be a respect agenda so that we are all able to use these routes through our communities. I am very pleased by the general support from Members today for this activity. There is much more work to be done to take this agenda forward. I hope that this will be done through the processes I have outlined today. I hope that Members will get engaged with the consultation on the active travel Bill and respond. I support the amendments.

Mae cyfle hefyd i gael agenda parch, fel bod pobl yn deall na ddylai beicwyr wibio heibio Julie Morgan, sy'n dymuno mynd ar gyflymder mwy hamddenol. Rhaid cael agenda parch fel ein bod i gyd yn gallu defnyddio'r llwybrau hyn drwy ein cymunedau. Rwyf wedi fy nghalonogi'n fawr gan gefnogaeth gyffredinol yr Aelodau heddiw i'r cam hwn. Mae llawer mwy o waith i'w wneud i symud yr agenda hwn yn ei flaen. Gobeithio y bydd hyn yn cael ei wneud drwy'r prosesau yr wyf wedi'u hamlinellu heddiw. Rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau'n cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar y Bil teithio llesol ac yn ymateb iddo. Rwy'n cefnogi'r gwelliannau.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 1 be agreed. Are there any objections? I see that there are none. Therefore, in accordance with Standing Order No. 12.36, amendment 1 is agreed.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Y cwestiwn yw ein bod yn derbyn gwelliant 1. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36, caiff gwelliant 1 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 1.*
*Amendment 1 agreed.*

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 2 be agreed. Are there any objections? I see that there are none. Therefore, in accordance with Standing Order No. 12.36, amendment 2 is agreed.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Y cwestiwn yw ein bod yn derbyn gwelliant 2. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36, caiff gwelliant 2 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 2.*
*Amendment 2 agreed.*

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 3 be agreed. Are there any objections? I see that there are none. Therefore, in accordance with Standing Order No. 12.36, amendment 3 is agreed.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Y cwestiwn yw ein bod yn derbyn gwelliant 3. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36, caiff gwelliant 3 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 3.*
*Amendment 3 agreed.*

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 4 be agreed. Are there any objections? I see that there are none. Therefore, in accordance with Standing Order No. 12.36, amendment 4 is agreed.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Y cwestiwn yw ein bod yn derbyn gwelliant 4. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36, caiff gwelliant 4 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 4.*
*Amendment 4 agreed.*

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 5 be agreed. Are there any objections? I see that there are none. Therefore, in accordance with Standing Order No. 12.36, amendment 5 is agreed.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Y cwestiwn yw ein bod yn derbyn gwelliant 5. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36, caiff gwelliant 5 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 5.*
*Amendment 5 agreed.*

Cynnig NDM4982 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM4982 as amended:

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn ystyried polisïau teithio llesol Llywodraeth Cymru, a photensial teithio llesol o ran mynd i'r afael â thlodi, gwella iechyd y cyhoedd a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.*

*Considers the Welsh Government's active travel policies and the potential of active travel to tackle poverty, improve public health and reduce greenhouse gas emissions.*

*Yn nodi â phryder nad yw Cymru, ar hyn o bryd, ar y llwybr cywir i gyrraedd targedau allweddol a gaiff eu diffinio yng Nghynllun Gweithredu Cerdded a Beicio Llywodraeth Cymru.*

*Notes with concern that Wales is currently not on course to meet key targets defined in the Welsh Governments Walking and Cycling Action Plan.*

*Yn nodi'r sylwadau a wnaeth Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd yn ei Adroddiad Blynyddol cyntaf, y bu cynnydd y Llywodraeth yn ansicr o ran annog newid ymddygiad tuag at ddewisiadau teithio doethach.*

*Notes the comments made by the Climate Change Commission for Wales in its First Annual Report that the Government has made uncertain progress in encouraging behavioural change for smarter choices of travel.*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar effaith gronnol ei mentrau teithio llesol ar allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru.*

*Calls on the Welsh Government to publish an annual report on the cumulative impact of its active travel initiatives on greenhouse gas emissions in Wales.*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod llwybrau cerdded a llwybrau beicio lleol wedi'u cysylltu â'i gilydd a chanolfannau teithio eraill er mwyn creu llwybrau rhanbarthol a chenedlaethol hyfyw.*

*Calls on the Welsh Government to ensure that local pedestrian and cycle routes are linked to each other and other transport hubs to create viable regional and national routes.*

*Yn credu y dylid ei gwneud yn orfodol i bob*

*Believes all major planning developments*

*datblygiad cynllunio mawr ystyried yr angen am fynediad rhwydd i gerddwyr a beicwyr.*

*should be required to take into account the need for easy access by pedestrians and cyclists.*

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** The question is that the motion, as amended, be agreed. Are there any objections? I see that there are none. Therefore, in accordance with Standing Order No. 12.36, the motion, as amended, is agreed.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Y cwestiwn yw ein bod yn derbyn y cynnig, fel y'i diwygiwyd. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36, caiff y cynnig, fel y'i diwygiwyd, ei dderbyn.

*Derbyniwyd cynnig NDM4982 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM4982 as amended agreed.*

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** It has been agreed that voting time will take place after the last item of business. Unless three Members wish for the bell to be rung, I will proceed directly to voting time. Does anyone wish for the bell to be rung? I see that no-one does.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Cytunwyd y byddai'r cyfnod pleidleisio'n digwydd ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Os nad oes tri Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu, byddaf yn symud yn syth at y cyfnod pleidleisio. A oes unrhyw un yn dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

## Cyfnod Pleidleisio
## Voting Time

*Gwelliant 2 i NDM4981: O blaid 21, Ymatal 0, Yn erbyn 23.*
*Amendment 2 to NDM4981: For 21, Abstain 0, Against 23.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Parrott, Eluned
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Simon
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM4981: O blaid 21, Ymatal 0, Yn erbyn 24.*
*Amendment 3 to NDM4981: For 21, Abstain 0, Against 24.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Parrott, Eluned
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Simon
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 4 i NDM4981: O blaid 45, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 4 to NDM4981: For 45, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark

Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

Cynnig NDM4981 fel y'i diwygiwyd:

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*Yn nodi'r cynnydd wrth weithredu 'Law yn Llaw at Iechyd' ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i:*

*a) dangos atebolrwydd llwyr am y GIG; a*

*b) amlinellu'n glir y rhesymau ariannol a chlinigol dros unrhyw gynigion i ad-drefnu ysbytai.*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi manylion llawn unrhyw newidiadau arfaethedig i ddarpariaethau gwasanaethau'r GIG o ganlyniad i 'Law yn Llaw at Iechyd', cyn gynted â phosibl er mwyn gallu hwyluso trafodaethau deallus yn lleol.*

Motion NDM4981 as amended:

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Notes progress in implementing 'Together for Health' and calls on the Welsh Government to:*

*a) demonstrate full accountability for the NHS; and*

*b) clearly outline the financial and clinical reasons for any hospital reconfiguration proposals.*

*Calls on the Welsh Government to provide full details of any proposed changes to NHS service delivery as a result of 'Together for Health' at the earliest opportunity so as to facilitate informed debates at a local level.*

*Cynnig NDM4981 fel y'i diwygiwyd: O blaid 35, Ymatal 0, Yn erbyn 10.*
*Motion NDM4981 as amended: For 35, Abstain 0, Against 10.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Jocelyn
Davies, Keith

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William

Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Isherwood, Mark
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

*Derbyniwyd cynnig NDM4981 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM4981 as amended agreed.*

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** That concludes today's business. Thank you.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Daw hynny â thrafodion heddiw i ben. Diolch.

*Daeth y cyfarfod i ben am 4.29 p.m.*
*The meeting ended at 4.29 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)

Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)